**CRONFA GOFFA'R DREFTADAETH GENEDLAETHOL**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018



HC 1315
SG/2018/94

# Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag Adran 7(1) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980, a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 7(3) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980

**Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 11 Gorffennaf 2018**
**Cyflwynwyd gan Weinidogion yr Alban gerbron Senedd yr Alban 11 Gorffennaf 2018**
**Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 13 Gorffennaf 2018**
**Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 17 Medi 2018**

HC 1315
SG/2018/94

**© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2018**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu logos asiantaeth eraill, lle bônt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a nodi teitl y ddogfen. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliad hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn National Heritage Memorial Fund, 7 Holbein Place, London SW1W 8NR

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

ISBN 978-1-5286-0601-1

CCS0618945008 07/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


2 Rhagair gan Syr Peter Luff, Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

4 Platiau Cinio Menywod Enwog

6 Caffaeliad Torch Aur Oes Efydd Dwyrain Swydd Gaergrawnt

7 Achub *Queen Victoria*

8 Caffael Casgliad Clarke: Archif Unigryw DH Lawrence

9 Sicrhau dyfodol *A Game of Bowls* yn Ightham Mote

10 Caffael *Two Women in a Garden* gan Eric Ravilious

12 Caffael Llyfr Oriau Sallwyr Mostyn

13 Aristocratiaid Eingl-Sacsonaidd o 'gerllaw Diss'

14 Adfer Paradwys: Ailgysylltu tirwedd hanesyddol Hestercombe

16 Celc Galloway

17 Papurau Monson

18 Owen Jones – dyluniadau ar gyfer 'Examples of Chinese Ornament'

20 Fâs y Diwrnod Cyntaf

21 Eric Ravilious *Beachy Head*

22 Gweledigaeth Twnnel yn Amgueddfa Brunel

23 Syr Marc Brunel – casgliad ar gyfer Amgueddfa Being Brunel a Sefydliad Brunel

24 Torchau Leekfrith

**25 Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r swyddog cyfrifyddu**

25 Adroddiad ar Berfformiad

33 Adroddiad atebolrwydd

50 Y datganiadau ariannol

- 50 Datganiad o wariant net cynhwysfawr
- 51 Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr
- 52 Datganiad o'r sefyllfa ariannol
- 53 Datganiad llifoedd arian
- 53 Cysoni llifoedd arian net i symudiad mewn cronfeydd net
- 54 Nodiadau i'r cyfrifon

**64 Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi o ran Amser Cyfleuster) 2017**

**65 Datgelu buddsoddiadau**

**66 Cadeirydd, ymddiriedolwyr a rheolwyr**

**Cydnabyddiaethau**

## Rhagair gan Syr Peter Luff
Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol



**Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) yn chwarae rhan bwysig i helpu achub amrywiaeth gyfoethog treftadaeth ein cenedl i'r cyhoedd, ac mae ei gwaith yn haeddu sylw ehangach. Dros ddeunaw ar hugain o flynyddoedd, rydym wedi ariannu caffaeliadau yn amrywio o dirweddau ac adeiladau nodedig, i ddogfennau ac arteffactau o bwysigrwydd hanesyddol mawr, o weithiau celf enwog i wrthrychau anarferol diwylliant y werin. Yn 2017–18, rydym wedi helpu sicrhau dyfodol cymysgedd o dreftadaeth amrywiol a diddorol unwaith eto – o dirwedd hanesyddol Gardd Hestercombe i drysorau godidog y Llychlynwyr; o fâs Wedgwood i ddyluniadau Marc Brunel ar gyfer Twnnel Afon Tafwys.**

Sefydlwyd CGDG ym 1980 i achub y gorau o'n treftadaeth genedlaethol i'r cyhoedd, fel coffâd parhaol i'r rheiny a gollodd eu bywydau dros y wlad mewn gwrthdaro arfog. Heddiw, a diolch i gyllid parhaus gan y Llywodraeth, rydym yn ymfalchïo yn ein rôl i helpu achub trysorau sy'n cynrychioli'r gorau o'n diwylliant a'n cymdeithas y mae miloedd lawer wedi marw i'w gwarchod. Mae ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i ariannu CGDG yn golygu y gallwn helpu cyflawni blaenoriaethau Datganiad Treftadaeth 2017 hefyd, a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

Mae'r Gronfa yn gweithio i bobl ledled y DU, gan sicrhau bod treftadaeth eu hardal, eu rhanbarth neu wlad yn cael ei hachub, a'i bod ar gael i bawb. Lle bynnag y bo modd, rydym yn hoffi helpu agweddau ar ein treftadaeth sydd â chymeriad coffaol nodedig iddynt, felly eleni, roeddwn yn arbennig o falch ein bod wedi gallu helpu achub dau o weithiau gan Eric Ravilious, a wasanaethodd fel arlunydd rhyfel yn yr Ail Ryfel Byd. Datganwyd bod Ravilious wedi'i ladd mewn brwydr ym 1942 ar ôl i'r awyren yr oedd yn teithio ynddi, ar gyrch oddi ar arfordir Gwlad yr Iâ, fethu dychwelyd. Nawr, bydd *Beachy Head* a *Two Women in a Garden*, yn aros yn y casgliadau yn Oriel Gelf Towner yn Eastbourne ac Oriel Gelf Fry yn Saffron Walden yn y drefn honno.

> "Mae CGDG yn gweithio i bobl ledled y DU, gan sicrhau bod treftadaeth eu hardal yn cael ei hachub, a'i bod ar gael i bawb."

Yn yr 20fed Ganrif yr oedd Ravilious yn gweithio, ond eleni bu modd i ni achub eitemau cynharach o lawer hefyd. Roedd torch aur Oes Efydd Dwyrain Swydd Gaergrawnt hynod hardd ymhlith nifer o eitemau a ddatganwyd yn Drysor y gwnaethom helpu eu hariannu, sydd wedi'u datgladdu gan bobl â datgelwyr metel ledled y DU.

Fe wnaeth y Rhyfel Byd Cyntaf ysgogi ymestyn yr etholfraint, ym 1918, i'r holl ddynion a menywod dros dri deg oed. Yn y flwyddyn ganmlwyddiant hon, rydym yn falch iawn o helpu Charleston yn Nwyrain Swydd Sussex i sicrhau set o blatiau cinio yn dangos deugain ac wyth o fenywod enwog mewn hanes. Fe'u paentiwyd gan Duncan Bell a Vanessa Grant, ac maent yn rhan o grŵp o awduron ac artistiaid Bloomsbury o'r 1930au; mae'r menywod yn amlygu'r cynnydd mewn arwyddocâd a dealltwriaeth o straeon a hanesion menywod mewn cymdeithas ar y pryd, a'r pwyslais cynyddol arnynt.

Ochr yn ochr â'r ddau ar bymtheg o gaffaeliadau a gefnogom eleni, fe wnaethom hefyd gwblhau'r Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig, a weithredwyd gan CGDG ar ran yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dyfarnwyd cyfanswm o £53.4miliwn drwy'r cynllun i 907 o fannau addoli. Hoffwn ddiolch i holl staff CGDG a weithiodd ar y Gronfa Atgyweirio Toeon dros y ddwy flynedd diwethaf, am eu gwaith caled a'u hymroddiad rhagorol. Fe wnaeth hyn alluogi gwneud atgyweiriadau pwysig i fannau addoli er mwyn eu diogelu i'r cymunedau a wasanaethant.

"Eleni mae arbenigedd ac ymdrechion (staff CGDG) wedi helpu achub darnau gwirioneddol wych o hanes ein cenedl."

Hoffwn ddiolch hefyd i bawb sy'n gweithio yn CGDG ac i'n panel ymgynghorol, ein panel buddsoddi a'n hymddiriedolwyr, am eu hymroddiad i dreftadaeth y DU. Mae ein cyllid yn gyfyngedig, a rhaid ei stiwardio a'i wario'n ddoeth er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl. Eleni, mae eu harbenigedd a'u hymdrechion wedi helpu achub darnau gwirioneddol wych o hanes ein cenedl – gan eu diogelu er budd cenedlaethau'r dyfodol.

**Syr Peter Luff**
Cadeirydd CGDG



## Platiau Cinio Menywod Enwog

Ymddiriedolaeth Charleston

**£310,000**

Comisiynwyd y Platiau Cinio Menywod Enwog gan Kenneth Clark yn y 1930au gan artistiaid grŵp Bloomsbury, Vanessa Bell a Duncan Grant.

Mae'r 50 o blatiau yn dangos deuddeg brenhines, deuddeg o fenywod a oedd yn enwog am eu harddwch, deuddeg o awduresau a deuddeg o berfformwyr, ynghyd ag un plât yn darlunio Bell, ac un yn darlunio Grant. Cafodd pob plât ei ddylunio a'i baentio â llaw gan yr artistiaid ar blatiau plaen, wedi'u cynhyrchu'n fasnachol, wedi'u gwneud gan Wedgwood.

Mae'r 48 o fenywod terfynol yn rhestr ddiddorol iawn, sy'n cynrychioli straeon a hanesion menywod sydd heb eu hadrodd, ac wedi'u cuddio, yn aml. Mae'r platiau'n darlunio Elizabeth Barrett Browning,



y bardd a anufuddhaodd i'w thad i briodi Robert Browning a dianc i'r Eidal; Nell Gwyn, meistres i Frenin Siarl II am amser maith; a Catrin Fawr, Ymerodres Rwsia yn y 18fed ganrif.

Cynigiwyd y casgliad i'w brynu i Ymddiriedolaeth Charleston, sy'n rhedeg Charleston, sef hen gartref Bell a Grant. Gyda chymorth gan CGDG, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gallu sicrhau'r pryniant ac atal y casgliad rhag cael ei wahanu neu'i werthu dramor.

# Caffaeliad Torch Aur Oes Efydd Dwyrain Swydd Gaergrawnt

## Amgueddfa Ely

**£150,000**

Datgelydd metel ddaeth o hyd i'r dorch unigryw hon o'r Oes Efydd mewn cae yn Nwyrain Swydd Gaergrawnt. Credir mai hon yw'r fwyaf sydd wedi'i darganfod yn Lloegr mewn mwy na chanrif, ac mae o ansawdd eithriadol.

Gan fod y dorch mor fawr, bu llawer o ddyfalu ynghylch beth oedd y defnydd a wnaed ohoni. Gallai fod wedi'i gwisgo dros ddillad trwchus; ei defnyddio i addurno anifail neu gerfddelw aberthol; neu hyd yn oed wedi'i gwisgo gan fenywod beichiog fel math o amddiffyniad. Mae'r dorch yn eistedd ochr yn ochr â darganfyddiadau diweddar eraill o'r corsydd, gan adlewyrchu pwysigrwydd a bywiogrwydd yr ardal hon yn yr Oes Efydd, gyda rhwydweithiau masnachu eang a phobl dra chrefftus.

Bydd y darn eithriadol brin a hardd hwn o hanes yn cael ei arddangos yn barhaol nawr yn Amgueddfa Ely, gan helpu i adrodd stori gwareiddiad yn yr Oes Efydd yn y corsydd ac o amgylch y corsydd dros 3,000 o flynyddoedd yn ôl.





## Achub *Queen Victoria*

### Amgueddfa Fitzwilliam Museum, Prifysgol Caergrawnt

### £267,607

Cafodd y penddelw marmor hwn o *Queen Victoria* gan Syr Alfred Gilbert ei gomisiynu gan yr Army and Navy Club ym 1887 i nodi Jiwbilî Aur y Frenhines Victoria. Comisiynwyd Alfred Gilbert, y cyfeiriwyd ato fel 'prif gerflunydd ei genhedlaeth ym Mhrydain'. Y penddelw hwn yw'r enghraifft harddaf o waith Gilbert mewn marmor, castiwyd y mwyafrif o'i ddarnau mewn efydd; yr un mwyaf adnabyddus yw cofeb 'Eros' Shaftesbury yn Piccadilly Circus, Llundain.

Mae'r penddelw yn fwy na'r maint go iawn, yn mesur 96cm o uchder, ac mae'n dangos nodweddion ac edrychiad y Frenhines oedrannus yn hynod fanwl.

Gwerthwyd y cerflun dros dro i amgueddfa yn Efrog Newydd pan ddyfarnodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod ganddo gyswllt rhy agos â'n treftadaeth genedlaethol, a'i wneud yn destun gohiriad trwydded allforio. Yn ystod yr amser hwn, roedd Amgueddfa Fitzwilliam wedi gallu caffael y darn gyda chymorth cyllid CGDG, ac achub y cerflun i'r genedl.

## Caffael Casgliad Clarke: Archif Unigryw DH Lawrence

Prifysgol Nottingham


£278,400


DH Lawrence (1885–1930) oedd un o awduron pwysicaf yr 20fed ganrif. Mae ei weithiau mwyaf adnabyddus yn cynnwys *Sons and Lovers, Women in Love* a'r nofel ddadleuol, *Lady Chatterley's Lover.*

Mae casgliad Clarke, a oedd yn berchen yn wreiddiol i chwaer Lawrence, Ada Clarke, yn gofnod unigryw a phersonol o fywyd teuluol Lawrence a'u cyfnod yn Swydd Nottingham, a ddefnyddiodd Lawrence ar gyfer ei fyd ffuglennol.

Mae'r casgliad yn cynnwys cyfres hir o lythyrau a chardiau post gan Lawrence at ei chwaer Ada, o 1911 i ychydig ddyddiau cyn iddo farw o'r ddarfodedigaeth ym 1930. Mae'r ohebiaeth yn adlewyrchu meddyliau, gwaith a pherthnasoedd yr awdur, trwy gydol ei deithiau ar draws Ewrop, Asia, Awstralia, UDA a Mecsico.

Bu'r casgliad ar fenthyciad tymor hir i Brifysgol Nottingham er 1992 ond heb gymorth cyllid gan CGDG, roedd perygl y byddai'r casgliad yn cael ei wahanu a'i werthu dramor, o bosibl. Nawr, bydd y casgliad yn aros ym Mhrifysgol Nottingham yn eu Casgliadau DH Lawrence.





My Love, My Mother

My little love, my darling
You were a doorway to me;
You let me out of the confine
Into a vast countrie,
Where people are crowded like thistles





**Chwith uchaf:** Braslun gan frawd hŷn Lawrence o'r ddau frawd gyda'i gilydd

**Chwith canol:** Drafft o'r gerdd My Love, My Mother (1911)

**Gwaelod chwith:** Palet arlunydd a ddefnyddiwyd gan Lawrence yn Santa Fe, Mecsico Newydd (c.1922–1925)

**Uwchben:** Ponsio y credir iddi gael ei gwisgo gan Lawrence yn Santa Fe, Mecsico Newydd (c.1922–1925)



## Sicrhau dyfodol *A Game of Bowls* yn Ightham Mote

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Ightham Mote

£175,000


Ymwelodd yr arlunydd John Singer Sargent ag Ightham Mote ar ddiwedd y 1880au pan gafodd y tŷ ei rentu i un o wŷr mawrion rheilffordd America a sylfaenydd Colorado Springs, William Jackson Palmer a'i deulu. Tra'r oedd yn ymweld â'r tŷ, cynhyrchodd frasluniau a gafodd eu defnyddio wrth baentio *A Game of Bowls*.

Y bobl sy'n chwarae bowls yw gwraig a merch y Cadfridog Palmer a'u gwesteion, gan gynnwys y dylunydd gwisgoedd, Alice Comyns Carr; y pensaer Fredrick Jameson a'i wraig; a chwaer Sargent, Violet Sargent.

Mae'r paentiad yn cipio eiliad yn hanes diddorol y tŷ gyda senario go iawn o'r teulu yn croesawu eu ffrindiau artistig.

Fel darluniwr adnabyddus, mae hwn yn ddarn anarferol gan Sargent ac fe'i disgrifiwyd fel un 'ecsentrig' o ran ei arddull. Cafodd y paentiad ei etifeddu gan Elsie, merch y teulu Palmer, ac yn fwy diweddar roedd yn berchen i'r dyn busnes Americanaidd, A. Alfred Taubman ac i arwerthwyr Sotheby's. Yn fwy diweddar, bu ar fenthyg i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ightham Mote. Ar ôl cael y dyfarniad grant gan CGDG, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu sicrhau'r paentiad ar gyfer y dyfodol, a bydd yn parhau i'w arddangos yn Ightham Mote.





## Caffael *Two Women in a Garden* gan Eric Ravilious

### Cymdeithas Oriel Gelf Fry

### £130,000

Mae *Two Women in a Garden* yn waith cynnar prin gan Eric Ravilious. Roedd arddull dra adnabyddus yr arlunydd yn ddigynnwrf, yn dawel o ran lliw, yn geometrig o ran manylrwydd ac yn fodernaidd, ac anaml iawn yr oedd ei baentiadau yn cynnwys pobl. Mae Two Women yn gyferbyniad hynod. Mae'n dangos dechreuad yr hyn a oedd i ddod yn arddull nodedig ganddo – ffurfiau geometrig, a lliwiau cynnil – ond ei ffocws yw'r menywod.

Y ddwy ddynes yn y paentiad yw'r arlunydd Tirzah Ravilious, sef gwraig yr arlunydd; a Charlotte Bawden, a oedd hefyd yn arlunydd, ac yn briod ag Edward Bawden. Roedd y cyplau wedi symud i Brick House, Great Bardfield, gyda'i gilydd yn y 1930au. Mae'r llun dyfrlliw yn dyddio o'r adeg pan oedd Great Bardfield yn dod yn ganolbwynt i grŵp o arlunwyr a dylunwyr, a ddaeth i'w hadnabod yn ddiweddarach fel Arlunwyr Great Bardfield. Mae wedi'i ddehongli naill ai fel teyrnged i'r ddelfryd o fyw yn y wlad neu'n bwynt mwy personol am y trefniadau domestig yn Brick House.

Ar ôl bod ar fenthyg i Oriel Gelf Fry, yn Saffron Walden, gerllaw Great Bardfield, am nifer o flynyddoedd, ffurfiodd Eric Ravilious gyfeillgarwch di-oed ag Edward Bawden a rhai eraill o'u dyddiau fel myfyrwyr yn y Coleg Celf Brenhinol. Paentiodd Ravilious lawer o olygfeydd o Bardfield a Castle Hedingham, lle symudont yn ddiweddarach. Mae grant gan CGDG wedi galluogi'r Oriel i brynu'r paentiad gan deulu'r arlunydd, a bydd y paentiad yn dod yn rhan o gasgliad parhaol yr Oriel yn awr.





**Uwchben:** Oriau Mostyn, Y Llyfrgell Brydeinig, 89250 Ychwanegol, ff.8v-9, tudalen galendr ar gyfer Mawrth gydag Aries a llafurwr yn tocio gwinwydd.

**I'r Dde:** Oriau Mostyn, Y Llyfrgell Brydeinig, 89250 Ychwanegol, ff.30v-31, eneinio Dafydd, ar ddechrau Salm 26

## Caffael Llyfr Oriau Sallwyr Mostyn

### Y Llyfrgell Brydeinig

### £390,000

Mae'r llawysgrif brin a hardd hon yn gyfuniad o Sallwyr (cyfrol o Salmau) a llyfr oriau (cyfrol o weddïau i'w hadrodd trwy gydol 'oriau' y dydd). Mae'n un o ychydig o enghreifftiau yn unig sy'n goroesi o lyfrau moethus a wnaed yn Llundain ar ddiwedd y 13eg ganrif. Mae'r ysgrifen yn y llyfr yn cynnwys delweddau a llythrennu addurnol tu hwnt, a cheir darluniadau yn y calendr o lafuriau'r misoedd ac arwyddion y Sidydd.

Mae'r calendr yn dangos dilyniant o seintiau Llundain – gan gynnwys esgobion Llundain y seithfed ganrif, Melitus ac Erkenwald – a gwledd symudiad Edward Gyffeswr yn San Steffan ym 1269.

Gyda chymorth cyllid CGDG, mae'r Llyfrgell Brydeinig wedi ychwanegu'r Oriau-Sallwyr at ei chasgliad, ac mae'r llyfr wedi'i ddigideiddio fel ei bod ar gael i bawb ei fwynhau.

## Aristocratiaid Eingl-Sacsonaidd o 'gerllaw Diss'

Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk

**£90,900**

Yn ôl yn 2015, canfu datgelwyr metel fedd o'r 7fed ganrif gerllaw Winfarthing yn Ne Norfolk. Fe wnaeth cloddiad archaeolegol yn ddiweddarach ganfod amrywiaeth ragorol o eitemau, o dlysau aur, i bowlen, cyllell haearn a bwcl haearn.

Mae nwyddau'r bedd yn grŵp o eitemau statws uchel, a oedd yn perthyn i ddynes Eingl-Sacsonaidd gyfoethog yn y 7fed ganrif. Roedd y rhain yn cynnwys tlws crog aur a garned, dau dlws crog darn arian y Brenin Merofingaidd Sigeberht III, a thlws croes aur. Mae'r addurn ar y tlws crog mwyaf yn dangos nodweddion tebyg i dlysau a ganfuwyd yn Sutton Hoo gerllaw.

Gyda'i gilydd, gall y nwyddau helpu adeiladu dealltwriaeth o broses tröedigaeth y gymdeithas Eingl-Sacsonaidd i Gristnogaeth, a'r arferiad o gladdu gyda nwyddau bedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu dynes a oedd yn Gristion, wedi'i chladdu gyda chroes, ond heb ei chladdu eto mewn eglwys na mynwent eglwys, ac yn cadw at arfer Eingl-Sacsonaidd o hyd.

Bydd grant CGDG i Wasanaeth Amgueddfeydd Norfolk yn helpu'r darganfyddiadau i ddod yn ganolbwynt arddangosiadau parhaol nawr yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich.

**Ar y brig:** Tlws crog mawr wedi'i gloddio o'r bedd yn Winfarthing

**Gwaelod:** Eitemau un a phump: dau ddarn arian wedi'i bathu gan y Brenin Siegbert III (c.630–656)

**Eitemau da a phedwar:** 'rhyngleiniau' conigol

**Eitem ganol:** tlws crog ffurf croes wedi'i fewnosod mewn gwifren ffiligri aur, yn dynodi Cristnogaeth y ddynes gladdedig











## Adfer Paradwys: Ailgysylltu tirwedd hanesyddol Hestercombe

Ymddiriedolaeth Gerddi Hestercombe

**£1,485,000**

Mae gerddi a thirwedd Hestercombe yn gorwedd mewn ystâd hanesyddol yng Ngwlad yr Haf, ac fe'i henwyd gyntaf mewn siarter Eingl-Sacsonaidd yn 682.

Mae'r dirwedd eithriadol yn adlewyrchu dyluniad gardd sydd dros 400 mlwydd oed, gyda gardd tirwedd Georgaidd, teras Fictoraidd, a gardd ffurfiol Edwardaidd. Mae'r dirwedd hanesyddol yn dirwedd gofrestredig Gradd 1 ar Gofrestr Parciau a Gerddi Historic England.

Bydd y grant i Ymddiriedolaeth Gerddi Hestercombe gan CGDG yn helpu ailgysylltu'r dirwedd ddyluniedig. Mae'r caffaeliad yn cynnwys bron y cyfan o'r parc canoloesol, gardd ddŵr brin o'r 16eg ganrif, llynnoedd dolennog o'r 18fed ganrif ac elfennau coll o erddi ffurfiol Syr Edwin Lutyen.

Bydd Ymddiriedolaeth Gerddi Hestercombe yn gweithio nawr i adfer y tirweddau hyn a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd.



Detholiad o wrthrychau o'r Galloway Hoard

## Celc Galloway

### Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban

**£1,000,000**

Celc Galloway yw'r casgliad cyfoethocaf o wrthrychau oes y Llychlynwyr a ganfuwyd erioed ym Mhrydain. Mae'n cynnwys nifer o eitemau arian, yn ogystal â gwrthrychau aur, sy'n brin eithriadol mewn darganfyddiadau'r Llychlynwyr.

Roedd y celc heb ei gyffwrdd am ryw 2,000 o flynyddoedd wedi iddo gael ei gladdu ar ddechrau'r 10fed ganrif yn Dumfries a Galloway. Datgladdwyd y casgliad gan ddatgelydd metel ym mis Medi 2014, gan helpu i ddarganfod dros 100 o wrthrychau. Roedd y celc yn cynnwys amrywiaeth o fetel drudfawr ac eitemau gemog, gan gynnwys ingot aur prin, pin aur unigryw siâp aderyn a dysgl addurnol ag ymyl arian. Roedd y ddysgl hon yn cynnwys mwy o wrthrychau anghyffredin, fel gleiniau, swynoglau gwydr a chraig-risial, a broetshis disg Eingl-Sacsonaidd.

Datganwyd y casgliad yn Drysor Cudd, gyda gwerth o £1,982,000 ac fe'i cynigiwyd i Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban. Yna, cawsant gwta chwe mis i godi'r arian hwn, a llwyddwyd i gyflawni'u targed gyda chymorth grant o £1,000,000 y CGDG; cyllid gan Lywodraeth yr Alban, y Gronfa Gelf ac ymddiriedolaethau elusennol; yn ogystal â chefnogaeth gyffredinol gan y cyhoedd.

Bydd Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban yn gwneud gwaith adfer hanfodol i'r gwrthrychau yn awr cyn iddynt gael eu harddangos i'r cyhoedd unwaith eto.

# Papurau Monson

## Cyngor Sir Swydd Lincoln


## £242,500

Mae Casgliad Monson yn cynnwys gweithiau celf, llythyrau a phapurau teithio pwysig yn rhychwantu cyfnod o 700 mlynedd.


Mae'r casgliad yn brif archif y teulu Monson, sy'n cynnwys gwahoddiad i seremoni coroni'r Frenhines Victoria, a chopi cyfoes o adroddiad am fuddugoliaeth Nelson ym Mrwydr y Nîl.

Mae'r archif yn cynnwys cofnodion pwysig hefyd o fywyd cartref, gan gynnwys derbynebau am gelfi a ryseitiau teulu. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhoi cipolwg hynod i fywydau bob dydd pobl yn y 18fed a'r 19eg ganrif.

Pe na bai'r casgliad wedi cael ei brynu, roedd perygl difrifol y byddai'r cofnodion yn cael eu tynnu allan o Archifau Swydd Lincoln, lle buont ar fenthyciad tymor hir er 1951. Diolch i grant CGDG, bydd y darn pwysig hwn o hanes Prydain yn parhau ar gael i'r cyhoedd nawr, a bydd modd mynd ato mewn ffyrdd newydd a chyffrous.





**Ar y brig:** cynllun o ystadau'r Arglwydd Monson yn Croft, gerllaw Wainfleet

**Canol:** Cyfrifon John Dawtry yn ymwneud â 'Warres' y Brenin (1513)

**Chwith:** Map o Saxby All Saints – diwedd y 18fed ganrif

# Owen Jones – dyluniadau ar gyfer Examples of Chinese Ornament
## Amgueddfa Victoria ac Albert
## £112,500

Owen Jones oedd un o ddylunwyr mwyaf dylanwadol y 19eg ganrif. Yn bensaer yn ôl ei broffesiwn, dyluniodd nodweddion mewnol a chynllun yr arddangosiadau ar gyfer Arddangosfa Fawr 1851.

Yn ei waith dylunio, chwiliai Jones am arddull fwy modern i gystadlu yn erbyn y mudiadau neo-glasurol a'r Diwygiad Gothig, drwy astudio addurn y tu allan i Ewrop. Fe wnaeth hyn ei argyhoeddi mai patrymau gwastad, haniaethol ac yn bwysicach, lliw, oedd y ffordd ymlaen.

Mae'r 51 o ddyluniadau gwreiddiol a grëwyd i'w cyhoeddi yn *Examples of Chinese ornament selected from objects in the South Kensington Museum and other collections (1867)* yn dangos datblygiad ei feddwl ynglŷn ag addurn Tsieineaidd. Cafodd lawer o'r dyluniadau o arteffactau yn y casgliadau yn Amgueddfa De Kensintgon, sef Amgueddfa Victoria ac Albert yn ddiweddarach.

Ar ôl caffael y dyluniadau gyda chymorth grant CGDG, bydd Amgueddfa Victoria ac Albert yn gwneud ymchwil helaeth nawr i ganfod gwrthrychau ffynhonnell a chymharu'r dyluniadau; ac i olrhain dylanwad patrymau Tsieineaidd Jones ar waith dylunwyr eraill.













## Fâs y Diwrnod Cyntaf/First Day's Vase


Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries


**£267,500**

Cafodd Fâs Diwrnod Cyntaf Wedgwood ei gwneud ar y diwrnod cynhyrchu cyntaf yn ffatri Wedgwood yn Swydd Stafford ym 1769. Fe'i lluniwyd gan Josiah Wedgwood ei hun, gyda'i bartner busnes Thomas Bentley yn gweithio'r olwyn. Cafodd chwe fâs eu gwneud ar y diwrnod cyntaf, a dim ond pedair oroesodd y broses grasu.

Roedd Wedgwood yn un o arloeswyr y chwyldro diwydiannol, gyda'i ffatri yn Etruria yn un o'r crochendai pwrpasol cyntaf yn Swydd Stafford. Cafodd y fasys a wnaed ar y diwrnod cynhyrchu cyntaf eu creu mewn arddull neo-glasurol, a'u paentio gyda ffigurau o fytholeg gwlad Groeg – Oineus, Demophon a Chrysis. Mae gwahaniaeth bach yn addurn pob un o'r pedair fâs. Yr enghraifft hon yw'r unig un â phatrwm 'wy a saethell' ar ymyl y fâs a gwaelod y pen uchaf, gan ei gwneud yn unigryw. Roedd Wedgwood yn trysori'r fasys hyn a gorchmynnodd na ddylent fyth gael eu gwerthu.

Mae dwy o'r fasys eraill sy'n goroesi yn berchen i Amgueddfa V&A, ac mae'r drydedd yn parhau gyda theulu Wedgwood. Bu'r bedwaredd fâs hon ar fenthyg i Amgueddfa Potteries am dros 30 o flynyddoedd, pan gafodd ei rhoi mewn ocsiwn. Ceisiodd yr amgueddfa ei phrynu yn y gwerthiant, gyda chymorth grant CGDG. Fe'i gwerthwyd i gasglwr tramor, a rhoddwyd gwaharddiad allforio dros dro ar y fâs gan y llywodraeth. Rhoddodd hyn ddigon o amser i Amgueddfa Potteries, unwaith eto, i godi'r arian yr oedd ei angen i'w hachub. Cyfunodd grant arall gan CGDG â chyllid gan gyrff grant eraill a rhoddion gan gannoedd o aelodau'r cyhoedd a busnesau lleol, i sicrhau'r fâs yn derfynol. Nawr, bydd yn parhau i gael ei harddangos yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries yn Stoke-on-Trent.





## Eric Ravilious *Beachy Head*

Oriel Gelf Towner

£52,400

Roedd Eric Ravilious yn un o arlunwyr pwysicaf yr 20fed ganrif. Fe'i penodwyd yn arlunydd rhyfel swyddogol yn yr Ail Ryfel Byd, ond cafodd ei ladd yn ddiweddarach wrth ymuno â chyrch achub yr Awyrlu Brenhinol oddi ar Wlad yr Iâ.

Mae *Beachy Head* yn cael ei ystyried yn un o weithiau mwyaf eiconig Ravilious. Mae'n dangos bryniau a chlogwyni sialc gwyn Beachy Head y tu allan i Eastbourne – sy'n dirnod byd-enwog; ac mae'n darlunio'r ardal yn y flwyddyn pan gychwynnodd yr Ail Ryfel Byd. Newidiwyd y dirwedd yn fuan ar ôl hynny gan weiren bigog ac amddiffynfeydd milwrol a ddefnyddiwyd i ddiogelu'r clogwyn rhag goresgyniad y gelyn.

Bydd caffaeliad Oriel Gelf Towner, gyda chymorth cyllid CGDG, yn galluogi arddangos y gwaith celf yn rheolaidd nawr yn Eastbourne lle treuliodd Ravilious ei blentyndod cynnar, gan ddychwelyd yno'n gyson fel oedolyn i baentio ac arlunio'r South Downs. Hefyd, mae'r paentiad yn cael ei ddangos mewn arddangosfeydd teithiol yn Sheffield a Swydd Warwick yn ystod 2017 a 2018.

# Gweledigaeth Twnnel yn Amgueddfa Brunel

## Amgueddfa Brunel


## £235,500


Roedd Syr Marc Brunel, sef tad Isambard Kingdom Brunel, yn beiriannydd o fri. Ei gyflawniad enwocaf oedd Twnnel Afon Tafwys – yr orchest beirianyddol gyntaf o'i bath – a'r twnnel hynaf yn Rheilffordd Danddaearol Llundain erbyn hyn. Mae Peiriant Tyllu Twneli (TBM) Brunel wedi newid ffurf dinasoedd ledled y byd cyfan, a fersiynau modern awtomatig, fel Crossrail a Thwnnel y Sianel.

Pan agorodd y Twnnel ym 1843, fe'i galwyd yn Wythfed Rhyfeddod y Byd a deuai pobl o bell i'w weld.

Twnnel Afon Tafwys oedd y twnnel cyntaf erioed o dan afon yn unrhyw le yn y byd. Yn ystod y gwaith adeiladu, cafwyd llifogydd bum gwaith yn y Twnnel, ac yn y llif gwaethaf, boddodd chwech o ddynion, a bu ond y dim i Isambard Kingdom Brunel ddianc yn fyw.


Mae Amgueddfa Brunel yn union uwchben Twnnel Afon Tafwys yn y Peiriandy a'r Cyntedd Mawr, sef y fynedfa wreiddiol i'r Twnnel. Erbyn hyn, mae'r fynedfa yn oriel amgueddfa ac yn fan perfformio. Rhoddodd CGDG grant i gaffael albwm o luniadau a dyluniadau dyfrlliw ar gyfer Twnnel Afon Hafren fel rhan o Gasgliad Syr Marc Brunel.





**Ar y brig ac yn y canol:** Lluniadau o gasgliad Syr Marc yn dangos Brunel ifanc a beiddgar mewn cloch blymio i ddechrau, ac yna mewn cwch y tu mewn i'r twnnel yn archwilio'r difrod yng ngolau llusern

**Isod:** Dyluniadau ar gyfer Twnnel Afon Tafwys




## Syr Marc Brunel – casgliad ar gyfer Amgueddfa Being Brunel a Sefydliad Brunel


Ymddiriedolaeth SS Great Britain

**£160,202**

Ar ôl ffoi o Ffrainc adeg y Chwyldro Ffrengig, treuliodd Syr Marc Brunel amser yn yr Unol Daleithiau, cyn i ofynion y Llynges Frenhinol ddod ag ef i Loegr. Tra'r oedd yn byw yn yr UD, cafodd ei benodi'n Brif Beiriannydd dinas Efrog Newydd. Dyluniodd adeiladau dinesig, peiriannau i garthu afon Mohawk a thai preifat, ymhlith prosiectau eraill. Mae'r casgliad a gafaelwyd gan Ymddiriedolaeth SS Great Britain yn cynnwys cynlluniau ar gyfer y prosiectau hyn, gan gynnwys y rheiny ar gyfer adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn goroesi yn unrhyw le arall. Dinistriwyd cofnodion swyddogol Efrog Newydd mewn terfysg ledled y ddinas gyfan ym 1863.

Gyda chymorth CGDG, prynodd Ymddiriedolaeth SS Great Britain yr archif yn cynnwys 40 o gynlluniau pwysig, dyddiaduron, lluniadau a ffotograffau, gan gynnwys dyluniad dyfrlliw ar gyfer melin lifio pŵer stêm Syr Marc yn Iard Longau Lyngesol Frenhinol Chatham. Mae'r dyluniad hwn, ynghyd â detholiad o rai eraill, yn cael eu harddangos nawr am y tro cyntaf yn Amgueddfa Being Brunel a agorodd ar ddiwedd mis Mawrth 2018, ochr yn ochr ag SS Great Britain ym Mryste.





**Ar y brig:** Dyluniad dyfrlliw ar gyfer y felin lifio pŵer stêm

**Gwaelod:** Gweddlun o ddyluniad Syr Marc Brunel ar gyfer adeilad Capitol, UDA



## Torchau Leekfrith

### Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries

**£165,000**

Credir bod y pedair torch hyn – tri mwclis a breichled – yn dyddio'n ôl i ryw 400CC ac mae'n debyg eu bod wedi'u gwisgo gan fenywod pwysig yn y gymdeithas.

Fe'u darganfuwyd gan ddatgelwyr metel ar Rostiroedd Swydd Stafford, ac efallai eu bod wedi dod o'r cyfandir yn wreiddiol, o'r Almaen neu Ffrainc o bosibl. Yn benodol, mae i'r freichled nodweddion tebyg i emwaith o gelc pwysig Waldalgesheim a ddarganfuwyd yn yr Almaen ym 1869.

Hwn hefyd yw'r enghreifftiau o'r gelf Geltaidd gynharaf a ganfuwyd ym Mhrydain. Fe'i gelwir yn 'Arddull Cynnar' ac mae'n brin iawn ar wrthrychau a ganfyddir ym Mhrydain. Bydd y freichled, ynghyd â'r ddwy dorch arall, yn cael eu harddangos yn barhaol nawr yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries yn Stoke-on-Trent.

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

Diben – diben yr adroddiad perfformiad yw rhoi gwybodaeth am Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, prif amcanion a strategaethau'r sefydliad a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r adran trosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr er mwyn deall y Bwrdd, ei ddiben, y risgiau allweddol rhag cyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddiad, mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiad gan ddefnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

**Ein perfformiad yn 2017–18:**
**Datganiad gan y Prif Weithredwr**

Roedd 2017–18 yn flwyddyn brysur a phwysig iawn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu'r Gronfa). Mae'r gwaith a wnaethom yn ystod y cyfnod hwn wedi ein helpu i osod y sylfeini i'r dyfodol. Mae'r ffaith ein bod ni, ar yr un pryd, wedi llwyddo i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a osodwyd gennym ar ddechrau'r flwyddyn yn dangos ymrwymiad yr holl dimau sy'n gweithio ar ochr Cronfa Goffa ein busnes, arweinyddiaeth y Bwrdd Ymddiriedolwyr (y Bwrdd) a chryfder y Tîm Arwain.

Rydym wedi cwblhau gwaith y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig a ddechreuwyd gennym yn 2014–15. Ar ran y llywodraeth, dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi £53.4miliwn mewn 907 o fannau addoli ledled y DU mewn mannau hynod a nodedig, gan gynnwys:

- Eglwys Scarista, Ynys Harris, yr Alban: fe'i hadeiladwyd ym 1840 mewn lleoliad anghysbell yn edrych dros Fôr Iwerydd ar Ynysoedd Heledd Allanol. Dyfarnwyd grant o £71,700 ar gyfer atgyweiriadau, ac roedd lefel y cyllid partneriaeth yn arbennig o nodedig gan ystyried y lleoliad a'r gynulleidfa fach o ryw 28, gyda dros £30,000 wedi'i godi.
- Eglwys St Catherine, Temple, Cernyw: eglwys restredig Gradd II* ar Rostir Bodmin, a sefydlwyd gan Farchogion y Deml yn y 12fed ganrif. Cyfeiriwyd ati'n ddiweddarach fel 'Gretna Green Cernyw' am y byddai seremonïau priodi yn cael eu cynnal heb drwydded yno hyd nes i'r rhain ddod yn anghyfreithlon yn y 18fed ganrif. Dyfarnwyd Grant Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig o £71,700 ar gyfer atgyweiriadau.
- Eglwys Sant Iago, ym Mro Morgannwg, Y Wig, Cymru: mae'n dyddio o'r 12fed ganrif ac roedd angen atgyweirio'r to ar frys er mwyn mynd i'r afael â 'salwch hoelion' a llechi'n llithro, a arweiniodd at ddŵr yn mynd i mewn a damprwydd gweddilliol yn yr eglwys. Dyfarnwyd grant o £76,500, ac unwaith eto cynhyrchodd y prosiect gryn ddiddordeb a chefnogaeth yn y gymuned.
- Eglwys Gadeiriol Crist y Gwaredwr, Dromore, Gogledd Iwerddon: mae'n dyddio o'r 17eg ganrif ac yn eistedd ar safle a ddefnyddiwyd ar gyfer addoli gan Gristnogion ers 510OC pan sefydlodd Sant Colman o Dromore eglwys fechan plethwaith a chlai. Dyfarnwyd grant o £30,800 i'r Gadeirlan, a gysegrwyd gan Iago'r Iaf ym 1609, i atgyweirio'r llechi.

Mae gwaith parhaus tîm y Gronfa Goffa ar ein grantiau safonol wedi helpu achub rhai eitemau eithriadol o dreftadaeth ar gyfer y genedl ac wedi ehangu mynediad y cyhoedd iddynt.

Mae amrywiaeth ein grantiau yn 2017–18 yn dangos y gwerth unigryw a gyfranna CGDG i gefnogi treftadaeth ein cenedl, ac roedd y rhain yn cynnwys:

- Torch Sur Oes Efydd Dwyrain Swydd Gaergrawnt – Amgueddfa Ely
- Casgliad Syr Marc Brunel – Ymddiriedolaeth SS Great Britain
- *Two Women in a Garden* gan Eric Ravilious – Oriel Gelf Fry
- Celc Galloway Hoard – Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban
- Dyluniadau Owen Jones ar gyfer Examples of Chinese Ornament – Amgueddfa Victoria ac Albert

Gan adeiladu ar y setliad Adolygiad o Wariant, rydym wedi defnyddio ein cymorth grant blynyddol yn effeithiol iawn. Gyda buddsoddiadau ein cronfa waddol yn perfformio'n dda hefyd, achubom ar y cyfle i adolygu ein strategaeth fuddsoddi tymor hir ochr yn ochr â sicrwydd y setliad Adolygiad o Wariant i weld beth mwy y gallem ei wneud o bosibl. O ganlyniad, o fis Ebrill 2018, rydym wedi ychwanegu £750,000 ychwanegol y flwyddyn i'n cyllideb £5miliwn ar gyfer CGDG.

Rhoddodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra, a gyflwynodd adroddiad ym mis Tachwedd 2017, gefnogaeth gadarnhaol gryf i'n gwaith CGDG a byddwn yn parhau i adeiladu ar hynny yn y dyfodol.

Bydd datblygu Strategaeth Gorfforaethol newydd yn darparu map ffordd i'r Gronfa geisio buddsoddi ymhellach yn nhreftadaeth y genedl, er enghraifft trwy ddenu a dylanwadu ar gyfleoedd buddsoddi newydd er mwyn parhau â'r etifeddiaeth nodedig a adeiladwyd gennym.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl staff CGDG. Maen nhw'n gweithio gydag uniondeb a phroffesiynoliaeth aruthrol, ac maen nhw'n wirioneddol ymroddedig i waith y Gronfa ac yn darparu gwasanaeth gwych i gymunedau a threftadaeth y genedl.

**Ein diben a'n gweithgareddau**

Caiff CGDG ei breinio a'i gweinyddu gan gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy

na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998.

O dan Ddeddf 1993, daeth yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i dreftadaeth. Rhaid i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad yn ddosbarthwr cyllid y Loteri Genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer y derbyniadau o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 3 a 3a Deddf 1980, gall Ymddiriedolwyr wneud grantiau a benthyciadau allan o CGDG at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

i) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, pensaernïol, archeolegol neu wyddonol eithriadol;

ii) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;

iii) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy.

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd) yn ymestyn pwerau'r ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1980 (fel y'i diwygiwyd), a Deddf 1997, gall yr ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac anelu at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Mae'r ymddiriedolwyr yn defnyddio'r hawliau estynedig hyn yn bennaf mewn cysylltiad â CDL. Cred yr Ymddiriedolwyr fod gan CGDG rôl allweddol fel rhagfur canolog yn amddiffyniad y genedl o eitemau o bwysigrwydd eithriadol sydd mewn perygl. Bydd yr ymddiriedolwyr yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir gan y llywodraeth, yn ogystal ag adnoddau o'i gronfa waddol, i gynnig cefnogaeth ariannol fel cronfa cyfle olaf ar gyfer caffael, diogelu a chynnal a chadw treftadaeth sydd mewn perygl o gael ei dinistrio neu ei cholli.

### Ein materion a risgiau allweddol

Ein prif risg y llynedd oedd cyflawni'r rhan o waith y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig a oedd yn weddill yn llwyddiannus, a gwnaed hyn yn 2017–18 gyda'r holl gronfeydd wedi'u dyrannu i eglwysi a mannau addoli eraill yn unol ag amcanion a chanlyniadau'r rhaglen.

Hefyd, fe wnaethom reoli risg effaith argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra i'n gweithrediadau.

Ein risgiau parhaus o hyd yw'r cydbwysedd rhwng y galw am grantiau CGDG a'r gyllideb gyfyngedig sydd gennym (£4.9miliwn). Rydym yn rheoli hynny drwy flaenoriaethu grantiau'n effeithiol, asesu ceisiadau yn feirniadol a, lle bo'n briodol, cyfeirio'r rhain i'n ffrydiau cyllido Loteri. Yn ogystal, rydym wedi cytuno, o ystyried sefyllfa fanteisiol y Gronfa Waddol, i gyfeirio rhywfaint o'r cyllid oddi yno i'n cyllideb grant flynyddol hyd at £750,000 y flwyddyn yn dechrau o 2018–19.

Yn olaf, wrth i ni ddechrau cyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol newydd, y ceir mwy o fanylion amdani isod, gallai fod angen ariannu sefydlu'r gwaith ar gyfer y maes hwn drwy ein cymorth grant, i ddechrau o leiaf, hyd nes bod unrhyw ffrydiau incwm newydd yn ariannu'u hunain. Mae angen i ni fod yn effro i hyn, a rheoli unrhyw risg ariannol yn ochelgar.

### Sail busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol. Y rheswm am hyn yw bod asedau wedi bod yn sylweddol uwch na'r rhwymedigaethau ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, ac am fod yr ymddiriedolwyr wedi gosod cyllideb dyfarnu grantiau ar gyfer 2018–19 na ddisgwylir iddi newid y sefyllfa honno. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm i gredu na fydd y Gronfa yn parhau i weithredu am gryn amser eto.

Mae'r Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig wedi cael effaith sylweddol ar ein datganiad o'r sefyllfa ariannol. Gwahaniaeth o ran amseru yw hwn yn unig, oherwydd gwnaed bron y cyfan o'n dyfarniadau yn 2014–15 a 2016–17, tra bydd y taliadau grant cysylltiedig yn cael eu gwneud yn y blynyddoedd 2015–16 i 2018–19. Nid ydym yn derbyn y cymorth grant gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) hyd nes y gwneir y taliadau grant hynny, sy'n golygu y cydnabyddir y rhwymedigaeth cyn i ni dderbyn cymorth grant i'w clirio i gyd. Dros amser, bydd effaith Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig ar ein sefyllfa ariannol yn niwtral.

### Crynodeb o berfformiad

Mae graddau gwaith y Gronfa Goffa yn golygu nad oes gennym lawer o ddangosyddion perfformiad, ond dangosir y rhain yn yr adran o'r adroddiad hwn ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar dudalen 31.

Roedd ein dangosydd mwyaf arwyddocaol fel a ganlyn:

| Dangosydd (ar gyfer dyfarniadau safonol yn unig) | Canlyniad yn 2017–18 |
|---|---|
| Bydd costau CGDG o dan 5% o'r cymorth grant | Rhagorwyd (2.8%) |

Rydym wedi bodloni ein holl dargedau arwyddocaol yn 2017–18. Nid oes unrhyw ddangosyddion wedi'u pennu ar gyfer rhaglen Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig ac eithrio cyflymder talu grantiau.

## Dadansoddi Perfformiad

Cyhoeddwyd y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig gan Ganghellor y Trysorlys bryd hynny ('y Canghellor') yn Natganiad yr Hydref 2014. Gofynnwyd i CGDG gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gynnal y rhaglen sydd wedi'i bwriadu ar gyfer mannau addoli rhestredig ledled y Deyrnas Unedig, ni waeth beth fo'u ffydd neu enwad. Cawsom dros 1,900 o geisiadau yn gofyn am grantiau o £105miliwn erbyn mis Ionawr 2015, a gwnaethom ddyfarnu £26.4miliwn i fwy na 500 o fannau addoli ym mis Mawrth 2015. Dyfarnwyd cynnydd pellach mewn grantiau o £2filiwn yn 2015–16. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r prosiectau o'r rownd gyntaf hon yn llwyddiannus yn ystod 2016–17, gyda'r gweddill yn cael eu cwblhau yn ystod 2017–18.

I ymateb i'r galw uchel, neilltuodd y Canghellor £25miliwn ychwanegol ar gyfer ail rownd o'r rhaglen i'w ymrwymo yn ystod 2016–17. Lansiwyd y rownd hon ddiwedd Rhagfyr 2015 a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais oedd 26 Chwefror 2016. Derbyniom dros 1,500 o geisiadau yn gofyn am £88miliwn. Gwnaed cyfanswm gwerth £22.9miliwn o ddyfarniadau i dros 400 o ymgeiswyr ym mis Mehefin 2016. Cytunwyd gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y gallai £1filiwn o'r £25miliwn o 2016–17 gael ei ddwyn ymlaen i 2017–18 i ddarparu cyllid ar gyfer cynnydd mewn grantiau i'r prosiectau hynny a oedd wedi datgelu problemau ychwanegol wedi i waith atgyweirio gychwyn. Defnyddiwyd y swm hwn yn llawn yn ystod y flwyddyn, ynghyd â £200,000 ychwanegol wedi'i ailgylchu o ddadymrwymiadau o brosiectau nad oedd angen eu cyllid llawn arnynt.

Yn ystod 2017–18, cwblhawyd dros 160 o brosiectau o ail rownd Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig. Mae'r gweddill i gyd ar waith, a dylid eu cwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2018. Yn ychwanegol at arfarniad allanol o raglen y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig, a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2017, mae staff y Gronfa Atgyweirio Toeon wedi bod yn cynnal eu harfarniad eu hunain o'r rhaglen. Mae canlyniadau'r gwaith hwnnw'n cael eu coladu a byddant yn cyfrannu at wersi a ddysgwyd i helpu llywio gwaith CGDG yn y dyfodol.

Ac eithrio Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig, derbyniodd CGDG 17 o geisiadau ac ariannwyd pob un ohonynt gan ymddiriedolwyr, gan wneud cyfanswm o £5,512,109. Eleni, fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae CGDG wedi cefnogi caffael ystod eang o dreftadaeth bwysig ac arwyddocaol ledled y DU.

Roeddem yn arbennig o falch fod Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries wedi llwyddo i gaffael fâs Diwrnod Cyntaf Wedgwood. Y llynedd, methodd yr amgueddfa brynu'r fâs mewn ocsiwn. Fodd bynnag, rhoddwyd trwydded gohirio allforio ar y fâs, a galluogodd hyn yr amgueddfa i ail-ymgeisio i CGDG a chodi'r swm gofynnol yn llwyddiannus i sicrhau'r fâs. Yn anarferol, dim ond un caffaeliad arall a ddaeth o eitemau a waharddwyd dros dro rhag eu hallforio. Ar ôl gwerthiant i Amgueddfa Gelf Metropolitan, Efrog Newydd, bu'r penddelw *Queen Victoria* gan Alfred Gilbert yn destun trwydded gohirio allforio ar y sail ei fod yn bodloni pob un o feini prawf Waverley. Roedd Amgueddfa Fitzwilliam yng Nghaergrawnt yn llwyddiannus yn codi arian cyfatebol, a bydd y penddelw yn ymuno â'u casgliad sefydledig o weithiau gan Gilbert ac artistiaid eraill o'r mudiad Cerflunio Newydd.

Darparodd y Gronfa Goffa gymorth i amryw o eitemau archaeolegol pwysig eleni. Caffaelodd Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban Gelc Galloway, a ddarganfuwyd yn ne orllewin yr Alban yn 2014. Hwn yw'r celc pwysicaf o oes y Llychlynwyr i'w ddarganfod yn yr Alban, ac mae'n eithriadol fel casgliad o eitemau prin, gan gynnwys sawl un sy'n ganfyddiadau unigryw ar gyfer yr Alban yn oes y Llychlynwyr. Arddangosodd yr amgueddfa rywfaint o'r celc ar ddiwedd 2017, ac mae'n bwriadu arddangos eitemau yng Nghaeredin ac yn Dumfries a Galloway. Caffaelodd Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries dorchau Leekfrith, y credir eu bod yn dod o ran gyntaf y 3edd ganrif, sy'n golygu mai'r rhain yw'r ffurf gelfyddydol Geltaidd gynharaf a'r torchau aur cynharaf o'r Oes Haearn i'w darganfod ym Mhrydain. Rhoesom gymorth i ddau ddarganfyddiad Trysor yn Nwyrain Lloegr. Caffaelodd Amgueddfa Ely dorch aur Oes Efydd Dwyrain Swydd Gaergrawnt a gafodd ei dyddio oddeutu 1300–1100CC. Mae'r dorch yn fwy nag unrhyw dorch arall o'r Oes Efydd a ganfuwyd yn Lloegr, a bydd yn dod yn ganolbwynt Oriel Cynhanes yr amgueddfa, a'i rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd. Caffaelodd Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Archaeoleg Norfolk y darganfyddiadau o fynwent Eingl-Sacsonaidd o'r 7fed ganrif gerllaw Diss, a byddant yn ffurfio rhan ganolog o'u Horiel Eingl-Sacsonaidd a Llychlynnaidd.

Mae CGDG yn parhau i ddarparu cyllid i gaffael neu gadw archifau a threftadaeth lenyddol. Fe wnaethom helpu'r Llyfrgell Brydeinig i gaffael Llyfr Oriau Sallwyr Mostyn, sy'n enghraifft brin o Sallwyr a Llyfr Oriau ar y cyd, yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 13eg ganrif. Caffaelwyd Papurau Monson gan Archifau Swydd Lincoln, sef casgliad mawr yn cynnwys deunydd teuluol ac ystâd yn rhychwantu 500 mlynedd, sydd

ar gadw hirdymor gan y Swyddfa Cofnodion. Mae'r casgliad yn dangos sut chwaraeodd y teulu hwn o Swydd Lincoln rôl flaenllaw ym mywyd y sir drwy reoli'i hystadau, yn ogystal â chyfiawnder lleol, bywyd milwrol a bywyd gwleidyddol. Caffaelodd Prifysgol Nottingham Gasgliad Clarke o ddeunydd DH Lawrence, a oedd yn berchen i chwaer iau Lawrence, sef Ada. Bu'r casgliad ar fenthyciad tymor hir yn y Brifysgol ac fe'i rheolwyd fel rhan o'u casgliadau dynodedig DH Lawrence.

Yn anarferol, fe wnaethom gefnogi dwy amgueddfa yn yr un ocsiwn i gaffael deunydd archifol yn ymwneud â Syr Marc Brunel, a olygai eu bod, rhyngddynt, wedi caffael y mwyafrif o'r eitemau ar werth o gasgliad teulu Brunel. Caffaeledd Amgueddfa Brunel albwm o 30 o ddyfrlliwiau a dyluniadau ar gyfer Twnnel Afon Tafwys, a luniwyd gan Marc Brunel ym 1834. Mae'r albwm yn cynnwys gwaith gan Marc ac Isambard Kingdom Brunel a dylunwyr eraill o swyddfa Brunel. Caffaelwyd deunydd gan Ymddiriedolaeth SS Great Britain sy'n cynnwys dyluniadau ar gyfer peiriannau, pontydd ac adeiladau, ac sydd hefyd yn cynnwys bywgraffiad llawysgrif o Marc Brunel gan ei ferch Sophia.

Rhoesom gymorth i gaffael dau ddyfrlliw gan un arlunydd, sef Eric Ravilious, er y cawsant eu caffael gan ddwy amgueddfa ar wahân yn yr achos hwn. Caffaelodd Oriel Gelf Towner yn Eastbourne waith dyfrlliw Ravilious *Beachy Head*, ym 1939. Mae'r olygfa eiconig hon o arfordir Dwyrain Swydd Sussex yn enghraifft ragorol o arddull baentio nodedig Ravilious. Roedd yn rhan o'r arddangosfa deithiol Ravilious and Co: The Pattern of Friendship. Sicrhaodd Oriel Gelf Fry yn Saffron Walden y dyfrlliw, *Two Women in the Garden*, sy'n darlunio Charlotte Bawden a Tirzah Garwood, gwraig Ravilious, yng ngardd Brick House yn Great Bardfield. Mae'r ddau yn cysylltu â mannau sy'n ddylanwadol i'r arlunydd yn yr hyn a oedd yn yrfa gymharol fer; tirlun South Downs yn gyntaf, a arferai baentio' n aml, a'r pentref yn olaf, lle'r oedd yn rhan o gymuned arlunwyr y 1930au a 40au.

Mae Charleston yn Nwyrain Swydd Sussex yn lle arall a gysylltir â grŵp o arlunwyr enwog: Grŵp Bloomsbury. Fe wnaethom gynorthwyo Ymddiriedolaeth Charleston i gaffael y Platiau Cinio Menywod Enwog a oedd yn cynnwys 50 o blatiau. Cafodd y set o blatiau, a gomisiynwyd ym 1932 gan Syr Kenneth Clark, eu dylunio a'u paentio â llaw gan Vanessa Bell a Duncan Grant. Ceir pedwar grŵp, a phob un ohonynt yn cynnwys 12 plât yn darlunio breninesau, menywod enwog am eu harddwch, awduron a pherfformwyr, a dau blât yn darlunio Vanessa Bell a Duncan Grant. Paentiodd Bell a Grant y platiau yn Charleston a byddant yn cael eu harddangos yn oriel arddangos newydd Charleston.

Llwyddodd Ightham Mote, eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn sir gyfagos Caint, i gaffael *A Game of Bowls* gan John Singer Sargent. Wedi'i baentio ym 1889, mae'r paentiad yn darlunio gêm o bowls yn cael ei chwarae yn ymyl Ightham Mote, sef tŷ rhestredig Gradd I, sy'n un o'r maenordai canoloesol bach mwyaf cyflawn yn Lloegr. Mae'r gwaith yn dangos pwysigrwydd cysylltiadau Eingl-Americanaidd yn y gymuned artistig anghyffredin a ymgasglodd yn Ightham yn y 1880au.

Caffaelodd Amgueddfa Victoria ac Albert 51 o ddyluniadau gwreiddiol gan y pensaer a'r dylunydd o'r 19eg ganrif, Owen Jones, a baentiwyd ar gyfer ei lyfr Examples of Chinese Ornament. Ailddarganfuwyd y dyluniadau mewn casgliad preifat yn America yn ddiweddar. Cyhoeddwyd Chinese Ornament ym 1867 ac roedd yn cynnwys 100 o blatiau cromolithograffig o ddyluniadau Tsieineaidd, rhai ohonynt wedi'u cymryd o wrthrychau yn Amgueddfa De Kensington bryd hynny. Mae'r caffaeliad yn rhoi'r cyfle i'r amgueddfa arddangos y paentiadau gyda'r gwrthrychau a ddylanwadodd arnynt, yn ogystal â rhoi gweithiau gwreiddiol prin gan ddylunydd pwysig iawn o Brydain mewn casgliad cenedlaethol.

Mae caffaeliad rhydd-ddaliad sylweddol gan Ymddiriedolaeth Gerddi Hestercombe o bron y cyfan o dirwedd hanesyddol Hestercombe yn golygu y bydd y tir yn hygyrch i'r cyhoedd ac yn darparu profiad annatod o'r dirwedd hanesyddol hon. Bydd prynu'r tir a Fferm Hestercombe yn ailgysylltu'r dirwedd ddyluniedig, gan sicrhau bron y cyfan o'r parc canoloesol, gardd ddŵr brin o'r 16eg ganrif, llynnoedd dolennog o'r 18fed ganrif ac elfennau coll o erddi ffurfiol Lutyen. Mae'n dirwedd gofrestredig Gradd 1 ar Gofrestr Parciau a Gerddi Historic England, ac mae'n oroesiad eithriadol sy'n adlewyrchu dyluniad gardd dros bedwar can mlynedd.

Dangosir rhestr o'r grantiau safonol a ddyfarnwyd ar dudalen 29. Cyfanswm y grantiau safonol a ddyfarnwyd oedd £5.7miliwn. Yn ogystal, gwnaed £1.2miliwn o ddyfarniadau o'r Gronfa Atgyweirio Toeon hefyd.

Cawsom gymorth grant o £12.458miliwn yn ystod y flwyddyn (2016–17: £35.3miliwn). £5miliwn oedd ein grant blynyddol safonol a derbyniwyd £7.458miliwn ychwanegol tuag at ein taliadau grant a'n costau gweinyddol ar gyfer cynnal Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig. Cawsom yr ychydig ddyfarniadau grant heb eu talu a oedd yn weddill o'r Gronfa Atgyweirio Toeon o 2014–15 a 2015–16, ynghyd â thaliadau ar gyfer cyfran sylweddol o'r ail rownd o ddyfarniadau a wnaed yn 2016–17 a 2017–18. O ganlyniad i weithgarwch y Gronfa Atgyweirio Toeon yn lleihau, mae'r diffyg gweithredu a adroddwyd wedi gostwng yn nodedig, yn cwympo i £6.4miliwn. Gostyngodd dyfarniadau grant Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig o £23.7miliwn i £1.2miliwn yn 2017–18. Dylai'r amrywiadau anwadal hyn yn y diffygion a adroddir ddod i ben yn 2018–19 wrth i waith Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig gael ei gwblhau.

Mae addasiad o'r flwyddyn flaenorol yn effeithio ar y canlyniadau ar gyfer 2016–17 a 2017–18 hefyd.

| Caffaeliad | Ymgeisydd | Dyfarnwyd |
|---|---|---|
| *A Game of Bowls* yn Ightham Mote | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | £175,000 |
| Aristocratiaid Eingl-Sacsonaidd | Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk | £90,900 |
| Casgliad Clarke o ddeunydd DH Lawrence | Prifysgol Nottingham | £278,400 |
| Torch Aur Oes Efydd Dwyrain Swydd Gaergrawnt | Amgueddfa Ely | £150,000 |
| Eric Ravilious *Beachy Head* | Oriel Gelf Towner | £52,400 |
| Platiau Cinio Menywod Enwog | Ymddiriedolaeth Charleston | £310,000 |
| Fâs Diwrnod Cyntaf | Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries | £267,500 |
| Celc Galloway | Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban | £1,000,000 |
| Caffaeliad torch Leekfrith | Amgueddfa ac Oriel Gelf Potteries | £165,000 |
| Papurau Monson | Cyngor Sir Swydd Lincoln | £242,500 |
| Llyfr Oriau Sallwyr Mostyn | Y Llyfrgell Brydeinig | £390,000 |
| Owen Jones – dyluniadau ar gyfer 'Examples of Chinese Ornament' | Amgueddfa Victoria ac Albert | £112,500 |
| Adfer Paradwys: Ailgysylltu tirwedd hanesyddol Hestercombe | Ymddiriedolaeth Gerddi Hestercombe | £1,485,000 |
| Achub *Queen Victoria* | Amgueddfa Fitzwilliam | £267,607 |
| Syr Marc Brunel – casgliad ar gyfer Amgueddfa Being Brunel a Sefydliad Brunel | Ymddiriedolaeth SS Great Britain | £160,202 |
| Gweledigaeth Twnnel yn Amgueddfa Brunel | Amgueddfa Brwnel | £235,500 |
| *Two Women in a Garden* gan Eric Ravilious | Cymdeithas Oriel Gelf Fry | £130,000 |
| **Cyfanswm y grantiau safonol a ddyfarnwyd** | | **£5,512,509** |

Crëwyd hyn i adlewyrchu ein cred bod lefel rhwymedigaethau Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig wedi'u gorddatgan yn sylweddol ar 31 Mawrth 2017. Natur prosiectau atgyweirio, yn enwedig i adeiladau hanesyddol lle nad yw'r toeon wedi'u harchwilio'n llawn ers blynyddoedd o bosibl, nad yw graddau llawn y difrod yn hysbys hyd nes bod y gwaith yn dechrau. Golygodd hyn fod costau prosiect a gynhwyswyd mewn ceisiadau am grant yn optimistaidd weithiau, ac yn besimistaidd weithiau. Yn achos y cyntaf, rydym wedi gallu rhoi cynnydd yn y grant; yn yr ail, mae'n rhaid i ni wneud dadymrwymiadau. Mae ein proses ar gyfer cydnabod dadymrwymiadau yn ymddangos yn rhy ochelgar wrth ein bod wedi parhau i gydnabod symiau sy'n annhebygol iawn o gael eu hawlio fel rhwymedigaethau. Mae'r addasiad felly yn lleihau ein rhwymedigaethau o dros £924,000 ar ddiwedd mis Mawrth 2017.

Er gwaethaf y diffyg gweithredu yr adroddwyd arno, roedd gennym bron i £46miliwn o asedau net ar ddiwedd y flwyddyn, er bod £16miliwn o hwn yn ymwneud â'r gwarged heb ei wireddu yng ngwerth y gronfa waddol. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolwyr wedi derbyn llythyr dyrannu gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) sy'n egluro y bydd CGDG yn derbyn digon o gymorth grant yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf i dalu am ei rhwymedigaethau a'i chyllidebau grant arfaethedig.

Yn ogystal â'i heffaith ar lefel ein dyfarniadau, mae Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig yn parhau i ystumio ein costau gweinyddol. Fe wnaeth lefel costau'r Gronfa Atgyweirio Toeon ostwng yn sylweddol wrth i'r rhaglen ddirwyn at ei therfyn disgwyliedig ym mis Mehefin 2018. Symudodd y rhan fwyaf o staff y Gronfa Atgyweirio Toeon yn ôl at waith Cronfa Dreftadaeth y Loteri, gan arwain at ostyngiad mawr o ran costau staff a chostau gweinyddol eraill.

Yn ychwanegol at barhau â'n gwaith ar raglen Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig, derbyniom roddion gan Tourism NI a'r Adran Cymunedau hefyd tuag at gostau rhai o'r dyfarniadau a wnaethom yng Ngogledd Iwerddon yn 2017–18. Gwnaed ein cyfraniad ni at y grantiau hyn gan ddefnyddio arian Loteri ac fe'u datgelir yn ein cyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, ond caiff y dyfarniadau a wnaed ar ran Tourism NI a'r Adran Cymunedau eu datgelu yn y cyfrifon hyn. Bydd darllenwyr ein Strategaeth Gorfforaethol newydd yn gweld ein bod yn gobeithio ymgymryd â mwy o'r cytundebau hyn yn y dyfodol.

Yr elw ar y gwaddol yn y flwyddyn oedd cynnydd o 1.1%. Roedd y gyfradd elw ymhell islaw'r 17.5% a gafwyd y llynedd. Yn amlwg, er bod ein rheolwyr buddsoddi yn defnyddio'u harbenigedd, y prif ddylanwad ar elw yw perfformiad marchnadoedd stoc y byd, a ostyngodd yn rhan olaf y flwyddyn. Parhaodd polisi buddsoddi'r gronfa waddol yn groniad cyfalaf, ond mae Panel Buddsoddi'r ymddiriedolwyr wedi diweddaru'r strategaeth a bydd rhan o'r gronfa yn cael ei newid o groniad cyfalaf i gynhyrchu incwm yn 2018–19.

Cynyddodd ffigurau arian parod yn ystod y flwyddyn i £7miliwn. Mae gennym ymhell dros £5miliwn o

Dangosyddion perfformiad allweddol yn ôl blwyddyn

| | Targed | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 | 2014–15 | 2013–14 | 2012–13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amserau prosesu ceisiadau (misoedd) | | | | | | | |
| – ceisiadau brys | 3 | **1.2** | 1.0 | 0.9 | 0.7 | 1.3 | 1.2 |
| – ceisiadau heb fod yn rhai brys | 6 | **2.3** | 4.7 | 0.9 | 1.4 | 2.2 | 2.6 |
| Cyhoeddi penderfyniadau (diwrnodau gwaith) | | | | | | | |
| – rhoi penderfyniadau ar y wefan | 14 | **20** | 20 | 20 | 10 | 10 | 10 |
| Talu grantiau (nifer diwrnodau gwaith ar ôl cais am daliad) | | | | | | | |
| – Grantiau safonol | 15 | **8** | 2 | 4 | 3 | 5 | 4 |
| – Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig | 10 | **4** | 5 | 2 | dd/b | dd/b | dd/b |

Golygodd newid yn ein system o lanlwytho penderfyniadau i'n gwefan yn 2015–16 nad oeddem yn gallu bodloni'r targed a osodwyd ar ein cyfer mwyach yn ein cytundeb rheoli gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Bydd y dangosyddion a'r targedau uchod yn parhau yn 2018–19.

rwymedigaethau grant. Tynnom yr holl gyllid a oedd yn weddill yng Nghronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig i lawr o'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon rhag ofn y byddai ton hwyr o daliadau grant tuag at ddiwedd y flwyddyn – ni ddigwyddodd hyn. Gostyngodd ymrwymiadau grant heb eu talu o £7.9miliwn (ar ôl addasiad y flwyddyn flaenorol) i £5.3miliwn. Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd i ni dalu dyfarniadau net o ryw £926,000 i Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig yn y flwyddyn tra'n talu dros £6miliwn allan. Pan fydd y Gronfa Atgyweirio Toeon yn dod i ben yn 2018–19, bydd ein rhwymedigaethau grant yn setlo'n ôl i'r duedd hirdymor.

**Dangosyddion perfformiad allweddol**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y dylai CGDG ymdrechu i sicrhau perfformiad uchel yn ei gweithgareddau. I'r perwyl hwn, mae tri dangosydd perfformiad yn ein cytundeb cyllido presennol gyda'r DCMS (ynghyd â'r dangosydd effeithlonrwydd gweinyddol yr adroddwyd amdano uchod). Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu'r agweddau pwysicaf ar wasanaeth cwsmeriaid – cyflymder prosesu cais am grant; cyflymder prosesu cais am daliad grant; a chyflymder cyhoeddi penderfyniadau ar ein gwefan. Mae'r Gronfa yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i thargedau, gan felly ddangos gwasanaeth effeithiol i'n hymgeiswyr a'n grantïon.

**Symiau sy'n daladwy**

Mae CGDG yn cydymffurfio â'r safon lywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n datgan y dylid sef talu pob bil dilys ymhen 30 niwrnod. Yn 2017–18, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd pum niwrnod gwaith (2016–17: pum niwrnod gwaith). Talwyd dros 96% o anfonebau ymhen 30 niwrnod calendr (2016–17: 95%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwyr – sef cymhareb y symiau masnach sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth pryniannau yn ystod y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau. Ar 31 Mawrth 2018, y ffigur oedd 30 diwrnod (2016–17: 29 diwrnod). Mae'r ffigur yn uwch o lawer ar ddiwedd y flwyddyn nag ar adegau eraill o'r flwyddyn am ein bod yn annog cyflenwyr i gyflwyno'u hanfonebau cyn i'r flwyddyn ddod i ben.

**Polisïau amgylcheddol ac adrodd ar gynaliadwyedd**

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn mynnu bod holl gyrff y sector cyhoeddus yn cynhyrchu adroddiad cynaliadwyedd blynyddol. Nid yw'r broses o grynhoi'r data hwn yn un fanwl gywir yn anffodus. Er enghraifft, ychydig iawn o landlordiaid ein 10 o swyddfeydd rhanbarthol a gwledig sy'n barod i ddarparu ffigurau i ni ar gyfer oriau cilowat o nwy neu drydan a ddefnyddiwyd, ac nid ydynt ychwaith yn gallu bilio'n ddigon cyflym ar ddiwedd y flwyddyn i ddarparu ffigurau mewn pryd ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Gan fod y mwyafrif o'n swyddfeydd yn ddeiliadaethau bach gyda landlordiaid sector preifat, mae'n anodd cynhyrchu adroddiad cynhwysfawr. Golyga hyn ein bod yn gorfod defnyddio amcangyfrifon ar gyfer y rhan fwyaf o swyddfeydd. Yn ogystal, rydym wedi llofnodi contract cost sefydlog gyda'r cwmni sy'n cyflenwi dŵr i'n prif swyddfa, sy'n yn golygu nad ydym yn derbyn data ar ddefnydd mwyach. Mae'r sefyllfa gyffredinol yn gwella rhyw ychydig dros amser, ond rydym yn gorfod amcangyfrif llawer o'n defnydd o hyd. O 2013–14, rydym wedi dechrau cyfrifo ein defnydd carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer dŵr ac ar gyfer gwastraff hefyd.

At hynny, mae'r ail dabl (ar dudalen 31) yn adrodd data ar sail cyfwerth ag amser llawn, h.y. lefel defnydd fesul aelod o staff. Fodd bynnag, gan ein bod hefyd yn cynnwys allyriadau gan y rhai nad ydynt yn aelodau staff, e.e. ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor a rhai cyflenwyr, mae'n anodd cefnogi cymharu rhai o'r niferoedd hyn, dros y blynyddoedd a gyda sefydliadau eraill.

Yn olaf, mae'r ffactorau trosi a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyfwerth carbon deuocsid ein hallyriadau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Fel arfer, mae'r

newidiadau yn gymharol fach ond, er enghraifft, fe wnaeth y ffigurau ar gyfer rhai oeryddion a ddefnyddir mewn aerdymheru gynyddu rhyw 20% ar gyfer 2016–17 tra bod rhai eraill wedi gostwng.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gweld fawr o bwynt dyrannu adroddiadau cynaliadwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu holl weithgareddau CGDG.

### Crynodeb o berfformiad

Mae ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng ychydig yn 2017–18 ar sail gros, a hefyd wrth edrych ar y rhifau ar sail cyfwerth ag amser llawn.

Dim ond dros un o'r adeiladau y mae'n gweithio ynddo y mae gan CGDG reolaeth drosto, sef ei bencadlys yn Holbein Place yn Llundain. Yn 2010–11, fe wnaethom newid yr oeryddion ar gyfer y system aerdymheru a'r boeleri nwy 25 mlwydd oed ar gyfer gwresogi, a gosod goleuadau a reolir gan synwyryddion sy'n sensitif i symudiadau a golau dydd. Ar ôl gwneud gwaith ailosod mor fawr, nid oes llawer o le i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhellach yn yr unig swyddfa a reolwn. Yn benodol, ni fyddem yn ystyried unrhyw wariant sylweddol ar gyfer buddion hirdymor hyd nes ein bod wedi adnewyddu ein prydles yn Holbein Place. Mae adolygiad o'r rhent i'w gynnal yn 2019.

Yn y deg adeilad arall yr ydym yn ddeiliaid ynddynt, rydym yn gwbl ddibynnol ar y landlord i wella perfformiad, ac mae hynny'n annhebygol o ddigwydd rhwng gwaith ailwampio mawr. Mae'r cyfle i wella ymhellach o ran allyriadau cwmpas 1 a 2 yn eithriadol o gyfyngedig felly. Dros y blynyddoedd, rydym wedi adleoli rhai o'n swyddfeydd gwledig a rhanbarthol mewn adeiladau llai neu swyddfeydd â gwasanaeth, a bydd hynny wedi lleihau ein defnydd o ynni. Er mis Mai 2011, rydym hefyd wedi gosod ar rent ran o un o loriau Holbein Place ac wedi lleihau'r defnydd a adroddwn ni amdano o ganlyniad i hynny; er yn 2016–17, lleihawyd y lle a osodir ar rent.

Disgwyliwn hefyd leihau maint prydlesi swyddfa yn y dyfodol gyda staff yn cael eu hannog i rannu desgiau a gweithio'n fwy hyblyg.

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Mae allyriadau ynni uniongyrchol yn ymwneud â nwy a ddefnyddiwyd mewn boeleri a weithredir gan CGDG ac allyriadau a gynhyrchir drwy ein defnydd o systemau aerdymheru yn ein pencadlys yn Llundain. Caiff gwybodaeth am ddefnydd o nwy mewn oriau cilowat ei deillio o anfonebau ein cyflenwyr. Caiff oriau cilowat eu trosi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactor trosi a ddeilliwyd o dablau Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Adroddiad ar Gwmnïau Llywodraeth y DU. Mae'r tablau hyn i'w cael yn www.gov.uk/government/ collections/government-conversion-factors-forcompanyreporting.

Adrodd ar gynaliadwyedd

| Maes | | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 | 2014–15 | 2013–14 | 2012–13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol (tunelli metrig $CO_2$ cyfwerth) | | **410** | 417 | 635 | 591 | 489 | 550 |
| Ynni'r ystâd | – Defnydd (miliwn kWh) | **0.9** | 0.7 | 1.1 | 1.1 | 0.9 | 1.1 |
| | – Gwariant (£) | **437,986** | 488,315 | 488,361 | 429,425 | 445,624 | 489,638 |
| Gwastraff yr ystâd | – Maint (tunelli metrig) | **26** | 23 | 28 | 26 | 28 | 24 |
| | – Gwariant (£) | **25,908** | 19,115 | 13,268 | 14,095 | 12,400 | 5,518 |
| Dŵr yr ystâd | – Defnydd ($m^3$) | **3,927** | 4,040 | 4,350 | 4,889 | 5,655 | 3,757 |
| | – Gwariant (£) | **10,703** | 12,089 | 7,413 | 11,825 | 14,182 | 11,253 |

Adrodd ar gynaliadwyedd wedi'i normaleiddio gan staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gyflogwyd yn ystod y cyfnod

| Maes fesul CALI | | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 | 2014–15 | 2013–14 | 2012–13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol (tunelli metrig $CO_2$ cyfwerth) | | **1.4** | 1.4 | 2.3 | 2.3 | 1.9 | 2.2 |
| Ynni'r ystâd | – Defnydd (kWh) | **2,899** | 2,524 | 4,105 | 4,134 | 3,595 | 4,249 |
| | – Gwariant (£) | **1,470** | 1,648 | 1,744 | 1,639 | 1,716 | 1,986 |
| Gwastraff yr ystâd | – Maint (tunelli metrig) | **0.1** | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | – Gwariant (£) | **87** | 65 | 47 | 54 | 48 | 22 |
| Dŵr yr ystâd | – Defnydd ($m^3$) | **13** | 13 | 16 | 19 | 22 | 15 |
| | – Gwariant (£) | **36** | 41 | 26 | 45 | 55 | 46 |

Mae allyriadau ynni anuniongyrchol yn ymwneud â thrydan a gynhyrchwyd gan sefydliadau eraill ac a werthwyd yn uniongyrchol i ni, yn ogystal â gwres a brynwn gan landlordiaid ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol. Ceir gwybodaeth am ddefnydd mewn oriau cilowat gan ein landlordiaid lle y bo'n bosibl, ond gall eu methodoleg amrywio. Caiff oriau cilowat eu trosi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio'r ffactor trosi perthnasol. Rydym yn dibynnu'n drwm ar ein landlordiaid i wella effeithlonrwydd.

Gwneir y rhan fwyaf o'n teithio ar y rheilffordd, ac mae ein prif gyflenwr tocynnau yn rhoi manylion i ni am allyriadau'r carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer yr holl deithiau a wnaed. Yn yr un modd, mae ein prif gyflenwr llogi ceir yn rhoi data i ni am yr allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i'r staff ddiweddaru taenlenni adrannau â gwybodaeth am yr holl deithiau eraill a wnaed gan staff, ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgorau, panelwyr arbenigol a chyflenwyr ar ein cofrestr o wasanaethau cymorth (i bob pwrpas, y monitoriaid a'r mentoriaid a benodwn i oruchwylio prosiectau yr ydym yn eu cyd-ariannu). Mae'n ofynnol i benaethiaid adran sicrhau bod eu staff yn cofnodi manylion eu holl deithiau. Caiff y wybodaeth a gesglir ei throsi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio'r rhannau perthnasol o'r un tablau o ffactorau trosi.

### Gwastraff

Mae'r gwastraff a gynhyrchwyd wedi cynyddu ychydig yn 2017–18, yn bennaf yn sgil ail-leoli dwy swyddfa – Caergrawnt a Manceinion – yn ogystal â chau ein prif ganolfan storio oddi ar y safle fel rhan o brosiect digideiddio. Mae'n anochel y bydd lefel y gwastraff yn cynyddu yn sgil symud swyddfa oherwydd achubir ar y cyfle i gael gwared ar eitemau sy'n weddill a gronnwyd dros y blynyddoedd.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus ynglŷn â chywirdeb y rhifau cyffredinol oherwydd, fel y trafodir isod, nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff a gynhyrchir gennym, gan fod cynghorau'n mynd â'r gwastraff ac ni fyddai'n ddefnydd dilys o adnoddau i gaffael offer pwyso dim ond er mwyn gwella ein dull o adrodd am y ffigur hwn. Byddwn yn parhau i geisio ateb ymarferol i gyfrifo ffigur dibynadwy. Credwn fod ffigur 2015–16 yn uwch na'r duedd hirdymor gan yr effeithiwyd arno gan waith mawr i symud swyddfeydd.

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid oes modd dadansoddi ymhellach yr hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff a gynhyrchwyd gennym. Caiff yr holl wastraff nad yw'n cael ei ailgylchu ei gasglu gan gynghorau sy'n lleol i'r swyddfeydd y gweithredwn ynddynt. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud â'r gwastraff hwnnw, ond rydym wedi ffurfio rhagdybiaethau ynglŷn â ble fydd y gwastraff yn mynd er mwyn cynhyrchu'r ffigurau ar dudalen 31. Dim ond Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea sy'n ein hanfonebu ar wahân, ond rydym hefyd yn cynnwys cost gwaredu papur wedi'i rwygo'n ddiogel yn y ffigurau. Ymdrechwn i leihau'r papur a ddefnyddiwn ac yna, yn anochel, ei daflu, ac mae'r gyllideb llungopïo ar gyfer 2018–19 wedi'i thorri'n sylweddol. Rhoddir cosb uwch ar dimau pe baent yn mynd uwchlaw eu cyllideb llungopïo, ac mae dyfeisiau electronig yn cael eu dosbarthu i staff i'w hannog i gael cyfarfodydd di-bapur, ac rydym yn cydnabod y bydd rhaid i swyddfeydd newydd fod y llai na'r rhai presennol pan ddaw prydlesi i ben.

Bwriadwn hefyd ddigideiddio'r rhan fwyaf o'n storfa archif yn ystod y flwyddyn i ddod. Yn anochel, bydd hyn yn arwain at gynnydd untro o ran maint y papur a waredwn. Fodd bynnag, dylai'r arbedion cost hirdymor fod yn sylweddol.

Mae ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol yn ddigon bach i bwyso'r holl wastraff a gynhyrchwyd ganddynt. Nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff mwy o lawer a gesglir gan Fwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea gan nad yw'r cyngor yn dweud wrthym beth yw pwysau'r hyn maent yn ei gasglu. Rydym felly wedi amcangyfrif maint y gwastraff a gynhyrchwyd fesul unigolyn ar sail amcangyfrif o bwysau sach o wastraff safonol.

### Defnydd o adnoddau

Fe wnaeth defnydd o ddŵr ostwng ychydig yn 2017–18. Lle bo modd, rydym yn perswadio ein landlordiaid i ddarparu gwybodaeth am nifer y metrau ciwbig o ddŵr a ddefnyddiwyd, sydd fel arfer yn seiliedig ar y gofod sydd gennym, yn hytrach na thrwy fesuryddion unigol. Yn 2015–16, gwnaethom osod cyfleusterau tŷ bach mwy effeithlon yn ein pencadlys. Rydym hefyd wedi llofnodi contract pris sefydlog ar gyfer y cyflenwad dŵr yn ein prif swyddfa. Mae hyn wedi arwain at daliad is o lawer, ond nid yw'r cyflenwr yn rhoi manylion yr union ddefnydd. O ganlyniad, rydym wedi defnyddio ffigur 2014–15 at ddibenion dadansoddi.

Ddwy flynedd yn ôl, cynhaliom adolygiad o'r defnydd o drydan yn ein prif swyddfa. Roedd hyn yn gofyn am ymchwiliad i'r defnydd o bŵer ar bob llawr drwy osod mesuryddion, a gwneud gwaith cynnal a chadw manylach er mwyn gwella effeithlonrwydd ein dyfeisiau trydanol. Mae defnydd yr ystâd o ynni wedi gostwng ers hynny. Llofnodom gontractau i osod terfyn uchaf ar gostau nwy a thrydan yn ein prif swyddfa ar gyfer 2016–17 a thu hwnt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni dderbyn bod gan y tywydd ddylanwad mwy ar ein defnydd nag unrhyw welliannau y gallwn eu gwneud i'n heffeithlonrwydd ynni.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

29 Mehefin 2018

## Adroddiad Atebolrwydd

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CGDG a sut maen nhw'n helpu i gyflawni ein hamcanion.

## *Adroddiad y cyfarwyddwyr*

**Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG**

Cadeirydd

Syr Peter Luff [2]

Ymddiriedolwyr

Y Farwnes Kay Andrews OBE

Anna Carragher

Syr Neil Cossons OBE [1]

Sandie Dawe CBE
hyd 14 Awst 2017

Dr Angela Dean [1]

Jim Dixon

Dr Claire Feehily [1]
o 1 Mawrth 2018

Perdita Hunt DL, OBE [2]

Steve Miller

Richard Morris OBE

René Olivieri [2]
o 1 Mawrth 2018

Atul Patel MBE [2]

Y Fonesig Seona Reid DBE

Dr Tom Tew

Prif Weithredwr

Ros Kerslake OBE [2]
o 4 Gorffennaf 2016

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg
2 Aelod o'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (sydd hefyd yn cynnwys tâl)

Gellir gweld manylion uwch reolwyr eraill yn yr adroddiad tâl a staff sy'n dechrau ar dudalen 42.

Roedd y rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith ein staff (gan gynnwys y rhai hynny ar gontract cyfnod sefydlog) a oedd yn gweithio ar weithgareddau cysylltiedig â'r trysorlys, a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2018, ar sail cyfrif pennau, fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr | 7 | 7 | 14 |
| Cyfarwyddwyr | 0 | 0 | 0 |
| Staff | 0 | 4 | 4 |

Er ein bod yn datgelu pedwar aelod o staff uchod, mae'r holl gyfarwyddwyr a staff yn yr adrannau cymorth yn ymwneud â'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri a'n gweithgareddau dosbarthu cymorth grant. Fodd bynnag, gan eu bod yn treulio'r mwyafrif llethol o'u hamser ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, mae eu hystadegau wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hynny.

**Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr**

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn eithrio eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol CGDG.

Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae'r ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri – www.hlf.org.uk.

**Datblygiadau'r dyfodol**

Yn 2017–18 fe wnaethom greu Strategaeth Gorfforaethol yn pennu ein gweledigaeth ar gyfer rôl CGDG yn y dyfodol dros y tair blynedd o 2018 hyd nes 2021. Disgwyliwn ymgymryd â'r gwaith hwn gan ddefnyddio ein brand Cronfa Dreftadaeth y Loteri (HLF) er ein bod yn rhagweld y bydd hefyd yn golygu defnyddio cyllid o ffynonellau eraill heblaw am y Loteri Genedlaethol.

Bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau yn ffynhonnell fwyaf sylweddol ein hincwm o 2018–2021, a ffocws y rhan fwyaf o'n gweithgarwch. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn atgyfnerthu ein cyfeiriad ers sawl blwyddyn bellach, yn amlinellu ein rôl fel y ffynhonnell gyllid ymroddedig fwyaf ar gyfer treftadaeth ledled y DU, ac yn cymryd camau pellach tuag at arweinyddiaeth gryfach, gyda ffocws penodol ar gyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau.

Mae argymhellion ein Hadolygiad wedi'i Deilwra yn cefnogi ein huchelgeisiau i:

- gryfhau arweinyddiaeth, gan bennu blaenoriaethau strategol cliriach ar gyfer treftadaeth ar draws pedair gwlad y DU o fewn fframwaith y DU gyfan;
- datblygu sgiliau masnachol, ariannol, digidol a chynhwysiant yn y sector treftadaeth;
- rhoi prawf ar ddewisiadau amgen i grantiau pur, fel buddsoddi cymdeithasol a mathau eraill o gyllid ad-daladwy er mwyn cynyddu cynaliadwyedd y sector;
- cefnogi'r sector wrth weithio'n rhyngwladol;
- ariannu a hyrwyddo prosiectau digidol ansawdd uchel;
- cefnogi datblygu brand y Loteri Genedlaethol.

Mae'r argymhellion hyn yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein Strategaeth Gorfforaethol a'r Fframwaith Ariannu Strategol nesaf ar gyfer ein gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol.

Er 1994, ein rôl wrth ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol fu gwneud 'gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth a phobl yn y DU'. Rydym wedi datblygu

safle fel arweinydd treftadaeth, drwy ein dylanwad ac arian, a chryn alluoedd, arbenigedd a phrosesau i gefnogi dosbarthu grantiau. Yn y dyfodol, rydym am gydnabod ymhellach y buddion eang a gyflawnir i'r gymdeithas trwy dreftadaeth, a rôl ehangach i CGDG fel galluogwr, o ran dylanwadu ar fuddsoddiad ar gyfer treftadaeth gan rai eraill ac wrth ddatblygu gallu, sgiliau a gwydnwch mewn sefydliadau a phobl.

Ein gweledigaeth yw y bydd CGDG, erbyn 2021, yn arweinydd strategol ac arweinydd meddwl cryf ar gyfer treftadaeth yn ei chrynswth ledled y DU, gan ddangos a hyrwyddo'r effaith a'r buddion i gymdeithas a gyflawnir gan dreftadaeth, a dylanwadu ar fuddsoddiad a chefnogaeth gan rai eraill i gryfhau'r safle hwn. Bydd treftadaeth yn cael ei chydnabod yn ehangach fel cyfranwyr hanfodol at Gynnyrch Domestig Gros, cydlyniant cymdeithasol, mannau gwell a llesiant unigol.

Byddwn yn defnyddio incwm y Loteri Genedlaethol fel grantiau, benthyciadau neu ymyriadau ariannol eraill lle byddant yn creu'r gwerth mwyaf hirdymor i gymdeithas. Byddwn yn hyrwyddo effaith i'r eithaf drwy ailgylchu incwm a chymryd cyfran o incwm uwch lle bo'n briodol, yn ogystal â dylanwadu ar fuddsoddiad nad yw'n ymwneud ag arian y Loteri mewn treftadaeth gan rai eraill.

Byddwn yn gyd-fuddsoddwr; yn datblygu perthnasoedd strategol ar y raddfa ofynnol, er enghraifft wrth lunio lleoedd. Byddwn yn hyrwyddo arloesi mewn modelau busnes, ac yn meithrin gallu, sgiliau a gwydnwch mewn sefydliadau ym maes treftadaeth er mwyn eu galluogi i ddargyfeirio'u hincwm a denu buddsoddiad newydd. Byddwn yn defnyddio ein harbenigedd; a'n mynediad at wybodaeth, data ac ymchwil; fel arweinydd sy'n galluogi, ac yn cefnogi'r byd treftadaeth i fesur a dangos ei effaith gymdeithasol yn well.

Byddwn yn gwella ein henw da fel gweinyddwr effeithlon ac effeithiol iawn grantiau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Goffa, ac yn ceisio cynhyrchu mwy o incwm er mwyn cryfhau ein model busnes a chyflawni buddion i dreftadaeth y DU.

Gallwn ddisgrifio'r newid hwn fel symud o:

– ddosbarthu, yn syml, yr arian a godir gan y Loteri Genedlaethol neu'r trethdalwr i wneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth a phobl yn y DU;

I:

– ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth y DU i greu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd ein Strategaeth Gorfforaethol yng ngwanwyn 2018. Cewch wybod mwy am ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Rhaglen Trawsnewid Busnes ar dudalennau 38 a 39.

Ein cymorth grant safonol fydd £5miliwn ar gyfer 2018–19, a'r un swm ar gyfer blwyddyn olaf yr Adolygiad o Wariant cyfredol. Mae ein Cymorth Grant sylfaenol (yn hytrach na symiau ychwanegol a ddarperir i ariannu'r Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig) wedi aros yn £5miliwn ers blynyddoedd lawer. Mae Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod chwyddiant yn lleihau effaith y swm hwn. I'r perwyl hwn, rydym wedi newid ein strategaeth fuddsoddi ar gyfer y gronfa waddol. Yn y blynyddoedd diwethaf, cronni cyfalaf fu'r flaenoriaeth wrth i ymddiriedolwyr geisio adennill gwerth y gwaddol i'w werth targed, ond nawr mae cynhyrchu incwm wedi dod yn fwy blaenllaw, ac mae ymddiriedolwyr yn gobeithio ychwanegu rhyw £750,000 i'r gyllideb o 2018–19 ymlaen.

Mae tîm y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig wedi'i leihau o ran maint dros gyfnod 2017–18 wrth i brosiectau gael eu cwblhau. Mae staff wedi'u hadleoli i swyddi eraill o fewn CGDG, ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn bennaf. Cwblhawyd y rhaglen ym mis Mehefin 2018 felly roedd rhywfaint o waith gweddilliol yn 2018–19.

**Penodi archwilwyr**

Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol CGDG gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu Loteri'r ymddiriedolwyr.

**Rhanddeiliaid allweddol**

Rhanddeiliad allweddol CGDG yw'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Rydym hefyd yn ystyriol o anghenion y sector treftadaeth a phoblogaeth y Deyrnas Unedig wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am gyllid.

**Data personol**

Ni chafodd CGDG unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

## *Datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r swyddog cyfrifyddu*

O dan adran 7(3) o Ddeddf 1980, mae gofyn i ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i hincwm a'i gwariant, adenillion a cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â gofynion llawlyfr adrodd ariannol (FREM) y Llywodraeth ac yn benodol:

i) dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol,

Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

ii) llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

iii) datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y FREM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau pwysig yn y datganiadau ariannol; a

iv) pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu.

Penododd prif swyddog cyfrifyddu'r DCMS yr uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am ddiogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol, yn cael eu nodi yr yr adran o'r enw 'Swyddogion Cyfrifyddu' yn *Managing Public Money*.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r swyddog cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, yn gyffredinol, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, a'r barnau sydd eu hangen ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, cytbwys a rhesymol.

## *Datganiad llywodraethu*

**Rhagair**

Rwyf wedi bod yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu er 4 Gorffennaf 2016. Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n llywodraethu a'n rheolaethau mewnol yn ystod 2017–18, a amlinellir yma. Rwyf yn fodlon bod fframwaith rheoli cadarn a phriodol ar waith a alluogodd y system rheolaethau mewnol i weithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod dan sylw.

**Cyflwyniad**


Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn grynodeb o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG), gan gynnwys sut y rheolwn risg a sut y cydymffurfiwn â Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 Trysorlys Ei Mawrhydi.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi pennu gofyniad i mi gyfrif ar wahân am ein dwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant ac arian a ddeillir o'r Loteri Genedlaethol. Rwyf hefyd yn atebol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ar yr un pryd â diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf i'n gyfrifol amdanynt yn bersonol. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Managing Public Money*.

Gweithredir CGDG a Chronfa Dreftadaeth y Loteri fel endid unigol gan y credaf fod hyn fwy effeithlon ac effeithiol. O ganlyniad, mae un strwythur llywodraethu ac mae'r datganiad hwn yn cwmpasu dosbarthiad grantiau cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol.

**Y Strwythur llywodraethu**

Amlinellir strwythur llywodraethu CGDG yn y diagram isod.




**Bwrdd Ymddiriedolwyr**

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- Roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- Cymeradwyo dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- Cymeradwyo cyllidebau gweinyddu a rhaglenni grant;
- Goruchwylio'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau CGDG; ac
- Adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel grŵp a chynhaliodd naw o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn i osod polisi ar gyfer CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain. Roedd cworwm ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2017–18. Syr Peter Luff yw cadeirydd CGDG a chynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd drwy gydol y flwyddyn rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac uwch aelodau staff.

Fel arfer, mae'r Bwrdd yn cynnwys tua 15 ymddiriedolwr, gan gynnwys y Cadeirydd – hwn yw'r uchafswm a ganiateir. Yn ystod 2016–17, fe wnaeth nifer yr ymddiriedolwyr ostwng i 13, ac mae hyn wedi cynyddu i 14 yn 2017–18 yn dilyn cylch recriwtio diweddar gan ragweld y bydd nifer o ymddiriedolwyr yn ymddeol yng ngwanwyn a haf 2018. Cymeradwywyd y newidiadau hyn gan ein hadran noddi – y DCMS a'r Prif Weinidog (gan fod penodiadau ymddiriedolwyr yn dod o dan gylch gwaith y Prif Weinidog).

Cyfradd presenoldeb gyffredinol yr ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 91%. Mae'r

ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u gorchwylion i'r ddau bwyllgor a ddangosir uchod – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau rheoli ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i uwch aelodau staff. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau yn eitemau sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd. Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau Bwrdd hefyd.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd drwy gydol 2017–18 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | 9 | 7 |
| Anna Carragher | 9 | 8 |
| Syr Neil Cossons OBE | 9 | 8 |
| Sandie Dawe CBE<br>hyd 14 Awst 2017 | 3 | 3 |
| Dr Angela Dean | 9 | 9 |
| Jim Dixon | 9 | 7 |
| Dr Claire Feehily<br>o 1 Mawrth 2018 | 1 | 0 |
| Perdita Hunt DL, OBE | 9 | 9 |
| Syr Peter Luff | 9 | 9 |
| Steve Miller | 9 | 9 |
| Richard Morris OBE | 9 | 7 |
| René Olivieri<br>o 1 Mawrth 2018 | 1 | 1 |
| Atul Patel MBE | 9 | 9 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE | 9 | 8 |
| Dr Tom Tew | 9 | 9 |

**Cyfansoddiad y Bwrdd**
O'r 15 ymddiriedolwr a fynychodd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, roedd 46% yn fenywod a 54% yn ddynion. Roedd un (8%) yn dod o gefndir lleiafrif ethnig.

**Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd**
Ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd, gofynnir i'r holl ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Nodir y rhain yn y cofnodion, ac mae'r ymddiriedolwyr a'r staff yn tynnu'n ôl o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny. Mae ymddiriedolwyr a staff hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion ar y Gofrestr Buddiannau yn cael eu cynnal a'u diweddaru fel y bo'r angen.

**Pwyllgor Archwilio a Risg**
Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Caiff ei gadeirio gan ymddiriedolwr.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod Pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol – mynychodd uwch aelodau staff eraill fel y bo'r angen. Darperir cefnogaeth a gwasanaeth i'r Pwyllgor gan Ysgrifenyddiaeth y Gronfa. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) ac archwilwyr mewnol (Moore Stephens) y Gronfa yn mynychu'r cyfarfod hefyd. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau yn y dirgel eu hunain cyn cyfarfodydd, a hefyd trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr cyn y cyfarfodydd.

Yn 2017–18, penderfynodd yr ymddiriedolwyr benodi aelodau annibynnol anweithredol i ategu'r ymddiriedolwyr ar y Pwyllgor. O ganlyniad, ymunodd David Michael a Carole Murray â'r Pwyllgor yn 2017. Mae cryn brofiad o reoli risg, llywodraethu ac archwilio gan y ddau ohonynt. Diweddarwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor i adlewyrchu'u rolau.

Cytunodd y Pwyllgor ar strategaeth archwilio mewnol aml-flwyddyn gyda Moore Stephens ar adeg eu penodi ac adroddwyd ar yr adolygiadau a gynhaliwyd yn 2017–18 i'r Pwyllgor yn unol â'r dull strategol hwnnw. Cymeradwyir cynllun un flynedd manwl o adolygiadau archwilio mewnol bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau ar:

- cydnabod brand;
- iechyd a diogelwch;
- rheoli prosiectau TG;
- monitro ceisiadau a phrosiectau;
- rheolaethau ariannol craidd; a
- monitro prosiectau ar ôl cwblhau

Rhennir cofnodion cyfarfodydd ac adroddiad blynyddol ffurfiol ar fusnes y Pwyllgor â'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'r Adroddiadau Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn ystod 2017–18, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol yn ogystal â'r adroddiadau a'r cyfrifon uchod:

- y trefniadau ar gyfer parhau a'r prosesau rheoli risg newydd ar lefel adrannol;
- achosion o dwyll a thwyll honedig; a
- threfniadau caffael, gan gynnwys unrhyw eithriadau i reolau tendrau caffael arferol

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol 2017–18 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Angela Dean Cadeirydd | 4 | 4 |
| Syr Neil Cossons OBE<br>o 1 Medi 2017 | 2 | 1 |
| Sandie Dawe CBE<br>hyd 14 Awst 2017 | 2 | 2 |
| Jim Dixon<br>hyd 31 Gorffennaf 2017 | 2 | 0 |
| David Michael<br>aelod anweithredol o 1 Mehefin 2017 | 3 | 3 |
| Carole Murray<br>aelod anweithredol o 1 Mehefin 2017 | 3 | 3 |

**Y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau**
Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan ymddiriedolwr. Cyfarfu'r Pwyllgor bedwaredd gwaith hefyd fel y Pwyllgor Tâl er mwyn cytuno ar daliadau bonws perfformiad ar gyfer uwch aelodau staff.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod Pwyllgor fel aelod. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n mynychu cyfarfodydd, ac felly hefyd uwch aelodau staff eraill fel y bo'r angen. Darperir gwasanaeth cefnogi i'r Pwyllgor gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r rheolaethau staffio a recriwtio a arferir gan uwch reolwyr. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y canlynol yn ystod y flwyddyn hefyd:

- cyfrifon rheoli a gwybodaeth am reolaeth ariannol (gan gynnwys targedau effeithlonrwydd);
- data perfformiad yn erbyn safonau gweithredol a gwasanaeth;
- data rheoli perfformiad arall;
- data am lefelau staffio a phersonél fel absenoldeb oherwydd salwch, gwariant ar hyfforddiant a datblygiad;
- cynigion buddsoddi TG; a
- strategaethau gweithredol ar gyfer TG, Ystadau, Adnoddau Dynol a Chyllid.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cyllidebau arfaethedig ar gyfer rhaglenni grant a gweinyddiaeth i'w cyflwyno i'r Bwrdd. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi argymell Cynllun Busnes 2018–19.

Rhennir cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor â'r Bwrdd, ac felly hefyd adroddiad ffurfiol chwe-misol ar fusnes. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor. Yn 2017–18, penderfynodd yr ymddiriedolwyr benodi aelod annibynnol anweithredol i ategu'r ymddiriedolwyr ar y pwyllgor. O ganlyniad, ymunodd Steve Blake â'r Pwyllgor yn 2017. Mae ganddo gryn brofiad o reolaeth ariannol, cynllunio busnes a rheoli newid. Diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i adlewyrchu'r rôl newydd.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y pwyllgor drwy gydol 2017–18 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Atul Patel MBE Cadeirydd | 3 | 3 |
| Steve Blake<br>aelod anweithredol o 1 Mehefin 2017 | 2 | 1 |
| Perdita Hunt DL, OBE | 3 | 3 |
| Ros Kerslake OBE | 3 | 3 |
| Syr Peter Luff | 3 | 3 |

**Dirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau**
Yn 2017–18, dirprwyodd y Bwrdd rywfaint o'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri i is-set o ymddiriedolwyr yn gweithredu fel paneli Bwrdd. Roedd y rhain yn ymdrin â phenderfyniadau ar gyfer y rhaglenni grant canlynol:

- Kick the Dust;
- Sgiliau ar gyfer y Dyfodol; a
- Parciau i Bobl (yn Lloegr roedd hwn yn banel ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr).

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o ddyfarniadau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri i bwyllgorau gwledydd a rhanbarthau. Mae 12 o'r pwyllgorau hyn ac mae pob un yn cynnwys un ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau, mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu maes, a gweithredant fel eiriolwyr ar gyfer gwaith y sefydliad fel Corff Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae Cadeiryddion pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau yn cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd ag uwch aelodau staff, ddwywaith y flwyddyn.

Mae aelodau newydd y pwyllgorau hyn yn cael sesiwn sefydlu ffurfiol gyda'r Prif Weithredwr ac uwch aelodau staff drwy gydol y flwyddyn, gan ddibynnu ar y cylch recriwtio a phenodi. Yn 2017–18, cynhaliom sesiynau sefydlu ffurfiol i sawl aelod newydd.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau o dan £100,000 i staff, yn benodol Penaethiaid Gweithrediadau mewn gwledydd a rhanbarthau. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar effaith grantiau dirprwyedig ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau a staff eu hadrodd i'r Bwrdd.

**Adolygiad wedi'i Deilwra**
Fel y nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu diwethaf, yn 2017–18, cynhaliodd DCMS ein Hadolygiad wedi'i Deilwra a chyflwynodd adroddiad ym mis Tachwedd 2017. Roedd yr adolygiad hwn yn gymeradwyaeth gadarnhaol o'n gwaith a'i ehangder, ac mae'n dangos bod CGDG yn sefydliad mawr ei barch sydd wedi trawsnewid cymunedau a threftadaeth ar hyd a lled y DU.

Cynhelir Adolygiadau wedi'u Teilwra ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus anadrannol bob ychydig o flynyddoedd, ac ymgynghorodd DCMS â'n rhanddeiliaid er mwyn canfod eu barnau ynglŷn â sut rydyn ni'n gweithio. Daeth DCMS i'r casgliad ein bod yn perfformio'n dda fel sefydliad, gyda 79% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ein gweld fel corff cyllido effeithiol 'iawn', neu 'eithriadol'. Mae parch mawr i'n staff fel ffynonellau cymorth agored, parod eu cymwynas a gwerthfawr, a gwerthfawrogir yn fawr ein rôl fel

cyllidwr y DU gyfan â'i unig ffocws ar dreftadaeth.

Mae'r adolygiad yn nodi bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gweithredu yng nghyd-destun gostyngiad yn nerbyniadau'r Loteri Genedlaethol a chyllid awdurdodau lleol. O ganlyniad, argymhellir y dylai'r Gronfa ddod yn fwy strategol, effeithiol ac effeithlon er mwyn sicrhau bod cyllid y Loteri Genedlaethol yn parhau i gefnogi gwydnwch y sector treftadaeth, ei fod o fudd i bobl ac yn gwarchod treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gwnaeth yr adolygiad gyfres o argymhellion ar gyfer sut y gallwn gryfhau ein heffeithiolrwydd a'n perfformiad ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys egluro ein blaenoriaethau yn ein Fframwaith Cyllido Strategol sydd yn yr arfaeth, a chryfhau ein partneriaethau strategol gyda chyllidwyr, arbenigwyr a llywodraethau eraill ledled y DU.

Mae'r argymhellion tymor byr a thymor canolig eisoes yn cael eu gweithredu, gan gynnwys cryfhau cyfathrebu, rheoli data, ymchwil a gwerthuso. Bydd argymhellion tymor hwy yn aros ein Fframwaith Cyllido Strategol newydd yn 2019.

Cyhoeddom gynllun gweithredu i olrhain a chyflawni'r argymhellion. Byddwn yn parhau weithio gyda DCMS a phartneriaid eraill, er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a'r cymorth gorau posibl i'r sector treftadaeth.

### Incwm y Loteri Genedlaethol

Yn 2017–18, ochr yn ochr â holl ddosbarthwyr eraill arian y Loteri, cyflwynwyd amcanestyniadau a dadansoddiad i ni o incwm y Loteri Genedlaethol am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Comisiwn Hapchwarae, Yr Adran dros Fateron Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a Camelot (gweithredwr y Loteri Genedlaethol) er mwyn deall y data y tu ôl i'r amcanestyniadau hyn, ac i asesu'r risgiau a'r cyfleoedd o'r gwaith hwn.

Cynhaliodd Camelot adolygiad strategol o'u cynlluniau a'u gweithrediadau yn yr hydref 2017, a pharhawn i weithio gyda nhw a phartneriaid eraill i weithredu eu cynlluniau'n ymarferol lle mae hyn yn gorgyffwrdd yn ein maes ni, er enghraifft hyrwyddo menter y Loteri Genedlaethol 'The One'.

Croesawn Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017) ar Gyllid y Loteri Genedlaethol ar gyfer Achosion Da a chymeradwywn ei ganfyddiadau. Byddwn yn parhau i weithio i geisio sicrhau gwelliannau mewn gwybodaeth ac amcanestyniadau ar gyfer incwm.

Gan ystyried y gostyngiad mewn incwm, gwnaeth y Bwrdd benderfyniadau ym mis Rhagfyr 2017 i sicrhau cysoni incwm yn effeithiol ag ymrwymiadau a chronfeydd wrth gefn. Byddwn yn parhau i fonitro'r risg hon yn ofalus ac yn fanwl trwy gydol 2018–19.

### Y Tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Arwain

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Yn flaenorol, roedd y Prif Weithredwr yn cael cefnogaeth gan Grŵp Penaethiaid Adran a Bwrdd Rheoli yn cynnwys yr holl Gyfarwyddwyr a Dirprwy Gyfarwyddwyr. Yn 2017–18, diffiniwyd ac esboniwyd rolau'r grwpiau hyn ymhellach er mwy gwella llywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'r Grŵp Penaethiaid Adran wedi'i ail-enwi y Tîm Gweithredol, ac mae'r Bwrdd Rheoli wedi'i ail-enwi yr Uwch Dîm Arwain. Ar yr un pryd, cafodd y Fforwm Rheolwyr, sy'n cynnwys yr holl reolwyr Gradd C ac uwch, ei ail-enwi y Tîm Arwain, gan adlewyrchu rôl bwysig y grŵp hwn.

Y Tîm Gweithredol (y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr) sydd bellach yn gyfrifol am faterion rheoli strategol ehangach ac maent hefyd yn gweithredu fel y Bwrdd Rhaglenni ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Busnes (gweler tud 39). Mae'r Tîm Gweithredol yn cyfarfod ddwywaith y mis.

Yr Uwch Dîm Arwain (y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr a dirprwy gyfarwyddwyr) sydd bellach yn gyfrifol am weithrediadau'r Gronfa o ddydd i ddydd, yn ogystal â pharatoadau ar gyfer ein Fframwaith Ariannu Strategol nesaf. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cyfarfod yn wythnosol.

Mae pob cyfarwyddwr adrannol yn rhoi adroddiad misol i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion o fewn eu cylch gorchwyl. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Tîm Arwain sy'n cynnwys uwch reolwyr a rheolwyr canol ac yn sicrhau bod penderfyniadau a chyfarwyddiadau'r Bwrdd yn cael eu cyfathrebu'n uniongyrchol i aelodau staff allweddol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys adroddiadau llafar ar weithgareddau ar draws pob adran yn ogystal â thrafodaethau ar faterion thematig sy'n effeithio ar bob tîm, er enghraifft, rheoli risg a chynllunio busnes. Mae'r Tîm Arwain hefyd wedi bod yn gysylltiedig â helpu'r uwch arweinwyr i ddatblygu ein Strategaeth Gorfforaethol newydd – gweler isod.

### Strwythur

Mae'r Prif Weithredwr yn gweithredu strwythur pedair adran, sef:

- Gweithrediadau;
- Strategaeth a Datblygu Busnes;
- Cyfathrebu; a
- Chyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r tîm Ysgrifenyddiaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

Caiff y cynllun gweithredu blynyddol – y Cynllun Busnes – ei ddatblygu bob blwyddyn ochr yn ochr â chyllidebau ariannol a chynllunio rhaglenni grant. Fel y blynyddoedd blaenorol, gwnaethom integreiddio rheoli risg yn fanwl i'r broses cynllunio busnes eleni hefyd. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi,

sef y DCMS. Mae'r DCMS hefyd yn gosod cyfarwyddiadau polisi a chyfarwyddiadau ariannol yr ydym wedi cydymffurfio â hwy yn ein gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraethau'r Alban a Chymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn y gwledydd hynny, ac rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn hefyd.

Rydym yn gweithredu yn unol â Chytundeb Rheoli a Memorandwm Ariannol rhyngom ni a'r DCMS. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd â swyddogion y DCMS a Dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Adnewyddwyd y Cytundeb Rheoli y llynedd a rhoddwyd cytundeb newydd ar waith ar gyfer 2016 hyd at 2020. Nid oed unrhyw newidiadau sylweddol i'r adroddiad hwn.

**Strategaeth Gorfforaethol**
Fe wnaethom gydnabod, yn ychwanegol at y cynlluniau a'r fframweithiau strategol llwyddiannus fu gennym ar waith, yn hanesyddol, ar gyfer rhoi grantiau'r Loteri Genedlaethol, fod arnom angen Strategaeth Gorfforaethol sefydliadol, ehangach hefyd ar gyfer cyfeirio'r sefydliad ac i'n helpu ni gynllunio ac ymateb i heriau, risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn darparu ar gyfer 'ymbarél cyffredinol' i'n gweithgarwch ar lefel uchel. Caiff ei chefnogi gan ystod o ymatebion corfforaethol eraill, sy'n darparu mwy o fanylion mewn meysydd gweithredol, strategol a pholisi penodol, gan gynnwys ein:

- Fframwaith Ariannu Strategol ar gyfer incwm y Loteri Genedlaethol 2019 i 2024;
- Cynllun Busnes ar gyfer 2018–2019 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol;
- Cynllun Gweithredu'r Adolygiad wedi'i Deilwra;
- Rhaglen Trawsnewid Busnes; a
- Strategaethau busnes ar gyfer meysydd swyddogaethol unigol, e.e. ein Strategaeth Ddigidol.

Bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau yn ffynhonnell fwyaf sylweddol ein hincwm o 2018 hyd 2021, a ffocws y rhan fwyaf o'n gweithgarwch. Mae'r galw am ein cyllid yn cynyddu wrth i ffynonellau cyllid cyhoeddus eraill leihau, gyda'r galw bum gwaith yn fwy na'n cyllideb ar rai lefelau, yn erbyn rhagolygon o refeniwiau llai gan y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn atgyfnerthu'r cyfeiriad fu gennym ers nifer o flynyddoedd, gan amlinellu ein rôl fel y ffynhonnell gyllid fwyaf ar gyfer treftadaeth ledled y DU, ac yn cymryd camau pellach tuag at sefyllfa arwain gryfach, gyda ffocws penodol ar gyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau yn unig. Y nod yw gyrru newid a chynyddu ein heffaith ar draws treftadaeth y DU, drwy gryfhau ein rôl arwain a sefyll dros y buddion y gall treftadaeth eu cyflawni i gymdeithas.

Byddwn yn gweithio trwy brosesau diwydrwydd dyladwy a hyfywedd i archwilio'r opsiynau i ehangu gweithgareddau CGDG i gefnogi'r sectorau y mae'n gweithio â nhw.

**Rhaglen Trawsnewid Busnes**
Fel pob sefydliad, rydym yn cydnabod yr angen i addasu a newid ein ffordd o weithio yn ôl yr amgylchedd newidiol y gweithiwn ynddo. Yn ogystal, er mwyn cyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol, bydd angen i ni newid y ffordd rydym yn gweithio.

Bu rhai newidiadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd allanol y gweithiwn ynddo. Er enghraifft, y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd, y trefniadau datganoli parhaus ledled y DU, effeithiau cyni a llai o wario yn y sector cyhoeddus. Rydym yn asesu'r effeithiau hyn ar ein buddsoddiadau presennol a'n buddsoddiadau yn y dyfodol, ac rydym wedi mynd i'r afael â meysydd busnes eraill yn ogystal â'n busnes craidd o fewn ein Strategaeth Gorfforaethol.

Fe wnaeth yr Adolygiad wedi'i Deilwra adnabod ein cyflawniadau dros y ddau ddegawd diwethaf, yn ogystal ag adnabod yr angen i ni addasu a newid i ymateb i'r amgylchedd gwahanol hwn, a darparu hyd yn oed gwell gwerth am arian i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a'r cymunedau a'r sectorau a wasanaethwn.

Rydym felly wedi sefydlu rhaglen trawsnewid busnes i newid y ffordd rydym yn gweithio, a sut y gwnawn y gwaith hwnnw. Yn 2017–18, dechreuon gynllunio a pharatoi ar gyfer y gwaith hwn, a 2018–19 fydd y flwyddyn gyflawni a gweithredu gyntaf. Disgwyliwn i hyn ddigwydd dros dair blynedd hyd nes ei fod wedi'i gwblhau yn llwyr.

I wneud Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn 'addas ar gyfer y dyfodol', nodau'r rhaglen yw cyflawni'r canlynol:

- y Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd yn dechrau ym mis Mawrth 2018;
- fframwaith ariannu'r Loteri Genedlaethol sy'n symlach ac yn canolbwyntio mwy ar y cwsmer yn 2019;
- proses a system rheoli grantiau sydd wedi'i gwella'n ddirfawr yn 2020;
- moderneiddio TG sy'n cefnogi effeithlonrwydd gweithredol a bodlonrwydd cwsmeriaid;
- y seilwaith corfforaethol (sgiliau, strwythur, gwasanaethau cymorth) i gefnogi ein cyfeiriad strategol; a
- ffyrdd mwy ystwyth o weithio a diwylliant cryfach, mwy cadarnhaol.

Bydd y rhaglen yn cynnwys saith ffrwd waith yn cwmpasu:

- cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol newydd;
- y Fframwaith Ariannu Strategol newydd;
- adolygiad o brosesau busnes;
- llywodraethu;
- moderneiddio TG;
- pobl ac ystadau; a
- marchnata/cyfathrebu a barn cwsmeriaid.

Yn 2018–19, cynlluniwn i:

- Ddechrau gweithredu'r Strategaeth Gorfforaethol newydd fesul cam gan edrych yn arbennig ar ddargyfeirio ffynonellau incwm a dylanwadu ar fwy o fuddsoddi yn y sector treftadaeth.
- Cyflawni'r holl drefniadau ar gyfer y Fframwaith Ariannu Strategol newydd gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, dylunio portffolio, prosesau newydd a chanllawiau.
- Newidiadau i'n gwefan, ein porth ar-lein, ffurflenni a phrosesau.
- Dechrau gweithredu ein strategaeth ddigidol, gan gynnwys cwblhau symudiadau TG ar gyfer yr holl staff, cyflwyno Office 365 fesul cam, integreiddio teleffoni, lleihau papur, datblygu ymagwedd prawf o gysyniad ar gyfer system a phorth rheoli grantiau newydd posibl.
- Adolygu ein dyluniad sefydliadol/ôl-troed ystadau
- Nodi ffyrdd i wella ein cyfathrebiadau allanol, marchnata a deall ein cwsmeriaid yn well mewn ffordd sy'n gwella eu profiad a'u rhyngweithiadau â ni.

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae ein system rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisïau, nodau ac amcanion. Felly, gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig yn hytrach na sicrwydd llwyr. Yn arbennig, credaf yn bendant na ddylai'r dull o reoli risg rwystro arloesedd na newid i fusnes, lle y bo angen hyn. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac i werthuso tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith pe bai hynny'n digwydd.

Caiff pob proses pennu polisi a phenderfynu ynglŷn â grantiau eu llywio gan ddiwylliant a dull rheoli risg CGDG. Ychydig flynyddoedd yn ôl, archwiliom ein dull rheoli risg fel rhan o ymarfer ehangach ynglŷn â sicrwydd ar draws CGDG. Rydym wedi parhau i weithredu'r dull hwn yn 2017–18.

Mae'r cofrestrau risg a'r broses sy'n sail iddynt yn neilltuo perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno'n effeithiol. Mae'r cofrestrau hefyd yn amlygu risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith luoswr' yn cael ei hystyried.

Mae hefyd yn gwahaniaethu rhwng y lefel risg 'gynhenid' (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg 'weddilliol' fel bod modd barnu effeithiolrwydd rheolaethau a dulliau presennol ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn caniatáu i'r perchennog risg nodi mesurau ychwanegol y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr archwaeth a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau gweithredu hynny.

Adolygodd y Bwrdd ei Archwaeth Risg ar gyfer 2018–19 hefyd a pharhaodd i adlewyrchu archwaeth mwy am newid a thrawsnewid busnes. Cydnabu'r Bwrdd hefyd y risgiau a'r heriau sy'n wynebu CGDG yn 2018–19, yn enwedig yn ei rôl dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol – disgwylir i'r rhain esblygu o'r prif risgiau ar gyfer 2017–18 fel y'u hamlinellir isod. Bydd rheoli risg yn effeithiol yn arbennig o bwysig yn y flwyddyn i ddod.

Cydnabyddwn hefyd y dylai risgiau a ystyriwyd yn briodol ac arloesedd i gyflawni amcanion CGDG gael eu hannog. Credaf fod y Gronfa'n dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n mynd ati'n syml i wneud penderfyniadau sy'n rhydd o risg. Mewn cyfnod pan fo cyllid y Loteri Genedlaethol yn lleihau, bydd hyn yn bwysicach fyth er mwyn sicrhau bod cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cyrraedd mor eang â phosibl i'r gymuned.

I'r perwyl hwn, rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau y rhown grantiau iddynt yn dangos cymhwysedd llawn o ran gweinyddu'r grant hwnnw wedyn. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn amgylchiadau prin, rydym yn diddymu'r grant. Mewn achosion lle yr amheuwn dwyll neu ymddygiad amhriodol, byddwn yn adrodd yr achos i'r heddlu er mwyn iddynt ymchwilio ymhellach. Y fi sy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro'r swm bob blwyddyn i gynnig sicrwydd am ein gweithdrefnau asesu a monitro.

Fel y gellir gweld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae'r lefel diddymu grantiau yn eithriadol o fach o gymharu â lefel y grantiau a ddosbarthwn bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uchel o ran bodlonrwydd cwsmeriaid a ddangoswyd mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n rhy feichus i ymgeiswyr. O ganlyniad, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos i bryderu ynglŷn â'r lefel risg sydd ymhlyg yn ein prosesau dyfarnu grantiau.

Yn 2017–18, roedd CGDG o'r farn mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

- gostyngiad yn incwm Cronfa Dreftadaeth y Loteri;
- Y Fframwaith Ariannu Strategol ddim yn cael ei weithredu'n llwyddiannus;
- Argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra ddim yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus;

- adwaith anffafriol i newid a thrawsnewid busnes; a
- dargyfeirio fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol yn aflwyddiannus.

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar lefel y Tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am reoli'r risg a sicrhau bod camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd.

**Ymagwedd at risg gwybodaeth a thwyll**
Mae gan CGDG bolisi twyll a adolygir yn flynyddol. Dilynodd pob aelod o staff CGDG Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll wedi'i deilwra o fewn y ddwy flynedd diwethaf, a ddarparwyd gan dîm sicrwydd arbenigol o Moore Stephens gyda chefnogaeth gan Dîm Cyllid CGDG.

Canolbwyntiodd hyn ar risg twyll o ran:

- rhoi grantiau;
- caffaeliadau; a
- meysydd twyll cyffredinol.

Fe wnaeth yr hyfforddiant hefyd amlygu meysydd risg twyll ar gyfer CGDG, a sut y gellid eu hamlygu a mynd i'r afael â hwy er mwyn lleihau risg twyll. Atgyfnerthom hyn gyda hyfforddiant ar-lein yn 2016–17. Yn 2018–19, byddwn yn edrych ar gyfleoedd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth newydd fel rhan o'n hymateb i'r Adolygiad wedi'i Deilwra.

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwnaethom wella'r trefniadau ymwybyddiaeth o risg a chasglu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol, a pharhaom hyn y llynedd trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partïon arbenigol i amlygu risg twyll. Parhawn i adrodd am yr holl achosion posibl o dwyll i'r heddlu a chysylltwn â nhw'n yn y cyfryw achosion er mwyn sicrhau yr ymchwilir iddynt yn effeithiol.

Mae polisi chwythu'r chwiban sefydledig gan y Gronfa (a ddiweddarwyd gennym yn ddiweddar) a chaiff ei ddwyn i sylw'r staff yn rheolaidd, ac mae ar gael ar Fewnrwyd y Gronfa. Adolygir y polisi yn flynyddol a chaiff staff eu hatgoffa'n rheolaidd ei fod ar gael a sut i'w ddefnyddio. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Rhoddir arweiniad i bob aelod newydd o staff ar ddiogelwch gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Rydym wedi mynd ati i gynllunio a gwneud paratoadau ar gyfer darpariaethau'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd a gyflwynwyd ym mis Mai 2018. Rydym hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth ar dryloywder gwariant, contractau ac ati. Yn 2017–18, parhaom i wella rheolaethau a phrosesau caffael.

**Modelau sy'n bwysig i fusnes**
Rwyf o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r argymhellion yn Adroddiad Macpherson. Barnaf ein bod yn defnyddio un model sy'n bwysig i fusnes – y rhagolwg llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau dyfarnu grantiau blynyddol allan o'n hincwm Loteri Genedlaethol. Ceisiwn sicrhau ein bod yn dyfarnu'r lefel grantiau uchaf posibl heb y risg o redeg allan o arian neu orwario.

Crëwyd y model tua 10 mlynedd yn ôl ac mae'n parhau ar ei ffurf wreiddiol i raddau helaeth, ac eithrio ymestyn ei oes weithredu. Mae'r model wedi'i ddefnyddio i ystyried senarios o wahanol lefelau incwm Loteri, cyfraniadau untro at y Gemau Olympaidd, a rhaglenni grant newydd arwyddocaol. Canfuom ei fod yn darparu rhagolwg rhesymol o'n cynaliadwyedd ariannol.

Yn 2014–15, yn seiliedig ar y model, creodd y Bwrdd Fframwaith Ariannol yn nodi cymarebau grant yn gysylltiedig â chyfanswm lefel yr ymrwymiadau, rhwymedigaethau gwirioneddol cymeradwy, incwm o'r Loteri Genedlaethol a'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG). Credwn felly fod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn ar gyfer ein penderfyniadau dyfarnu grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r ymagwedd hon yn 2017–18 a defnyddiom hyn mewn modelau ar gyfer ein senarios a'n rhagdybiaethau cynllunio incwm y Loteri.

**Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd**
Y gweithgarwch mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu goruchwyliaeth o barhau i gyflwyno Fframwaith Strategol 2013–2018 fesul cam, gweithredu a dyfarnu grantiau ar gyfer y rhaglenni newydd hynny yn 2017–18, fel Sgiliau i'r Dyfodol a Kick the Dust. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi parhau â goruchwyliaeth ar gyfer ymgynghori, cynllunio a pharatoadau ar gyfer y Fframwaith Ariannu Strategol newydd sy'n dechrau yn 2019.

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2017–18 – ond nid cymaint ag yn ystod y flwyddyn flaenorol – mae hyn wedi golygu gostyngiad mewn trosiant ymhlith yr ymddiriedolwyr.

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad interim o'i sgiliau yn 2016–17 trwy fodel hunanasesu. Bydd adolygiad llawn yn dilyn y flwyddyn nesaf. Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn parhau i fodloni gofynion Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 Trysorlys Ei Mawrhydi. Prif ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw oedd edrych ar wella'r cydbwysedd sgiliau a chymwyseddau ar draws yr ymddiriedolwyr. Penodom ddau ymddiriedolwr newydd (gweler y rhestr o aelodau'r Bwrdd ar dudalen 33) ym mis Mawrth 2018, ac ymunodd Maria Adebowale-Schwartz a Sarah Flannigan â ni ym mis Mai 2018.

Mae pob ymddiriedolwr newydd yn cael cyfnod sefydlu ar adeg eu penodi, sy'n amlinellu eu rhwymedigaethau a'u dyletswyddau fel ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/prosesau. Mae hynny'n eu helpu i wneud cyfraniad llawn at waith y Bwrdd.

Parheir â'r rhaglen sefydlu ffurfiol hon drwy'r rhaglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi newydd i ymddiriedolwyr. Caiff effeithiolrwydd ymddiriedolwyr ei arfarnu gan y Cadeirydd yn rheolaidd. Hefyd, goruchwylir perfformiad y Cadeirydd gan yr Uwch Ymddiriedolwr Annibynnol (sef Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg).

Ni chododd unrhyw faterion o bryder o unrhyw un o'r Pwyllgorau a oedd yn cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau o'r adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw faterion gan yr archwilwyr a roddwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a barodd unrhyw bryder iddo. O ganlyniad, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar y wybodaeth a'r sicrwydd a ddarperir gan reolwyr fel sail i'w benderfyniadau.

**Y flwyddyn lywodraethu**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol (Moore Stephens) a'r uwch reolwyr yn CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith rheolaeth fewnol yn cael ei gynnal a'i weithredu'n effeithiol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Gosodir cytundebau perfformiad ar gyfer pob uwch aelod o staff ar ddechrau'r flwyddyn, sy'n amlinellu eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Fe'u hadolygir yn ffurfiol mewn adolygiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Rwyf hefyd yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol â chyfarwyddwyr ar sail un i un drwy gydol y flwyddyn. Fel y soniwyd, mae'r Tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Arwain yn cyfarfod yn rheolaidd.

Rwyf wedi gweld y Llythyr Rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

O ganlyniad i'w rhaglen waith, mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif flynyddol o sicrwydd mewn perthynas â digonolrwydd y systemau a gweithrediad rheolaethau mewnol yn CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar waith i fynd i'r afael â'r risg na chyflawnir amcanion y rheolwyr yn llawn.

Cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio tair blynedd ar adeg eu penodi. Y llynedd, roedd hwn yn cwmpasu trydedd flwyddyn cyfnod hwn a chynhaliwyd a chwblhawyd yr holl adolygiadau a fwriadwyd yn brydlon. Mae'r cynllun blynyddol yn deillio o'r strategaeth archwilio hon ac fe'i cysylltir â'r gofrestr risg a'r archwaeth risg. Gyda Moore Stephens gwnaethom gyflwyno cyfarfodydd cyswllt newydd bob tri mis gyda'r archwilwyr mewnol er mwyn helpu i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain wedi parhau i gael eu defnyddio i fonitro cynnydd a chyflawniad y rhaglen.

Gwnaethom hefyd gyflwyno rheolaethau newydd yn 2014–15 i wella atebolrwydd am adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion yr archwilwyr mewnol. Mae'r rhain wedi parhau yn 2017–18 ac mae argymhellion y disgwyliwyd iddynt gael eu rhoi ar waith yn 2017–18 wedi cael eu gweithredu'n foddhaol. Mae tri argymhelliad wedi'u gohirio i 2018–19 gyda chytundeb y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff, gan gynnwys y rheiny yr adroddwyd ar eu hadrannau gan yr archwilwyr – mae hyn yn rhoi'r cyfle i mi ac aelodau'r Pwyllgor drafod yn fanwl y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau arfaethedig gan y rheolwyr. Lle y derbyniwyd argymhellion ar gyfer gwella neu gywiro, roedd yn ofynnol i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Caiff gweithrediad yr argymhellion hyn eu holrhain a'u monitro gan yr adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r archwilwyr mewnol. Mae'r rhestr rheoli honno'n eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd.

Rwyf hefyd yn mynnu bod yr holl uwch reolwyr a rheolwyr canol yn llofnodi memoranda cynrychiolaeth blynyddol i mi, yn nodi eu cyfrifoldebau ac yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn 2017–18. Mae pob un o'r rheolwyr wedi llofnodi'r memorandwm ac maent yn ymwybodol fy mod yn dibynnu ar yr haeriadau hynny yn y datganiad hwn.

Ers mis Ebrill 2015, cyflwynwyd Llythyrau Awdurdodau Dirprwyedig ar gyfer pob Cyfarwyddwr – yn amlinellu eu hawdurdodau dirprwyedig (ariannol, caffael ac ati) sydd i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn, i ategu'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Cwblhawyd y cylch hwn yn 2017–18.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa yn rhoi i mi'r lefel sicrwydd y gofynnaf amdani. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n fy arwain i gredu bod ein prosesau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grantiau'r Loteri yn annigonol.

Ros Kerslake OBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

29 Mehefin 2018

## Adroddiad tâl a staff

*Tâl y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr*

Roedd hawl gan bob ymddiriedolwr i gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG.

Yn ogystal, fe wnaeth CGDG ad-dalu costau teithio rhai ymddiriedolwyr wrth deithio o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Roedd CGDG hefyd wedi darparu prydau bwyd i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau pan oeddent yn cynnal cyfarfodydd yn eu mannau cyflogaeth. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar yr holl gostau hyn. Ildiodd Syr Roger De Haan CBE ei hawl i dderbyn cyflog yn 2016–17.

Mae tâl yr ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl ar y dde. Caiff yr holl ymddiriedolwyr eu penodi gan y Prif Weinidog. Cânt benodiad tair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynlluniau pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

Dyrannwyd tâl yr ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar sail 1%: 99%. Cyfanswm tâl yr ymddiriedolwyr yn 2017–18 oedd £191,969 (2016–17: £203,228). Caiff tâl a chontractau'r ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan y DCMS. Nid yw eu contractau yn cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad ydynt yn arian parod i'r ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr.

Mae taliadau bonws sy'n daladwy i uwch reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013.

**Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian**

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd y budd-daliadau pensiwn yn cael eu tynnu.

**Cynnydd real mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ac eithrio Helen Coley-Smith, roedd gan bob uwch gyflogai gontractau cyflogaeth parhaol. Roedd yr holl uwch gyflogeion yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu gynllun alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng CDL a CGDG ar sail 99%:1% (2016–17 – 99%:1%). Penodwyd y Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes, Helen Coley-Smith, ar Gontract Cyfnod Penodol yn 2017, a oedd yn adlewyrchu natur cyfyngedig i amser ei rôl.

Tâl y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr (gwybodaeth archwiliedig)

| | **2017–18 £'000** | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff Cadeirydd | **40–45** | 40–45 |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | **20–25** | 20–25 |
| Anna Carragher | **20–25** | 10–15 |
| Syr Neil Cossons OBE | **10–15** | 10–15 |
| Sandie Dawe CBE<br>hyd 14 Awst 2017 | **0–5** | 5–10 |
| Dr Angela Dean | **5–10** | 5–10 |
| Syr Roger De Haan CBE<br>hyd 19 Ionawr 2017 | **dd/b** | 0–5 |
| Jim Dixon | **5–10** | 10–15 |
| Dr Claire Feehily<br>o 1 Mawrth 2018 | **0–5** | dd/b |
| David Heathcoat-Amory<br>hyd 19 Ionawr 2017 | **dd/b** | 5–10 |
| Perdita Hunt DL, OBE | **5–10** | 5–10 |
| Steve Miller | **5–10** | 10–15 |
| Richard Morris OBE | **5–10** | 10–15 |
| René Olivieri<br>o 1 Mawrth 2018 | **0–5** | dd/b |
| Atul Patel MBE | **10–15** | 15–20 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE | **20–25** | 20–25 |
| Dr Tom Tew | **10–15** | 10–15 |

## *Tâl cyflogeion (gwybodaeth archwiliedig)*

Nodir tâl y cyfarwyddwyr yn y ddau dabl isod:

| | Cyflog 2017–18 £'000 | Cyflog 2016–17 £'000 | Bonws 2017–18 £'000 | Bonws 2016–17 £'000 | Budd-daliadau pensiwn cronedig yn ystod 2017–18 £'000 | Budd-daliadau pensiwn cronedig yn ystod 2016–17 £'000 | Cyfanswm 2017–18 £'000 | Cyfanswm 2016–17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ros Kerslake OBE** Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu o 4 Gorffennaf 2016 | **135–140** | 100–105* | **5–10** | 0–5 | **53** | 39 | **195–200** | 140–145 |
| **Eilish McGuinness** Cyfarwyddwr Gweithrediadau | **80–85** | 80–85 | **5–10** | 0–5 | **9** | 18 | **95–100** | 105–110 |
| **Judith Cligman** Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes | **95–100** | 95–100 | **0–5** | 0–5 | **4** | 21 | **105–110** | 120–125 |
| **Colin Bailey** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | **100–105** | 100–105 | **5–10** | 5–10 | **31** | 30 | **135–140** | 140–145 |
| **Louise Lane** Cyfarwyddwr Cyfathrebu | **80–85** | 80–85 | **0–5** | 0–5 | **6** | 60 | **90–95** | 145–150 |
| **Helen Coley-Smith** Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes o 20 Ebrill 2017 | **100–105*** | dd/b | **0–5** | dd/b | **41** | dd/b | **145–150** | dd/b |

| | Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfandaliad £'000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/18 £'000 | CETV ar 31/03/17# £'000 | Cynnydd real yn CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ros Kerslake OBE** Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu o 4 Gorffennaf 2016 | 2.5–5 | 5–10 | 87 | 36 | 40 |
| **Eilish McGuinness** Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 0–2.5 a 0–2.5 o gyfandaliad | 20–25 a 65–70 o gyfandaliad | 456 | 419 | 7 |
| **Judith Cligman** Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes | 0–2.5 a 0–2.5 o gyfandaliad | 40–45 a 120–125 o gyfandaliad | 907 | 846 | 4 |
| **Colin Bailey** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 0–2.5 | 5–10 | 113 | 82 | 19 |
| **Louise Lane** Cyfarwyddwr Cyfathrebu | 0–2.5 a 0–2.5 o gyfandaliad | 20–25 a 60–65 o gyfandaliad | 484 | 462 | 6 |
| **Helen Coley-Smith** Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes o 20 Ebrill 2017 | 0–2.5 | 0–5 | 29 | 0 | 21 |

* Roedd tâl cyfwerth â blwyddyn lawn cyflog Ros Kerslake yn 2016–17 yn y band £135,000 i £140,000. Roedd tâl cyfwerth â blwyddyn lawn cyflog Helen Coley-Smith yn 2017–18 yn y band £110,000 i £115,000.

# neu ar y dyddiad penodi, os yw'n hwyrach.

Mae taliadau bonws sy'n daladwy i uwch reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân ar sail gronedig. Mae hyn yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n union ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, a 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha, fel y bo'n briodol. Pan fo gan y cyfarwyddwr fudd-daliadau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fudd-daliadau yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedran gwahanol.

Mae tâl uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad, wedi'i asesu yn erbyn amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at nodau corfforaethol. Caiff perfformiad a thâl ei adolygu bob blwyddyn gan y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau yn unol â graddfa o bedair gwahanol lefel cyflawniad.

### *Cymhareb tâl (gwybodaeth archwiliedig)*

Un o ganlyniadau Adolygiad Tâl Teg Hutton yw ei bod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf a thâl canolrif ein gweithlu.

Band tâl blynyddol y cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf yn 2017–18 a 2016–17 oedd £140,000 i £145,000 gan gynnwys taliad bonws. Roedd hyn tua 5.0 gwaith (2016–17: 5.2 gwaith) tâl canolrif y gweithlu, sef £28,537 (2016–17: £27,100). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £15,000 i £140,000 (2016–17 £15,000 i £140,000). Roedd y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn amodol ar gylch gorchwyl tâl y llywodraeth. Roedd hyn yn cyfyngu'r swm a oedd ar gael i ariannu codiadau cyflog staff i 1% o'r gyflogres.

### *Pecynnau ymadael (gwybodaeth archwiliedig)*

O dan delerau Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 296 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 2011, mae'n ofynnol i CGDG gyhoeddi manylion yr holl becynnau ymadael a gytunwyd yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Yn dod o dan y diffiniad o becynnau ymadael y mae diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeoliad cynnar, iawndal am golli swydd, taliadau ex-gratia ac ati.

Roedd yn un 2017–18 (2016–17: dim) yn y band canlynol:

| | **2017–18 Nifer** | 2016–17 Nifer |
|---|---|---|
| £45,001–£50,000 | **1** | 0 |

Codwyd 99% o gost y pecyn ymadael hwn i'n gweithgareddau dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol.

### *Costau a niferoedd staff (gwybodaeth archwiliedig)*

| | **2017–18 £'000** | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **127** | 277 |
| Taliadau YG y Cyflogwr | **11** | 14 |
| Taliadau i gynlluniau pensiwn | **25** | 53 |
| Costau staff dros dro | **3** | 2 |
| | **166** | 346 |

Dyrannwyd costau ychwanegol gwerth £13,076,000 i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, ac fe'u hadlewyrchir yn y cyfrifon hynny.

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2017–18 Nifer** | 2016–17 Nifer |
|---|---|---|
| Ceisiadau grant | **4** | 11 |
| Cyllid a gwasanaethau corfforaethol | **0** | 0 |
| Strategaeth a datblygu busnes | **0** | 0 |
| Cyfathrebu | **0** | 0 |
| | **4** | 11 |

Datgelir y ffigurau uchod fel ffigurau cyfwerth ag amser llawn ac maent yn cynnwys cyfartaledd o un aelod o staff ar gontract cyfnod penodol. Yn ogystal, cyflogwyd 267 o staff parhaol a 27 ar gontractau cyfnod penodol ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri.

### *Pensiynau*

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil o Ebrill 2015 – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, roedd yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: tair sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y budd-daliadau'n cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Roedd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai hynny a oedd rhwng 10 mlynedd, a 13 blynedd a 5 mis, o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd budd-daliadau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu bancio, a bydd budd-daliadau'r rhai hynny sydd â budd-daliadau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Caiff aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant budd-daliadau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid prynu arian gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau classic, premium,

classic plus, nuvos ac alpha. Mae budd-daliadau yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae budd-daliadau'n cronni ar gyfradd o 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas, mae classic plus yn amrywiad o premium, ond gyda budd-daliadau o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic, a budd-daliadau am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premium. Yn y cynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff y cyfrif pensiwn a enillodd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Mae budd-daliadau alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, heblaw am y ffaith mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis cymudo pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £914 (2016–17: £1,791) i ddau o banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch).

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw aelodau o staff sy'n gweithio ar fusnes CGDG sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ni wnaeth yr un aelod o staff ymddeol yn gynnar ar sail iechyd yn ystod 2017–18.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.


Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â budd-daliadau wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrheir gan y PCSPS ac alpha yn talu cost sicrhad pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronnus. Ar gyfer 2017–18, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £24,193 (2016–17: £51,262) i'r PCSPS ac alpha ar y cyfraddau a nodir fel a ganlyn:

| Cyflog yn 2017–18 | % yn 2017–18 |
|---|---|
| £23,000 ac is | 20.0% |
| £23,001–£45,500 | 20.9% |
| £45,501–£77,000 | 22.1% |
| £77,001 ac uwch | 24.5% |

## *Rheoli Absenoldeb*

Parhaodd absenoldeb salwch staff yn 2017 yn is na meincnodau cenedlaethol, gyda lefelau cyffredinol yn rhedeg ar 1.3%, sef fymryn yn is na lefelau 2016, sef 1.4%. Mae'r Gronfa'n parhau i gefnogi a hyrwyddo polisïau lles trwy ddarparu cynllun cymorth i gyflogeion a buddiannau eraill cysylltiedig.

**Lefelau Absenoldeb Salwch Staff**




## *Ymgysylltu ac Ymgynghori â Chyflogeion*

Parhawn i ymgynghori'n rheolaidd â'n staff a'u hysbysu am ein cyfeiriad strategol a'n cynnydd gweithredol. Eleni, rydym wedi ymgynghori'n helaeth â staff, cwsmeriaid a rhanddeiliaid er mwyn ein helpu i bennu ein Fframwaith Ariannu Strategol yn y dyfodol. Hefyd, rydym wedi ymgynghori fel rhan o broses datblygu ein Strategaeth Gorfforaethol newydd.

Caiff pob aelod o staff gylchlythyrau wythnosol yn rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt ar draws y Gronfa, ac mae gennym grwpiau trafod gweithgar yn y cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliom ein digwyddiad 'sefydliad cyfan' cyntaf gyda'r holl staff yn 2018, ac rydym yn trefnu'r rhain deirgwaith y flwyddyn yn awr. Hefyd, rydym yn galw ein Tîm Arwain ynghyd yn rheolaidd, gan gasglu ein rheolwyr o'n rhanbarthau a'r gwasanaethau corfforaethol ar gyfer trafod ac ymgynghori.


Mae'r Gronfa yn cyfarfod bod chwarter gyda'i phartneriaid Undebau Llafur hefyd (FDA a PCS) a chyhoeddir cofnodion cyfarfodydd. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol fel bo'r angen, a gofynnir am farnau Undebau Llafur ar newidiadau i bolisïau, prosesau a strwythur.

Yn 2017, derbyniom y canlyniadau o'n harolwg ymgysylltu â chyflogeion, a gyflawnodd ffigur mynegai ymgysylltu o 72% (i lawr fymryn o'r llynedd, ond yn dal ymhell uwchlaw meincnodau cymaradwy) yn seiliedig ar gyfradd ymateb o 85%.

## *Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chyflogaeth*

Yn ein holl weithgareddau, parhawn i gynnal ein hymrwymiad hirsefydlog i gydraddoldeb a

**Tarddiad ethnig staff**





| | |
|---|---|
| Affricanaidd | 7 |
| Asiaidd | 1 |
| Asiaidd a Gwyn | 2 |
| Asiaidd Bangladeshaidd | 1 |
| Asiaidd Indiaidd | 4 |
| Asiaidd Pacistanaidd | 2 |
| Du Affricanaidd a Gwyn | 1 |
| Caribïaidd | 5 |
| Tsieineaidd | 2 |
| Arall | 7 |
| Ethnig Cymysg Arall | 1 |
| Heb ddatgan | 39 |
| Gwyn | 230 |
| **Cyfanswm** | **302** |

**Anabledd datganedig gan staff**





| | |
|---|---|
| Dim anabledd datganedig | 290 |
| Anabledd datganedig | 12 |
| **Cyfanswm** | **302** |

**Rhywioldeb staff**




| | |
|---|---|
| Ddim yn dymuno ymateb | 187 |
| Heterorywiol | 109 |
| LGBT | 6 |
| **Cyfanswm** | **302** |

**Rhyw y staff**




| | |
|---|---|
| Menywod | 228 |
| Dynion | 74 |
| **Cyfanswm** | **302** |

Data yn gywir ym mis Mawrth 2018 ac wedi'i gyfrifo ar nifer y staff mewn swydd (mae'r siartiau yn cynnwys data cyfunol ar gyfer staff sy'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu cymorth grant ac arian y Loteri).

chynhwysiant – yn ein gweithlu, wrth benodi penderfynwyr ac o fewn cyrraedd ein buddsoddiad. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwerth cael grŵp staff amrywiol a Bwrdd a phwyllgorau amrywiol. Parhawn i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws ein sefydliad, gan gynnwys yn ein prosesau recriwtio a dethol. Mae'r nodau hyn yn amlwg yn ein Strategaeth Gorfforaethol newydd, a'n huchelgais yw y bydd ein sefydliad a'n pobl yn adlewyrchu poblogaeth y DU yn well. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad ydym yn adlewyrchu hyn yn ein hamrywiaeth staff ar hyn o bryd. Mae'r tabl isod yn dangos bod 75% o'n staff yn fenywod, mae 11% yn dod o grwpiau pobl dduon, Asiaidd, neu grwpiau lleiafrifoedd ethnig, mae anableddau datganedig gan 4% ac mae 2% wedi datgan eu hunain yn bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol neu Drawsrywiol (LGBT). Fodd bynnag, mae ein data hefyd yn dangos lefelau uchel o beidio â datgelu gwybodaeth bersonol, a byddwn yn cymryd camau i leihau hyn yn 2018 fel rhan o'n hymgyrch i gydnabod a dathlu amrywiaeth. Mae dros 50% o'n staff wedi mynychu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys ein Tîm Gweithredol, ac mae ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn orfodol i bob aelod newydd o staff. Mae camau i fynd i'r afael ag amrywiaeth y gweithlu yn rhan o flaenoriaeth allweddol o dan ein Cynllun Adnoddau Dynol ar gyfer 2018–19 hefyd.

Mae cyfansoddiad ein penderfynwyr, gan gynnwys y Bwrdd fel a ganlyn: 52% yn fenywod; 12% yn bobl dduon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig; 5% ag anabledd datganedig ac 8% LGBT. Mae tua 50% o'r penderfynwyr wedi cymryd rhan mewn gweithdy cydraddoldeb ac amrywiaeth a thrafodaeth ehangach ar lefel bwrdd a phwyllgorau.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'n dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Cynhaliwn y dyfarniadau Hyderus o Ran Anabledd a Buddsoddwyr mewn Pobl.

## *Gwariant ar ymgynghorwyr*

Gwariodd CGDG £15,480 ar ymgynghorwyr yn 2017–18 (2016–17: £0). Mae CGDG wedi defnyddio'r diffiniadau o ymgynghorwyr a geir yn atodiad 6.1 canllaw rheolaethau Swyddfa'r Cabinet: fersiwn 4.0.

## *Chwythu'r chwiban*

Mae gan y Gronfa Bolisi Chwythu'r Chwiban clir a hygyrch i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y cred yr unigolyn ei fod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn ymwneud â phryderon sydd er budd y cyhoedd ac mae'n cynnwys y materion canlynol (anghyfyngedig):

- camarfer neu amhriodoldeb ariannol neu dwyll
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu statud
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu ymddygiad anfoesegol
- ymdrechion i gelu unrhyw un o'r uchod.

## *Trefniadau treth cyflogeion y sector cyhoeddus*

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn mynnu bod pob corff llywodraeth ganolog yn adrodd ar faterion treth uwch reolwyr a chontractwyr hirdymor. Yn benodol, mae'r Trysorlys yn mynnu bod pob uwch reolwr ar y gyflogres ac yn talu treth o dan y cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE). Mae'r holl aelodau staff, yr holl Ymddiriedolwyr a holl aelodau'r pwyllgor gwledydd a rhanbarthau ar gyflogres CGDG ac felly'n talu

treth a chyfraniadau yswiriant gwladol trwy'r cynllun PAYE. Nid oes gennym unrhyw gontractwyr nad ydynt yn bodloni canllawiau Trysorlys EM.

*Rhwymedigaethau pensiwn*
Mae'r Gronfa yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

29 Mehefin 2018

## Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio

### *Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban*

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodwyd allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2018 a'i diffyg gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y ddeddf honno.

**Barn ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Sail y barnau**
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiadau ariannol o'm tystysgrif. Mae'r safonau hynny yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i f'archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'm barn.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**
Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

**Cyfrifoldeb yr Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, pa un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol eu bod, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerwyd ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU), rwyf yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn nodi ac yn asesu risgiau cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed yn sgil twyll neu wall, yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol yn deillio o dwyll yn uwch na'r risg yn deillio o wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, anweithredoedd bwriadol, camliwiadau, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- yn cael dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at y diben o fynegi barn

ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

- yn gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd, a rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y rheolwyr.
- yn dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd y rheolwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol. Os dof i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn f'adroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r cyfryw ddatgeliadau yn annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad f'adroddiad archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r endid beidio â pharhau'n busnes gweithredol.
- yn gwerthuso cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheiny sydd â chyfrifoldeb am reoli, ymhlith materion eraill, mewn perthynas â chwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio o bwys, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod f'archwiliad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Gwybodaeth Arall**

Yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel rhannau wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu wybodaeth yr ymddengys ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os ydwyf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod cam-ddatgan o bwys yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980; a
- gan ystyried y wybodaeth am, a dealltwriaeth o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod f'archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu nid yw datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn oddi wrth ganghennau na ymwelodd fy staff â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Syr Amyas CE Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

6 Gorffennaf 2018

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

## Y datganiadau ariannol

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | £'000 | 2017–18 £'000 | Ailddatgenir 2016–17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredol amrywiol** | 4 | | **233** | 0 |
| Dyfarniadau safonol newydd a wnaed yn ystod y flwyddyn | 13 | **(5,735)** | | (8,827) |
| Dyfarniadau CATMARh* a wnaed yn ystod y flwyddyn | 13 | **(1,236)** | | (23,685) |
| Dyfarniadau wedi'u dadymrwymo | 13 | **694** | | 1,418 |
| Addasiad y flwyddyn flaenorol – darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau wedi dod i ben | 13 | | | 924 |
| | | | **(6,277)** | (30,170) |
| Costau staff | 22 | **(166)** | | (346) |
| Dibrisiad | 9 | **(2)** | | (2) |
| Costau gweithredol eraill | 5 | **(180)** | | (648) |
| | | | **(348)** | (996) |
| **Gwariant gweithredol** | | | **(6,625)** | (31,166) |
| **Diffyg gweithredol** | | | **(6,392)** | (31,166) |
| Elw ar werthu buddsoddiadau | 6 | **153** | | 646 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | 7 | **51** | | 26 |
| **Incwm anweithredol** | | | **204** | 672 |
| **Gwariant net cynhwysfawr a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig** | | | **(6,188)** | (30,494) |
| **Incwm cynhwysfawr arall** | | | | |
| Elw net ar ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 17 | | **346** | 6,130 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018** | | | **(5,842)** | (24,364) |

* Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig

Nid yw'r datganiad o wariant yn cynnwys gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG, yr adroddir arnynt mewn set o gyfrifon ar wahân. Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus. Mae'r nodiadau ar dudalennau 54i 63 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | Cronfa wrth gefn gwerth teg £'000 | Cyfrif incwm a gwariant £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | 9,845 | 18,551 |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr yn 2016–17** | | |
| Colled net ar ailbrisio buddsoddiadau | 6,130 | 0 |
| Gwariant net cynhwysfawr a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig | 0 | (30,494) |
| Cymorth grant gan y DCMS | 0 | 35,250 |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | 15,975 | 23,307 |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr yn 2017–18** | | |
| Enillion net ar ailbrisio buddsoddiadau | 346 | 0 |
| Gwariant net cynhwysfawr a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig | 0 | (6,188) |
| Cymorth grant gan y DCMS | 0 | 12,458 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **16,321** | **29,577** |

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cost llyfr a gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y gronfa waddol (gweler nodyn 10 ar dudalen 57). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodyn 9 ar dudalen 57) yn berthnasol.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol
ar 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2018 £'000 | Ailddatganwyd 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 9 | **4** | 6 |
| Asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | 10 | **43,939** | 43,856 |
| | | **43,943** | 43,862 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 11 | **235** | 2 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian | 8 | **7,049** | 3,411 |
| Arian a ddelir yn y gronfa waddol | 10 | **0** | 0 |
| | | **7,284** | 3,413 |
| **Cyfanswm asedau** | | **51,227** | 47,275 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau sy'n daladwy | 12 | **(69)** | (146) |
| Rhwymedigaethau grant sy'n ddyledus mewn blwyddyn | 13 | **(5,260)** | (7,847) |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | **45,898** | 39,282 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau grant sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | 13 | **0** | 0 |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **45,898** | 39,282 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa wrth gefn gwerth teg | 17 | **16,321** | 15,975 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | **29,577** | 23,307 |
| | | **45,898** | 39,282 |

Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys balansau sy'n ymwneud â gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG, sy'n cael eu datgelu ar wahân yng nghyfrifon CDL. Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 63 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Syr Peter Luff**
Cadeirydd

29 Mehefin 2018

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# Datganiad llifoedd arian
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian o incwm gweithredol amrywiol | 4 | **233** | 0 |
| Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(155)** | (326) |
| Llog a dderbyniwyd | 7 | **51** | 26 |
| Arian a dalwyd i gyflenwyr | | **(501)** | (837) |
| Arian a dalwyd i dderbynyddion grant | 13 | **(8,864)** | (36,069) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | 15a | **(9,236)** | (37,206) |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | 15b | **0** | (2) |
| Derbyniadau arian net y gronfa waddol | 15b | **416** | 1,921 |
| **Mewnlif arian net o adenillion ar fuddsoddiadau** | | **416** | 1,919 |
| **Llifoedd arian cyn ariannu** | | **(8,820)** | (35,287) |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Cymorth grant a dderbyniwyd | 15c | **12,458** | 35,250 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | | **3,638** | (37) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 63 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Cysoni llifoedd arian net i symudiad mewn cronfeydd net
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian gweithredol yn y cyfnod | **3,638** | (37) |
| Arian a ddefnyddiwyd i gynyddu adnoddau hylifol | **0** | 0 |
| **Newidiadau mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | **3,638** | (37) |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 1 Ebrill 2017 | **3,411** | 3,448 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2018** | **7,049** | 3,411 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 63 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Gydag un eithriad, nid oes unrhyw safonau a dehongliadau dan sylw, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl y byddant yn cael effaith sylweddol ar incwm ac asedau net adroddedig CGDG na'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Disgwylir mai effaith ragweledig fach iawn a gaiff Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol IFRS 9 (Offerynnau Ariannol) a 15 (Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid). Bydd IFRS 16 (Prydlesi) yn cael effaith sylweddol, a chaiff ei dadansoddi yn y cyfrifon ar gyfer 2018–19 gan nad yw'n dod yn weithredol hyd nes 2019–20.

### *a) Confensiwn cyfrifyddu*

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a Chanllaw Adrodd Ariannol (FREM) Trysorlys EM, i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a chyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ym mis Hydref 2002. Mae'r triniaethau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FREM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol.

Mae copïau o ddosbarthiad y Loteri a chyfarwyddiadau'r cyfrifon cymorth grant ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd, Cronfa Goffa Treftadaeth y Loteri, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Pan fo'r FREM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig CGDG at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### *b) Grantiau'r llywodraeth*

Nid yw ein cymorth grant gan y DCMS yn cael ei drin fel incwm. Yn lle hynny, caiff ei drin fel cyllid gan ei fod yn cael ei ystyried yn gyfraniad oddi wrth barti rheoli sy'n arwain at fuddiant ariannol. Gwneir hyn drwy wneud addasiad i'r gronfa gronedig. Ni wneir unrhyw ddyraniadau rhwng grantiau at ddibenion refeniw a chyfalaf. Mae swm y cymorth grant a gydnabyddir yn y cyfrifon hyn yn adlewyrchu'r symiau a dynnwyd i lawr mewn gwirionedd o DCMS yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'u haddasu ar gyfer symiau y disgwyliwn eu had-dalu.

### *c) Rhoddion*

Ymdrinnir â rhoddion yn wahanol i arian a dderbynnir fel rhan o raglenni grant ar y cyd. Mae rhoddwr yn rhywun nad oes ganddo unrhyw gysylltiad mewn unrhyw benderfyniad i wario'r arian hwnnw. Os oes cysylltiad, yna byddai'n cael ei drin fel rhaglen grant ar y cyd.

Fel arfer, caiff rhoddion eu codi yn y cyfnod lle derbyniwyd y cyllid. Fodd bynnag, lle ceir perthynas gontractiol rhwng CGDG a'r rhoddwr, codir y rhodd yn y cyfnod pan ddigwyddodd y gweithgarwch cysylltiedig, ni waeth pryd y derbyniwyd y cyllid. Felly, mae'r rhoddion gan Tourism NI a'r Adran Cymunedau wedi'u haseinio i 2017–18, er y derbyniwyd y cyllid yn 2018–19, gan i gytundeb y rhodd gael ei lofnodi yn 2017–18 a gwnaed y dyfarniadau grant cysylltiedig yn 2017–18.

### *ch) Asedau anghyfredol*

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynwyd at ddefnydd hirdymor CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri a phan fo cyfanswm y gost uwchlaw £2,000. Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau anghyfredol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – oes y brydles |
| Offer swyddfa | – 4 –10 mlynedd |
| Gosodiadau swyddfa | – 4 –10 mlynedd |
| Asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd |

Ni chaiff unrhyw gostau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu. Mae dibrisiad yn cychwyn yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

### *d) Buddsoddiadau*

Mae asedau ariannol anghyfredol – ein buddsoddiadau – wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar werth marchnad fel y'u hadroddwyd i ni gan ein rheolwyr buddsoddi. Cynhwysir enillion a cholledion wedi'u realeiddio yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr, ac fe'u cyfrifir fel y gwahaniaeth rhwng derbyniadau o werthiannau a chost hanesyddol. Caiff enillion a cholledion heb eu realeiddio ar y buddsoddiadau hyn eu hadlewyrchu yn y gronfa wrth gefn gwerth teg a ddatgelir yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol a'r datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr.

### *dd) Trethiant*

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG yn statudol eithriedig o dan adran 507 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Nid yw CGDG yn gallu adennill Treth Ar Werth (TAW) a godir arni a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y disgrifiadau o wariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

### *e) Pensiwn*

Caiff cost reolaidd darparu buddion ei chodi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob aelod o'n staff yn aelodau o'r PCSPS neu alpha (y cynllun dilynol i PCSPS) a hysbysir canran y tâl pensiynadwy gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl a staff am ragor o fanylion.

### *f) Prydlesi*

Codir y rhenti blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles. Pan fydd gan brydlesi sylwedd prydlesi cyllid, a'u bod yn berthnasol, ymdrinnir â nhw fel prydlesi cyllid. Caiff eitemau o dan brydlesi cyllid eu cyfalafu ar eu cost amcangyfrifedig, heb gynnwys unrhyw log a godwyd gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau cytundeb y brydles i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad o dan y brydles.

### *ff) Penderfyniadau grant*

Caiff penderfyniadau cadarnhaol gan ymddiriedolwyr eu cydnabod yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar adeg y dyfarnu. Bydd dadymrwymiadau'n digwydd pan na chymerir dyfarniad neu ddyfarniad rhannol gan y sawl y dyfernir grant iddo. Mae'r adeg adnabod dadymrwymiadau yn dibynnu ar gytundeb rhwng staff CGDG a'r sawl y dyfernir grant iddo. Er bod hyn yn broses syml fel arfer, mae CGDG yn ymwybodol o'i gofyniad contractiol i dalu hyd at y dyfarniad grant llawn ac felly mae'n ochelgar wrth dadymrwymo dyfarniadau.

### *g) Dyrannu costau ac adrodd segmentaidd*

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol IFRS 8 yn pennu gofyniad bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar adroddiadau segmentaidd pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n berthnasol, byddai uwch reolwyr yn nodi ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredol iddynt ar sail pro rata yn seiliedig ar lefel y grant a ddyfarnwyd, oni bai bod gwahaniaeth sylweddol yn y modd y cafodd y ceisiadau eu prosesu; yn yr achosion hyn, byddai dulliau amgen priodol yn cael eu defnyddio. Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri, y mae'n ofynnol iddi ei wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon y Loteri. Yn ogystal, mae nodyn 20 ar dudalen 63 yn gwahanu ein hincwm a'n gwariant rhwng ein gweithgarwch CGDG safonol a Chronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig. Mae llawer mwy o arian ar gael o dan y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig nag ar gyfer ein grantiau safonol, a chredwn fod eu cynnwys yn ei gwneud hi'n anodd cymharu gwariant â blynyddoedd blaenorol.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â *Managing Public Money* a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i bob gweithgaredd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri oedd 99% (2016–17: 99%).

### *ng) Benthyciadau*

Mae hawl gan yr ymddiriedolwyr i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980. Mae cyfraddau llog a thelerau ad-dalu fel y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn ddoeth.

### *h) Ardoll brentisiaethau*

Cyflwynwyd yr ardoll brentisiaethau yn 2017–18. Er bod y symiau a dalwn ar gael yn ddamcaniaethol i ariannu'n rhannol cost cyrsiau a ddilynir gan ein prentisiaid, ar hyn o bryd mae'n annhebygol y byddwn yn gallu defnyddio'r symiau hyn yn llawn. Felly, mae'n bolisi gennym i ddileu'r ardoll yn y cyfnod pan wnaed y taliad oni bai bod sicrwydd y bydd y swm yn cael ei ddefnyddio – h.y. mae'r prentis yn ei le ac mae'r cwrs wedi'i drefnu.

## 2. Addasiad blwyddyn flaenorol – effaith ar ganlyniadau

Rydym wedi lleihau balans ein rhwymedigaethau grant ar 31 Mawrth 2017 drwy addasiad blwyddyn flaenorol gan ein bod o'r farn eu bod wedi'u gorddatgan.

Mae'r effaith ar ein canlyniadau adroddedig ar gyfer 2016–17 fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Diffyg gweithredol adroddwyd yng nghyfrifon 2016–17 | (32,090) |
| Addasiad blwyddyn flaenorol | 924 |
| Diffyg gweithredol ar ôl addasiad blwyddyn flaenorol | 31,166 |
| Cyfrif incwm a gwariant Balans ar 31 Mawrth 2017 | 22,383 |
| Addasiad blwyddyn flaenorol | 924 |
| Balans y cyfrif incwm a gwariant ar ôl addasiad blwyddyn flaenorol | 23,307 |

Ni chaiff addasiad y cyfnod blaenorol unrhyw effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2015–16, felly nid ydym wedi ail-gyflwyno ffigurau mantolen gymharol 2015–16 yn y cyfrifon hyn.

I gael rhagor o fanylion ar natur yr addasiad blwyddyn flaenorol – gweler nodyn 13.

## 3. Cymorth grant

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Grant oddi wrth y DCMS | **12,458** | 35,250 |

Mae'r gostyngiad mawr mewn cymorth grant yn adlewyrchu effaith y Gronfa Atgyweirio Toeon

Mannau Addoli Rhestredig wrth i'r rhaglen honno ddod i ben. Defnyddiwyd £7.46miliwn o gymorth grant (2016–17: £30.3miliwn) i ariannu taliadau grant a chostau gweinyddol ar gyfer y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig. Disgwyliwn orfod dychwelyd cyfran fach o'r cyllid hon i DCMS yn 2018–19 gan na fydd angen eu holl gyllid o bosibl ar rai o brosiectau'r Gronfa Atgyweirio Toeon mannau Addoli Rhestredig. Roedd y £5miliwn sy'n weddill yn cynrychioli ein cymorth grant safonol.

## 4. Incwm gweithredol amrywiol

Mae hyn yn cynnwys:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-daliadau grant | 0 | 0 |
| Rhoddion a chymynroddion | 233 | 0 |
| | 233 | 0 |

Mae rhoddion yn cynrychioli derbyniadau gan Fwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon (sy'n masnachu fel Tourism NI) a'r Adran Cymunedau (fel rhan o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon) fel rhan o'r Flwyddyn Treftadaeth Ddiwylliannol Ewropeaidd. Dynodwyd yr arian hwn ar gyfer dyfarniadau penodol yng Ngogledd Iwerddon a wnaed drwy'r rhaglen Ein Treftadaeth, a ariennir yn gyfan gwbl fel arfer gan arian wedi'i ddeillio o'r Loteri Genedlaethol. Rhannwyd y rhodd gyda £222,500 tuag at grantiau (Tourism NI £100,000 a'r Adran Cymunedau £122,500) a £5,000 tuag at ein costau gweinyddu (Tourism NI £5,000).

Dymuna'r Ymddiriedolwyr ddiolch i'r ddau sefydliad hyn am eu cyfraniadau, a hefyd ystâd y diweddar June Suzanne Cropley a roddodd £5,000.

## 5. Diffyg gweithredol

Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl yr archwilydd | 16 | 16 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredol | | |
| – safleoedd prydles | 7 | 6 |
| – llogi offer a pheiriannau | 0 | 0 |

Ni thalwyd unrhyw ffioedd heb fod yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol. Dyrannwyd costau ychwanegol gwerth £8,073,000 i gyfrifon dosbarthu'r Loteri CGDG. Fel y datgelir yn nodyn 1 ar dudalen 54, mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu ei chostau i'w gweithgareddau dosbarthu'r Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd oedd 99%.

Mae dadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | 11 | 11 |
| Post a ffôn | 3 | 3 |
| Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu | 4 | 5 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 10 | 28 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| – cysylltiedig â grant | 6 | 6 |
| – heb fod yn gysylltiedig â grant | 123 | 189 |
| Cyfathrebu | 15 | 13 |
| Costau amrywiol | 4 | 4 |
| Offer swyddfa | 4 | 63 |
| Dyraniad gorbenion y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig | 0 | 326 |
| | 180 | 648 |

Mae dyraniad gorbenion y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig yn cynrychioli costau a godwyd yn wreiddiol ar ein gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yr ystyriwyd eu bod yn gostau anuniongyrchol y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig. Codwyd costau Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig uniongyrchol (staff sy'n gweithio i dîm y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig a chostau allanol a gafwyd wrth gynnal y rhaglen) ar y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig yn uniongyrchol. Mae costau anuniongyrchol yn cynrychioli rhan o amser uwch reolwyr a'r adran gymorth a ddyrennir fel arfer i'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Nid oedd unrhyw ddyraniad gorbenion yn 2017–18 gan fod y rhaglen yn dirwyn i ben a bod lefel y gweithgarwch wedi lleihau'n fawr.

## 6. Elw o werthu buddsoddiadau

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | 153 | 646 |

Caiff elw (neu golled) ei wneud ar waredu buddsoddiadau a gedwir yn y gronfa waddol pan fydd angen cyllid ar CGDG i dalu grantiau neu gostau gweinyddu ein rheolwyr buddsoddi. Yn ystod y flwyddyn, codom £400,000 drwy werthu rhai buddsoddiadau er mwyn talu'r dyfarniadau ychwanegol a wnaed uwchlaw ein cymorth grant blynyddol.

## 7. Llog a dderbyniwyd

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Llog banc a dderbyniwyd | | |
| – Barclays Bank | 0 | 7 |
| – Lloyds Bank | 51 | 11 |
| – Schroder & Co. Limited | 0 | 8 |
| | 51 | 26 |

Yn ystod 2016–17, fe wnaethom newid ein prif fanc o Barclays i Lloyds. Hefyd, cadwom arian parod nad oedd ei angen yn y tymor byr gyda'n rheolwyr buddsoddi os a phan fo ganddynt fynediad at gyfraddau marchnad gwell.

## 8. Arian a symiau cyfwerth ag arian

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Mynediad syth | | |
| – Lloyds Bank | **7,049** | 3,411 |
| – Schroder & Co. Limited | **0** | 0 |
| Rhybudd saith niwrnod | | |
| – Schroder & Co. Limited | **0** | 0 |
| | **7,049** | 3,411 |

Delir arian gyda Lloyds i gynnal ein gweithgareddau dydd i ddydd. Gosodwyd arian nad oedd angen ei ddefnyddio ar unwaith gyda'n rheolwyr buddsoddi oherwydd bod ganddynt hwy fynediad at gyfraddau llog gwell nag y gallwn ni gael gafael arnynt yn uniongyrchol. Rhoddodd Schroder & Co. yr arian ar gadw gyda sefydliadau ariannol eraill. Pan newidiom ein banc o Barclays i Lloyds yn ystod 2016–17, roeddem yn gallu cael cyfraddau llog uwch nag oedd ar gael o Schroders, ac felly roedd ein holl gronfeydd yn Schroders ar ddiwedd y flwyddyn.

Parhawn i adolygu cyfraddau llog sydd ar gael yn y farchnad ar gyfer adneuon tymor byr.

## 9. Eiddo, peiriannau ac offer

| | Eiddo Prydles Fer | | TG ac offer arall | | Ffitiadau Swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **3** | 3 | **20** | 18 | **1** | 1 | **24** | 22 |
| Ychwanegiadau | **0** | 0 | **0** | 2 | **0** | 0 | **0** | 2 |
| Gwarediadau | **(0)** | (0) | **(0)** | (0) | **(0)** | (0) | **(0)** | (0) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **3** | 3 | **20** | 20 | **1** | 1 | **24** | 24 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **2** | 2 | **15** | 13 | **1** | 1 | **18** | 16 |
| Cost am y flwyddyn | **0** | 0 | **2** | 2 | **0** | 0 | **2** | 2 |
| Addasiad wrth waredu | **(0)** | (0) | **(0)** | (0) | **(0)** | (0) | **(0)** | (0) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **2** | 2 | **17** | 15 | **1** | 1 | **20** | 18 |
| Gwerth llyfr net ar ddechrau'r flwyddyn | **1** | 1 | **5** | 5 | **(0)** | (0) | **6** | 6 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **1** | 1 | **3** | 5 | **0** | 0 | **4** | 6 |

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2018 ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth o bwys i werthoedd cost hanesyddol. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mae gwerth eiddo, peiriannau ac offer yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Ar hyn o bryd, y rhaniad hwn yw 99% ar gyfer Cronfa'r Loteri ac 1% ar gyfer cymorth grant.

## 10. Asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu

Sefydlwyd CGDG ym 1980 yn olynydd i'r Gronfa Dir Genedlaethol. Roedd yr Ymddiriedolwyr o'r farn y dylid ystyried £10miliwn o'r cymorth grant cychwynnol a sefydlodd CGDG yn weddillion y Gronfa Dir Genedlaethol, ac roedd i'w drin fel cronfa waddol. Penderfynwyd ei fuddsoddi a chynnal ei werth cyfalaf mewn termau real o'i gymharu â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Y tu hwnt i hynny, nod y buddsoddiad yw cyflawni digon o dwf mewn termau real i alluogi CGDG i fodloni ei rhwymedigaethau. I'r perwyl hwn, gellir gwneud buddsoddiad mewn asedau ariannol hawdd eu marchnata y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae'r tabl ar ddadansoddi buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn ar dudalen 65 yn crynhoi gwasgariad y buddsoddiadau yn ôl math a rhanbarth.

Y nod yw gallu tynnu gwerth gwarged y gronfa waddol, h.y. yr hyn sydd dros ben i werth cyfredol y £10miliwn cychwynnol, i lawr i gyllido proses dyfarnu grantiau CGDG. Fel y soniwyd mewn man arall yn y ddogfen hon, mae'r Ymddiriedolwyr erbyn hyn wedi rhoi'r gorchwyl i'r rheolwyr buddsoddi i gynhyrchu incwm blynyddol a fydd yn cael ei ychwanegu at y cymorth grant a dderbynnir gan DCMS. Gwneir hyn drwy newid cyfran o'r gronfa waddol o unedau cronni cyfalaf i unedau cynhyrchu incwm o fewn y Gronfa Aml-Asedau Elusen lle mae'r gronfa waddol wedi'i buddsoddi ar hyn o bryd.

Ar brydiau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi tynnu cyllid i lawr sy'n mynd â gwerth y gronfa waddol o dan ei gwerth targed. Yn anfodlon y gwna'r Ymddiriedolwyr hyn ac ond pan wynebant y posibilrwydd o golli rhan arwyddocaol o dreftadaeth y Deyrnas Unedig. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r diffyg ac yn defnyddio cymorth grant y dyfodol i

ailgyflenwi'r gronfa waddol os nad yw twf cyfalaf yn uwch na'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu.

Ar 31 Mawrth 2018, byddai'r buddsoddiad gwreiddiol £10miliwn yn werth £42.1miliwn gan ystyried mynegeio. Gwerth gwirioneddol y farchnad oedd £43.9miliwn yn cynnwys arian a gedwir yn y gwaddol.

Mae'r gronfa waddol yn cynnwys y canlynol:

| | Gwerth marchnad 2017–18 £'000 | Cost llyfr 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol hirdymor | 43,939 | 27,618 |
| Arian parod | 0 | 0 |
| | 43,939 | 27,618 |

Caiff y gyfran o'r gronfa hon ar ffurf arian parod ei datgelu yn y cyfrifon hyn fel ased cyfredol fel rhan o'r balansau arian parod. Mae'r gronfa waddol wedi'i buddsoddi yn y Gronfa Aml-Asedau Elusen a gynhelir gan Cazenove Capital, sef enw masnachu Schroders, sy'n buddsoddi mewn ystod o 30 o ymddiriedolaethau unedol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ar draws llawer o fathau o asedau a marchnadoedd daearyddol. Caiff unedau yn y Gronfa Aml-Asedau Elusen eu gwerthu i godi arian ar gyfer taliadau grant a threuliau gweinyddol. Dyma pam y disgrifir yr asedau fel rhai sydd 'ar gael i'w gwerthu'. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw gynlluniau i ddatod y gronfa waddol gyfan.

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Cost a gwerth llyfr net | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 27,881 | 29,156 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 |
| Gwarediadau | (263) | (1,275) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 27,618 | 27,881 |
| Gwerth llyfr net | | |
| Wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain | 0 | 0 |
| Buddsoddiadau heb eu rhestru | 27,618 | 27,881 |
| | 27,618 | 27,881 |
| Cost | 27,618 | 27,881 |
| Gwerth marchnad | 43,939 | 43,856 |
| Elw heb ei realeiddio | 16,321 | 15,975 |

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i drethiant ar enillion a realeiddir gan CGDG.

Ffigurau dadansoddiad o fuddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn, oedd:

| | 2017–18 % | 2016–17 % |
|---|---|---|
| Bondiau | 1 | 2 |
| Ecwiti'r DU | 31 | 35 |
| Ecwiti Ewrop (ac eithrio'r DU) | 4 | 2 |
| Ecwiti Gogledd America | 7 | 7 |
| Ecwiti Siapan ac Asiaidd arall | 6 | 4 |
| Ecwiti marchnadoedd sy'n datblygu | 6 | 5 |
| Cronfeydd ecwiti byd-eang | 9 | 11 |
| Eiddo | 10 | 9 |
| Elw/sicrwydd absoliwt | 16 | 17 |
| Seilweithiau | 2 | 3 |
| Arian parod | 5 | 2 |
| Nwyddau | 3 | 3 |
| | 100 | 100 |

Ceir rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau sylfaenol y gronfa waddol mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

## 11. Symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy – y cyfan yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grant | 0 | 0 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 235 | 2 |
| | 235 | 2 |

Nid oes darpariaeth drwgddyledion wedi'i chreu gan nad ystyrir yr un o'r eitemau uchod yn anadferadwy.

Mae'r cynnydd mawr mewn incwm cronedig yn ymwneud â rhoddion sy'n ddyledus gan Tourism NI a'r Adran Cymunedau ar ddiwedd y flwyddyn.

## 12. Symiau sy'n daladwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredol sy'n daladwy | 3 | 40 |
| Symiau eraill sy'n daladwy gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol | 18 | 63 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 48 | 43 |
| | 69 | 146 |

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG. O'r symiau uchod ar gyfer symiau gweithredol a symiau eraill sy'n daladwy, roedd £3,000 yn daladwy i gyrff llywodraeth ganolog (2016–17: £63,000).

## 13. Ymrwymiadau grant

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **7,847** | 13,746 |
| Grantiau a dalwyd yn y flwyddyn | **(8,864)** | (36,069) |
| Ymrwymiadau safonol a grëwyd yn y flwyddyn | **5,735** | 8,827 |
| Ymrwymiadau'r Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig a grëwyd yn y flwyddyn | **1,236** | 23,685 |
| Dad-ymrwymiadau | **(694)** | (1,418) |
| Addasiad blwyddyn flaenorol | **–** | (924) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **5,260** | 7,847 |

Addasiad blwyddyn flaenorol – un o'r risgiau wrth wneud dyfarniadau i adeiladau hanesyddol yw fod angen amcangyfrifon mawr a threfn hapddigwyddiadau mewn ceisiadau grant gan nad yw gwir gyflwr y to yn hysbys hyd nes bod y gwaith yn dechrau. Weithiau, caiff yr amcangyfrifon hyn eu gorddatgan ac nid oes angen yr holl gyllid yr ydym wedi'i neilltuo. Yn dilyn trafodaethau gyda'n harchwilwyr, rydym wedi llunio'r farn fod rhai o'n gweithdrefnau mewn perthynas â hyn yn rhy ochelgar a chanlyniad hynny yw ein bod yn dal i gydnabod symiau nad ydynt fyth yn debygol o gael eu tynnu i lawr gan y sawl y dyfernir grant iddo fel rhwymedigaethau. Gan hynny, ein haddasiad blwyddyn flaenorol ar gyfer ymrwymiadau marw.

Rydym wedi cynnal ymarferiad i geisio nodi'r balansau gorddatganedig tebygol a'r canlyniad yw bod ein rhwymedigaethau adroddedig ar 31 Mawrth 2017 wedi'u lleihau gan ychydig o dan £1filiwn. Mae rhaglen y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig yn dod i ben ym mis Mehefin 2018, ac felly byddwn yn gwybod beth yw cywirdeb y ddarpariaeth yn fuan.

Y symudiad ar y ddarpariaeth yn 2017–18 oedd:

| | £'000 |
|---|---|
| Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2017 | 0 |
| Addasiad blwyddyn flaenorol – creu darpariaeth | (924) |
| Darpariaeth ychwanegol wedi'i nodi yn 2017–18 | (54) |
| Darpariaeth wedi'i rhyddhau yn 2017–18 | 151 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **(827)** |

Mae balans rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus yn y cyfnodau canlynol:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn | **5,260** | 7,847 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| | **5,260** | 7,847 |

Mae rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus yn ôl sector, fel a ganlyn:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus | | |
| – i lywodraeth ganolog | **545** | 757 |
| – i awdurdodau lleol | **348** | 0 |
| – i gyrff eraill | **4,367** | 7,090 |
| | **5,260** | 7,847 |

## 14. Ymrwymiadau

Mae cyfanswm y taliadau prydles weithredol gofynnol yn y dyfodol yr eir iddynt gan CGDG fel a ganlyn:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Eiddo prydles fer | | |
| – yn dod i ben ymhen blwyddyn fan bellaf | **8** | 9 |
| – yn dod i ben yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | **34** | 34 |
| – yn dod i ben yn hwyrach na phum mlynedd | **13** | 21 |
| | **55** | 64 |

Yn ychwanegol, mae ymrwymiadau prydlesi eiddo prydles fer o £6,354,000 (2016–17: £7,570,000) wedi'u dyrannu i weithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG, ac fe'u datgelir yn y cyfrifon hynny. Nid oes gan CGDG unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

## 15. Nodiadau i'r datganiad llifoedd arian

a) Cysoni diffyg gweithredol i all-lif arian net o weithgareddau gweithredu:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredol | **(6,392)** | (31,166) |
| Llog sy'n dderbyniadwy | **51** | 26 |
| Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian – dibrisiad | **2** | 2 |
| Gostyngiad yn y gronfa wrth gefn ymrwymiad grant | **(2,587)** | (5,899) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy (ac eithrio cyfalaf a buddsoddiadau) | **(233)** | 3 |
| Gostyngiad mewn symiau di-gyfalaf sy'n daladwy | **(77)** | (172) |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | **(9,236)** | (37,206) |

b) Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael | | |
| – eiddo, peiriannau ac offer | (0) | (2) |
| – asedau sefydlog anniriaethol | (0) | (0) |
| – asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | (0) | (0) |
| Derbyniadau o werthu | | |
| – eiddo, peiriannau ac offer | 0 | 0 |
| – asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | 416 | 1,921 |
| | 416 | 1,919 |

c) Dadansoddi newidiadau mewn cyllid net

| | Ar 1 Ebrill 2017 £'000 | Llifoedd arian gweithredol £'000 | Cymorth grant £'000 | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Arian yn y banc | 3,411 | (8,820) | 12,458 | 7,049 |

## 16. Trafodion partïon perthynol

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y DCMS. Ystyrir bod y DCMS yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri) wedi cael trafodion pwysig amrywiol, heblaw am ddyfarnu grantiau, â'r DCMS ei hun a thri endid yr ystyrir mai'r DCMS sy'n eu noddi – y Gronfa Loteri Fawr, Arts Council England a Historic England. Gellir cael mwy o fanylion am y trafodion hyn a balansau yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG.

Yn 2017–18, llofnododd CGDG gytundebau gyda rhan o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon (yr Adran Cymunedau) a chorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon (Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon yn masnachu fel Tourism NI). Cytunodd y cyrff hyn i gyfrannu £227,500 tuag at grantiau a chostau gweinyddu rhai dyfarniadau a wnaethom yng Ngogledd Iwerddon. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £227,500 yn ddyledus gan y cyrff hyn.

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) isbrydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG, yn 7 Holbein Place, Llundain. Ym mis Awst 2016, cafodd yr arwynebedd a feddiannir gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ei leihau o ryw hanner, gyda gostyngiad cymesur yn y rhent a'r cyfraniad at daliadau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir ar y cyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Oddeutu 13 mlynedd yw hyd yr isbrydles hon, a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.4miliwn. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn gwneud cyfraniadau at gost rhedeg Holbein Place o ryw £48,000 y flwyddyn ar lefelau prisiau 2017–18. Ar 31 Mawrth 2018, roedd ar y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ryw £11,000 yn ddyledus i ni am daliadau gwasanaeth heb eu hawlio, ac adlewyrchir y rhan fwyaf o hynny yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ac aelodau panel i gadw cofrestr o fuddiannau mewn cyrff treftadaeth, a gaiff ei diweddaru bob blwyddyn ar y cyd â'n tîm Ysgrifenyddiaeth. Ar ddechrau pob cyfarfod panel neu Fwrdd, mae Ymddiriedolwyr ac aelodau panel yn datgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ac yn peidio â mynychu unrhyw ran o'r cyfarfod lle mae'r cais hwnnw am grant yn cael ei drafod. Ni chymerant unrhyw ran yn y penderfyniad ynglŷn â dyfarnu grant ac nid ydynt ychwaith yn cael eu cynnwys mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r prosiect hwnnw cyn neu ar ôl y penderfyniad grant hwnnw. Hefyd, mae yna reolau llym yn ymwneud â'r amgylchiadau y gall ymddiriedolwyr a phanelwyr dderbyn gwaith am dâl gan y sawl sy'n derbyn grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon na wnaeth yr unigolion mewn unrhyw achos ddylanwadu ar y broses benderfynu ar gyfer y prosiectau hynny y mae ganddynt gysylltiad â nhw.

Roedd gan ddau o ymddiriedolwyr gysylltiad â grantiau'r CGDG a ddyfarnwyd yn 2017–18. Amlinellir manylion buddiannau yng ngrantiau'r Loteri yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG.

### *Amgueddfa Brunel*
Grant o £235,500: Gweledigaeth Twnnel (caffael lluniadau Brunel o Dwnnel Afon Tafwys).

Datganodd Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn noddwr Amgueddfa Brunel.

### *Ymddiriedolaeth SS Great Britain*
Grant o £160,202: Syr Marc Brunel – casgliad ar gyfer Amgueddfa Being Brunel a Sefydliad Brunel.

Datganodd Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn noddwr Amgueddfa Brunel.

### *Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk*
Grant o £90,900: Aristocratiaid Eingl-Sacsonaidd o 'gerllaw Diss'.

Datganodd Steve Miller fuddiant gan ei fod yn Bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, a Gwasanaeth Celfyddydau Norfolk.

Yn ogystal, roedd gan un aelod o banel cynghori CGDG, sy'n cynghori ymddiriedolwyr ar deilyngdod ceisiadau am gymorth grant a dderbyniwyd, fuddiant mewn dyfarniad a wnaeth y Gronfa yn 2017–18.

### *Amgueddfa Fitzwilliam, Prifysgol Caergrawnt*
Grant o £267,607: Achub *Queen Victoria*.

Datganodd Tim Knox fuddiant gan ei fod yn gyfarwyddwr sefydliad yr ymgeisydd.

Nid oedd unrhyw drafodion masnachol eraill yr oedd gan ymddiriedolwyr neu staff fuddiant neu ddylanwad o bwys ynddynt. Bydd trafodion partïon perthynol wedi digwydd yn 2017–18 hefyd, ar ffurf taliadau

grant, a oedd yn ymwneud â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan fod y trafodion partïon perthynol hynny wedi'u datgelu'n flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma.

## 17. Cronfa wrth gefn gwerth teg

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **15,975** | 9,845 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | **346** | 6,130 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **16,321** | 15,975 |

Mae'r gronfa wrth gefn yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cost llyfr a gwerth marchnad asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu (gweler nodyn 10 ar dudalen 57). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodyn 9 ar dudalen 57) yn berthnasol.

## 18. Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7, Offerynnau Ariannol: Datgeliadau (IFRS 7) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl a chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan CGDG bwerau i fenthyg, ond gall fuddsoddi cyllid a ddeillir o gymorth grant. Ac eithrio'r gronfa waddol, mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

### *Risg hylifedd*

Derbyniodd CGDG £12.458miliwn fel cymorth grant yn 2017–18 a £5miliwn arall ym mis Ebrill 2018. Yn ogystal, mae Ymddiriedolwyr yn cadw cronfa waddol ac mae ei buddsoddiad sylfaenol yng Nghronfa Aml-Asedau Elusen Cazenove yn cael ei masnachu'n eang. Mae Ymddiriedolwyr yn gallu hylifo cronfeydd yn ddyddiol pe bai'r angen yn codi i ariannu taliadau grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod ganddynt ddigon o adnoddau hylifol, ar ffurf eu balansau arian parod (gwerth £7miliwn ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol) a'r gronfa waddol (gwerth £43.9miliwn ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol), i dalu'r holl ddyfarniadau grant £5.3miliwn sy'n ddyledus a £194,000 o rwymedigaethau gweinyddol. Mae'r gwaddol wedi'i fuddsoddi mewn cronfa sydd wedi'i buddsoddi'n bennaf mewn ymddiriedolaethau unedol sy'n hawdd eu marchnata; dyfynnir y prisiau'n ddyddiol yn y Financial Times. Mae CGDG yn monitro ei balansau arian yn ddyddiol ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â grantïon er mwyn canfod eu gofynion tebygol o ran tynnu arian i lawr. Cred yr Ymddiriedolwyr nad yw'r Gronfa mewn llawer o berygl o ran risgiau hylifedd sylweddol.

### *Risg marchnad a risg cyfradd llog*

Daliwyd balansau arian mewn amrywiaeth o gyfrifon banc, bob un ohonynt â chyfraddau llog newidiol. Roedd ein cyfrifon gyda Lloyds yn cario cyfradd llog gyfartalog o 0.55%. Fe wnaeth y cynnydd bach mewn cyfraddau sylfaenol ym mis Tachwedd 2017 wella'r adenilliad cyfartalog rhyw fymryn. Defnyddiwyd y cyfrifon hyn i wneud taliadau grant ac ariannu ein gweinyddiad. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym weithiau wedi manteisio ar ddal symiau gyda'n rheolwyr buddsoddi gan y gall fod ganddynt fynediad at gyfraddau llog gwell nag y gallwn ni gael gafael arnynt. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae gennym gyfraddau deniadol yn Lloyds ac felly nid ydym yn manteisio ar gynigion Schroder. Mae'r gostyngiad cyflym mewn cyfraddau llog marchnad a ddigwyddodd yn ystod 2008–09, yn ogystal â'r gostyngiad pellach yn 2016–17, wedi cael effaith barhaus ar adenillion, ond gan nad oes llawer o le i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Y balansau arian parod diwedd blwyddyn oedd £7miliwn ac fe'u daliwyd fel y datgelir yn y tabl ar dudalen 57. Cyfraddau llog o ddim oedd gan asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol CGDG.

Schroders, yn gweithredu o dan yr enw masnachu Cazenove Capital Management, a reolodd waddol CGDG ac fe'i buddsoddodd mewn ystod eang o asedau, o gyfranddaliadau masnachol i arian. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwerth marchnad y gwaddol, heb gynnwys ei elfen arian, yn £43.9miliwn. Mae enillion yn ddibynnol ar y marchnadoedd stoc a marchnadoedd nwyddau byd-eang a pherfformiad cwmnïau sy'n gynwysedig yn y portffolio. Yn ystod y flwyddyn, yr adenilliad ar y gwaddol oedd cynnydd o 1.1%. Adolygwyd perfformiad buddsoddiadau yn barhaus gan yr Ymddiriedolwyr trwy eu Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau a'i Banel Buddsoddi, sy'n cynnwys tri aelod annibynnol â phrofiad helaeth o farchnadoedd ariannol.

Gan fod y balans arian a buddsoddiadau yn y gronfa waddol yn sylweddol uwch na gwerth cyfredol rhwymedigaethau presennol, ac am fod CGDG wedi'i hysbysu o lefel ei chymorth grant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, nid oes unrhyw ddadansoddiad sensitifrwydd manwl wedi'i gynnal. Pe bai gwerth ei chronfa waddol yn gostwng yn sylweddol yn yr hirdymor, byddai ymddiriedolwyr yn gofyn am gynnydd yn eu cymorth grant ar yr un pryd â lleihau eu cyllidebau dyfarnu grantiau yn y dyfodol. Pe bai'r cais hwn yn cael ei wrthod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, bydd yr ymddiriedolwyr yn adolygu eu strategaeth dyfarnu grantiau hirdymor.

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian | | |
| – sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol | 7,049 | 3,411 |
| – sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog a newidiol | 0 | 0 |
| – sterling ar gyfraddau sefydlog | 0 | 0 |
| | 7,049 | 3,411 |

## *Risg credyd*

Mae symiau derbyniadwy CGDG yn cynnwys symiau sy'n ddyledus gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn bennaf. Nid yw, felly, yn agored i risg credyd sylweddol.

## *Risgiau arian tramor*

Mae'r gronfa waddol wedi'i buddsoddi yng Nghronfa Aml-Asedau Elusen Cazenove, a ddynodwyd mewn sterling. Mae'r gronfa yn buddsoddi mewn nifer fawr o ymddiriedolaethau unedol a chynhyrchion tebyg, llawer ohonynt yn cynnwys buddsoddiad mewn asedau wedi'u dynodi mewn arian cyfred arall. Nid oes modd bod yn union fanwl ynglŷn â chyfradd y buddsoddiadau sydd wedi'u dynodi mewn arian tramor, ond oddeutu 31% yw hwnnw. Mae'r gronfa yn lliniaru ei sefyllfa o ran bod yn agored i risgiau cyfraddau cyfnewid tramor trwy fuddsoddi mewn lledaenu ecwitïau, bondiau a nwyddau yn fyd-eang ac, felly, arian cyfred. Mae Panel Buddsoddi'r ymddiriedolwyr yn monitro buddsoddiad ein cronfa waddol, gan gynnwys y sefyllfa o ran bod yn agored i arian tramor yn y Gronfa. Mae holl asedau eraill CGDG wedi'u dynodi mewn sterling.

### Asedau ariannol yn ôl categori

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – asedau anghyfredol | 43,939 | 43,856 |
| – arian a symiau cyfwerth ag arian | 7,049 | 3,411 |
| – benthyciadau a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 235 | 2 |
| | 51,223 | 47,269 |

### Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • ymrwymiadau grant | 5,260 | 7,847* |
| • symiau taladwy gweithredol | 3 | 40 |
| • symiau taladwy eraill | 18 | 63 |
| • croniadau | 48 | 43 |
| | 5,329 | 7,993 |

* ar ôl addasiad blwyddyn flaenorol o £924,000

## *Gwerthoedd teg*

Nodir isod gymhariaeth, yn ôl categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol CGDG ar 31 Mawrth 2018.

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod[1] | 7,049 | 7,049 |
| Buddsoddiadau[2] | 27,618 | 43,939 |
| Symiau derbyniadwy[3] | 235 | 235 |
| | 34,902 | 51,223 |

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2017

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod | 3,411 | 3,411 |
| Buddsoddiadau | 27,881 | 43,856 |
| Symiau derbyniadwy | 2 | 2 |
| | 31,294 | 47,269 |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Symiau grant sy'n daladwy[4] | 5,260 | 5,260 |
| Symiau taladwy gweithredol[5] | 3 | 3 |
| Symiau taladwy eraill[5] | 18 | 18 |
| Croniadau[5] | 48 | 48 |
| | 5,329 | 5,329 |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2017

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Symiau grant sy'n daladwy | 7,847* | 7,847* |
| Symiau taladwy gweithredol | 40 | 40 |
| Symiau taladwy eraill | 63 | 63 |
| Croniadau | 43 | 43 |
| | 7,993 | 7,993 |

* ar ôl addasiad blwyddyn flaenorol o £924,000

Sail prisiad teg:

1. Y ffigur yma yw gwerth buddsoddiadau marchnad arian tymor byr ac adneuon gyda banciau masnachol. Disgwylir bod gwerth llyfr yn gyfwerth â gwerth teg.
2. Gwneir buddsoddiadau mewn gwarantau hawdd eu marchnata a phennir eu gwerth ar lefel canol y farchnad ar ddiwedd busnes ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Lle bo'n berthnasol, cymerir y gyfradd gyfnewid gau rhwng yr arian cyfred sylfaen a sterling ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Mae'r gwerth llyfr yn adlewyrchu'r pris a dalwyd mewn gwirionedd mewn sterling ar ddyddiad cwblhau'r trafodiad.
3. Ni thybir bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Nid yw'r un o'r dyledion yn rhai hirdymor ac felly nid oes unrhyw ffactor disgowntio wedi'i gymhwyso.
4. Nid oes unrhyw ffactor disgowntio wedi'i gymhwyso.
5. Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn telerau cytundebol arferol, 14–30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng cost llyfr a gwerth teg.

**Rhwymedigaethau ariannol yn aeddfedu**

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'00 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | **5,329** | 7,993 |
| Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd | **0** | 0 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **5,329** | 7,993 |

## 19. Datganiad o golledion

Ni wnaeth CGDG unrhyw golledion yn ystod y flwyddyn (2016–17: £0).

## 20. Adrodd segmentaidd

Mae ein datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer 2017–18 wedi'i rannu rhwng ein dwy swyddogaeth fel a ganlyn. Credwn fod gweithredu'r Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig yn ystumio ein tuedd adrodd hirdymor, ac felly rydym wedi rhannu'r incwm a'r gwariant rhwng ein dau weithgaredd – gweler nodyn 1g ar dudalen 55 am ragor o wybodaeth.

| | Safonol £'000 | Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli £'000 | Cyfunol £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu amrywiol | 233 | 0 | 233 |
| Dyfarniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn | (5,735) | (1,236) | (6,971) |
| Dyfarniadau a ddadymrwymwyd | 384 | 310 | 694 |
| Costau staff | (65) | (101) | (166) |
| Dibrisiad | (2) | 0 | (2) |
| Taliadau gweithredu eraill | (132) | (48) | (180) |
| **Gwariant gweithredu** | (5,550) | (1,075) | (6,625) |
| Diffyg gweithredu | (5,317) | (1,075) | (6,392) |
| Elw o werthu buddsoddiadau | 153 | 0 | 153 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | 51 | 0 | 51 |
| **Gwariant net cynhwysfawr a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig** | (5,113) | (1,075) | (6,188) |
| Elw net yn sgil ailbrisio asedau ariannol ar gael i'w gwerthu | 346 | 0 | 346 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018** | **(4,767)** | **(1,075)** | **(5,842)** |

Mae incwm a dderbyniwyd gan Tourism NI tuag at ein costau gweinyddu wedi'i aseinio i Safonol yn y tabl uchod er nad ydyw mewn gwirionedd yn perthyn i'r un o'r categorïau.

## 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2018 hyd at y dyddiad y llofnododd y Swyddog Cyfrifyddu'r cyfrifon hyn y mae angen eu datgelu. Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi ar 6 Gorffennaf 2018 gan yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

## 22. Costau staff

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'00 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **127** | 277 |
| Taliadau YG y cyflogwr | **11** | 14 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **25** | 53 |
| Costau staff dros dro | **3** | 2 |
| | **166** | 346 |

Ceir rhagor o wybodaeth am gostau staff yn yr Adroddiad Tâl a Staff yn rhywle arall yn y cyfrifon hyn.

# Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi ynghylch Amser Cyfleuster) 2017

O dan yr offeryn statudol hwn, mae'n ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undebau llafur a gwariant cyflogeion perthnasol. Mae'r wybodaeth hon yn cwmpasu ein gweithgareddau dosbarthu cymorth grant ac arian y Loteri.

**Swyddogion undeb perthnasol**

Beth oedd cyfanswm nifer eich cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol?

| | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | **26** |
| Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn | **4** |

**Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster**

Faint o'ch cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol a dreuliodd a) 0%, b) 1%–50%, c) 51%–99% neu d) 100% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster?

| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| 0% | **13** |
| 1–50% | **13** |
| 51%–99% | **0** |
| 100% | **0** |

**Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster**

Darparwch y ffigurau y gofynnwyd amdanynt yng ngholofn gyntaf y tabl isod i bennu canran cyfanswm eich bil tâl a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol ar gyfer amser cyfleuster yn ystod y cyfnod perthnasol.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £24,313.52 |
| Cyfanswm bil tâl | £12,954,000 |

Canran cyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster, wedi'i gyfrifo fel:

Cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ Cyfanswm bil tâl × 100

| | |
|---|---|
| (£24,313.52 ÷ £12,954,000) × 100 = | **0.2%** |

**Gweithgareddau undeb llafur am dâl**

Fel canran o'r cyfanswm oriau amser cyfleuster am dâl, faint o oriau a dreuliwyd gan gyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ar weithgareddau undeb llafur am dâl?

Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur am dâl fel canran o'r cyfanswm oriau amser cyfleuster am dâl wedi'i gyfrifo fel:

Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur am dâl gan swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster am dâl × 100

| | |
|---|---|
| (1,107 ÷ 7,280) × 100 = | **15.2%** |

## Buddsoddi'r gronfa waddol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried cyfandaliad o £10miliwn a roddwyd i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ym 1980 fel gwaddol i'w ddefnyddio o bryd i'w gilydd ochr yn ochr â'i chymorth grant i helpu i gefnogi treftadaeth y Deyrnas Unedig. Caiff y gronfa waddol ei buddsoddi er mwyn cynyddu'r elw gymaint â phosibl dros y tymor hir.

Mae'r gwaith o reoli buddsoddiadau yn cael ei roi ar gontract allanol i reolwyr cronfeydd arbenigol yn dilyn ymarfer tendro. Mae CGDG wedi bod yn defnyddio Schroders ers 2010 ac mae'r gronfa waddol gyfan wedi'i buddsoddi yng Nghronfa Aml-Asedau Elusen Schroders. Mae'r gronfa yn gronfa fuddsoddi gyffredin a sefydlwyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Yn ystod 2014–15, cyfunodd Schroders â Cazenove Capital Management ac maent bellach yn defnyddio'r enw hwnnw ar gyfer eu busnes rheoli buddsoddiadau elusen.

Mae'r polisi buddsoddi yn gyfrifoldeb y Panel Buddsoddi – is-bwyllgor o Bwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau'r Bwrdd. Mae'r panel yn cynnwys dau ymddiriedolwr a thri arbenigwr ariannol annibynnol, ac maent yn cyfarfod â Cazenove ddwywaith y flwyddyn i drafod eu perfformiad.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gall fod diddordeb cyhoeddus mewn datgelu'r buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud, ac mae'n nodi eu manylion isod. Mae'r Gronfa Aml-Asedau Elusen yn buddsoddi mewn nifer fawr o ymddiriedolaethau buddsoddi a mathau eraill o fuddsoddiadau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn prynu a gwerthu asedau yn rheolaidd. Roedd y wybodaeth yn gywir ar 31 Mawrth 2018, a bydd yn cael ei diweddaru'n flynyddol.

Mae gan Cazenove ei bolisi buddsoddi cyfrifol ei hun y bydd yn ei fabwysiadu wrth wneud buddsoddiadau. Ystyria faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, ac mae'n cynhyrchu adroddiad buddsoddi cyfrifol blynyddol sy'n rhoi manylion ei weithgareddau. Mae Cazenove yn cydymffurfio ag Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig. Mynnwn fod Cazenove yn ein hysbysu os yw'n ystyried buddsoddi mewn unrhyw sefydliad a allai arwain at embaras i CGDG.

Ffynhonnell: Cazenove 31 Mawrth 2018

* Cronfeydd elw absoliwt – yn wahanol i reolwyr asedau traddodiadol, sy'n ceisio olrhain a pherfformio'n well na meincnod (mynegai cyfeirnod fel y FTSE100), mae'r rheolwyr hyn yn defnyddio strategaethau gwahanol er mwyn cynhyrchu elw cadarnhaol, beth bynnag yw cyfeiriad ac amrywiadau marchnadoedd cyfalaf. Cyfeirir at y cronfeydd hyn weithiau fel cronfeydd mantoli.

*Y Gronfa Aml-Asedau Elusen - Detholiad Buddsoddi*

| | |
|---|---|
| **Ecwitïau'r Deyrnas Unedig** | **30.7%** |
| Cronfa Ecwiti Elusen | 7.5% |
| Ymddiriedolaeth Incwm Ecwiti ar gyfer Elusennau | 3.8% |
| Cronfa Alpha UK Old Mutual | 5.8% |
| Cronfa Ecwiti Majedie UK | 5.3% |
| Cronfa Incwm Troy Trojan | 4.1% |
| Traciwr Holl Gyfranddaliadau DU Aberdeen | 4.2% |
| **Ecwitïau Byd-eang** | **9.4%** |
| Craidd Byd-eang Schroder QEP | 9.4% |
| **Ecwitïau Ewropeaidd** | **3.9%** |
| Cronfa Sefyllfaoedd Arbennig Ewropeaidd Jupiter | 2.0% |
| Cronfa Incwm Alpha Ewropeaidd Schroder | 1.9% |
| **Ecwitïau'r Unol Daleithiau** | **6.6%** |
| Vanguard S&P 500 ETF | 6.6% |
| **Ecwitïau Asia** | **3.1%** |
| Cronfa Alpha Plus Asiaidd Schroder | 3.1% |
| **Ecwitïau Siapan** | **3.2%** |
| Cronfa Tokyo Schroder | 3.2% |
| **Ecwitïau Marchnadoedd Datblygol** | **5.8%** |
| Cronfa Marchnadoedd Datblygol Byd-eang Schroder | 5.8% |
| **Ecwitïau** | **62.7%** |
| **Elw Absoliwt*** | **16.2%** |
| Elw Absoliwt Dyled Marchnadoedd Datblygol ISF Schroder (£) | 2.5% |
| Cronfa Cyfanswm Elw Ruffer | 3.1% |
| Cronfa Troy Trojan | 3.1% |
| Cronfa Elw Absoliwt Henderson UK | 2.7% |
| Cronfa Grwban Majedie | 2.6% |
| Cyfanswm Cronfa Elw Byd-eang Pyrford | 2.2% |
| **Eiddo** | **9.8%** |
| Ymddiriedolaeth Incwm Eiddo ar gyfer Elusennau | 3.5% |
| Cronfa Eiddo Elusennau | 2.3% |
| Cronfa Eiddo Henderson UK | 2.1% |
| Cronfa Incwm Rhenti Tir | 1.9% |
| **Seilweithiau** | **2.4%** |
| Seilwaith 3i | 0.8% |
| Seilwaith HICL | 0.7% |
| Partneriaethau Cyhoeddus Rhyngwladol | 0.9% |
| **Nwyddau** | **2.7%** |
| Cronfa Nwyddau Schroder (£) | 1.1% |
| Gold ETF (£) | 1.6% |
| **Nwyddau Amgen** | **31.1%** |
| **Bondiau** | **1.3%** |
| Cronfa Gredyd Elw Absoliwt Twenty Four | 1.3% |
| **Arian Parod** | **4.9%** |
| Arian Parod | 4.9% |
| **Bondiau ac arian parod** | **6.2%** |

# Cadeirydd, ymddiriedolwyr a rheolwyr


*Cadeirydd ac ymddiriedolwyr CGDG*

**Cadeirydd**
Syr Peter Luff

**Ymddiriedolwyr**
Y Farwnes Kay Andrews OBE

Anna Carragher

Syr Neil Cossons OBE

Sandie Dawe CBE
hyd 14 Awst 2017

Dr Angela Dean

Jim Dixon

Dr Claire Feehily
o 1 Mawrth 2018

Perdita Hunt DL, OBE

Steve Miller

Richard Morris OBE

René Olivieri
o 1 Mawrth 2018

Atul Patel MBE

Y Fonesig Seona Reid DBE

Dr Tom Tew

*Cyfarwyddwyr*

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
Ros Kerslake OBE

Colin Bailey

Judith Cligman

Helen Coley-Smith
o 20 Ebrill 2017

Louise Lane

Eilish McGuinness

*Panel ymgynghorol CGDG*
Dr Brian Allen

Dr Janet Barnes CBE

Tim Knox

Geoff Pick

James Stourton

Merlin Waterson CBE

Leslie Webster

*Panel buddsoddi CGDG*
Sarah Bates

Simon Fraser

Syr Laurie Magnus


*Tîm CGDG*


**Pennaeth CGDG**
Fiona Talbott
020 7591 6008

**Ymholiadau cyffredinol**
Ffôn
020 7591 6044

E-bost
nhmf_enquiries@nhmf.org.uk

**Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol/National Heritage Memorial Fund**
7 Holbein Place
London
SW1W 8NR

Ffôn
020 7591 6000

Ffacs
020 7591 6001

Gwefan
www.nhmf.org.uk


# Cydnabyddiaethau


Ffotograffiaeth
Delwedd y clawr: Platiau Cinio Menywod Enwog © Delwedd trwy garedigrwydd Piano Nobile Gallery, hawlfraint Ystad Vanessa Bell a DACS

Torch Efydd Dwyrain Swydd Gaergrawnt © Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig

Achub *Queen Victoria* © Sotheby's

*A Game of Bowls* © Sotheby's

*Two women in a Garden*, Oriel Gelf Fry www.fryartgallery.org

Nwyddau bedd Aristocratiaid Eingl-Sacsonaidd © Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Archaeoleg Norfolk

Celc Galloway © Ymddiriedolwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban

Monson Papers © Archifau Swydd Lincoln, Cyngor Sir Swydd Lincoln

Dyluniadau Owen Jones © Amgueddfa Victoria ac Albert Museum, Llundain

Fâs Diwrnod Cyntaf © Amgueddfa ac Oriel Gelf The Potteries, Stoke-on-Trent


Gweledigaeth Twnnel yn Amgueddfa Brunel © Amgueddfa Brunel

Syr Marc Brunel – casgliad ar gyfer Amgueddfa Being Brunel a Sefydliad Brunel © Casgliad Ymddiriedolaeth SS Great Britain

Torchau Leekfrith © Cyngor Sir Swydd Stafford

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan The Right Stuff, Llundain

Ailgylchwch ar ôl ei ddefnyddio os gwelwch yn dda.



CCS0618945008
978-1-5286-0601-1